


# Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033

## Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd



Mai 2026

## Tabl Cynnwys

1. Rhagarweiniad .....	2
2. Ymgynghoriad .....	4
3. Atodlen Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd (MAC).....	6
4. MACs – Newidiadau yn seiliedig ar fap.....	319

## Ymgynghoriad ynghylch Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd

### 1. Rhagarweiniad

1.1 Mae Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig (CDLL diwygiedig) Sir Gaerfyrddin 2018-2033 ar hyn o bryd yn destun Archwiliad Cyhoeddus. Mae'r Cyngor wedi llunio Atodlen Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd (MACs) yn bennaf o ganlyniad i Bwyntiau Gweithredu yn deillio o Sesiynau Gwrandawriad yr Archwiliad a gynhaliwyd ym mis Hydref a Thachwedd 2024, a Medi 2025. Mae angen y newidiadau hyn i wneud y Cynllun yn gadarn. Cytunwyd ar yr holl newidiadau hyn yn sgil materion a godwyd gyda'r Arolygydd. Caiff y newidiadau yn sgil materion a godwyd eu cyflwyno at ddibenion ymgynghori ac mae manylion y trefniadau ymgynghori i'w gweld isod. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r Pwyntiau Gweithredu wedi'u diweddarau sydd ar gael ar wefan yr Archwiliad.

Mathau o Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd

1.2 Caiff y Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd eu rhannu'n ddau gategori:

a) Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd (ar gyfer ymgynghori). Y Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd yw'r prif newidiadau arfaethedig i'r Cynllun. Maent yn cynnwys newidiadau o amrywiol sylwedd sy'n ymwneud â geiriad polisïau, testun esboniadol a'r map cynigion. Mae'r Cyngor o'r farn bod y newidiadau hyn yn angenrheidiol i ddangos bod y CDLL diwygiedig yn gadarn ac mae'r Arolygydd wedi'u cytuno arnynt. Mae'r newidiadau hyn yn defnyddio'r rhagddodiad 'MAC' ac maent wedi'u rhifo'n unigol.

b) Mân Newidiadau Golygyddol (er gwybodaeth). Mae'r Mân Newidiadau Golygyddol (MECs) yn newidiadau i'r Cynllun nad ydynt yn effeithio ar ystyr na gweithrediad polisi. Maent yn bennaf yn cynnwys mân newidiadau argraffyddol, ail-rifo polisïau a newidiadau golygyddol cyffredinol eraill i'r datganiad ysgrifenedig. Cyflwynir y Mân Newidiadau Golygyddol er gwybodaeth yn unig a

gellir dod o hyd iddynt fel dogfen ar wahân ar dudalen we Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd. Ni wahoddir sylwadau ar y MECs.

1.3 Mae rhai o'r newidiadau a nodwyd yn yr atodlen yn golygu bod angen newidiadau mapio i'r Map Cynigion a'r Mapiau Mewnosod. Mae'r rhain yn dangos newidiadau i ffiniau, cywiriadau ffeithiol neu gynnwys gwybodaeth ychwanegol ar Fap Cynigion y CDLL a'r Mapiau Mewnosod. Dim ond newidiadau i fapiau sy'n ymwneud â materion cadernid sy'n cael eu cynnwys yn y Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd (a wahaniaethir fel Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd - Mapiau), caiff eraill, sy'n newidiadau ffeithiol, eu cynnwys yn yr atodlen Mân Newidiadau Golygyddol.

1.4 Cyflwynir y ddau fath o newidiadau a nodir uchod mewn atodlenni ar wahân. Caiff y newidiadau eu cyflwyno ar ffurf tabl ac mae gan bob newid: a) rhif cyfeirnod unigryw; b) y rhan o'r CDLL diwygiedig y mae'n berthnasol iddi e.e. rhif polisi neu rif paragraff; c) y newid ei hun gyda'r testun y cynigir ei ddileu yn **goch â llinell drwyddo** a'r testun newydd arfaethedig yn **wyrdd**; a d) ffynhonnell neu darddiad y newid megis y cyfeirnod Pwynt Gweithredu ynghyd â'r rheswm dros y newid. Mae'r atodlen Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd yn defnyddio cyfeiriadau safleoedd presennol fel y nodwyd yn yr Ail CDLL Diwygiedig Adneuo a'r dogfennau Ymgynghoriad Safleoedd Ychwanegol. Bydd y cyfeirnodau safleoedd yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn rhedeg mewn trefn ac yn gyson, gan ystyried dileu safleoedd a nodwyd fel ymrwymadau a chynnwys safleoedd ychwanegol. At ddibenion ymgynghori ar y Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd, mae'r cyfeirnodau safle gwreiddiol yn cael eu cadw er hwylustod cyfeirio a defnyddioldeb y darlennydd.

1.5 Efallai y bydd angen newidiadau canlyniadol pellach i destun y CDLL diwygiedig hefyd o ganlyniad i'r Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd a nodwyd yn yr atodlen.

## 2. Ymgynghoriad

2.1 Gellir gweld Atodlen y Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd a'r dogfennau ategol ar-lein ac mewn llyfrgelloedd yn ystod oriau agor arferol.

Mae dogfennau ymgynghori'r Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd yn cynnwys y canlynol:

- a) Atodlen y Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd (y ddogfen hon);
- b) Atodiad i'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ISA); a
- c) Atodiad i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA).

2.2 Dylid darllen y Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd ar y cyd â'r dogfennau canlynol:

- a) Pwyntiau Gweithredu Sesiynau Gwrandawriad y CDLL diwygiedig;
- b) Datganiad Ysgrifenedig yr Ail Adneuo o'r CDLL;
- c) Mapiau Cynigion y CDLL Adneuo; a
- d) Yr Adroddiad Safleoedd Ychwanegol.

2.3 Rhaid i sylwadau ar y cam hwn o'r archwiliad o'r CDLL fod yn ymwneud â'r Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd yn unig. Ni dderbynnir sylwadau sy'n ceisio ychwanegu at sylwadau blaenorol a wnaed yn yr Ail Gam Adneuo neu unrhyw wrthwynebiadau newydd i elfennau eraill o'r Cynllun. Rhaid i bob sylw nodi'r Newid yn sgil Materion a Godwyd neu'r ddogfen ategol y mae'n ymwneud â hi (gan gynnwys rhifau cyfeirnod lle bo hynny'n berthnasol) a nodi'n glir a yw'r Newid yn sgil Materion a Godwyd yn cael ei ategu neu ei wrthwynebu. Rhaid i bob sylw hefyd gael ei ategu gan esboniad a

rhesymiad priodol, gan gynnwys sut y dylid newid y Cynllun i'w wneud yn gadarn (os yn berthnasol).

2.4 Bydd yr ymgynghoriad ar y Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd yn digwydd dros gyfnod o 6 wythnos. Mae'r cyfnod ymgynghori yn dechrau ar 11/05/2026 ac yn dod i ben ar 26/06/2026 (11.59pm). Gellir gwneud sylwadau ar-lein neu drwy lawrlwytho'r ffurflen sylwadau (dogfen Word) ac anfon y ffurflen wedi'i chwblhau drwy e-bost i [blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk](mailto:blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk) neu drwy bostio copi caled i'r cyfeiriad isod: Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP

2.5 Caiff sylwadau a wneir yn briodol ar y Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd eu hanfon ymlaen at yr Arolygwyr i'w hystyried. Caiff y sylwadau hyn eu hystyried gan yr Arolygwyr wrth ddrafftio'r Adroddiad ysgrifenedig ar Archwiliad y CDLL diwygiedig. Caiff sylwadau ac enwau'r sawl sy'n cyflwyno sylwadau eu cyhoeddi ond bydd gwybodaeth bersonol bellach yn cael ei dileu. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymgynghoriad hwn at y tîm Polisi Strategol a Llunio Lleoedd ar 01267 228818 neu [blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk](mailto:blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk). Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r Archwiliad o'r CDLL at Swyddog y Rhaglen, Corinne Sloley ar [GCSloley@sirgar.gov.uk](mailto:GCSloley@sirgar.gov.uk)

### 3. Atodlen Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd (MAC)

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
MAC 001	<p><b>AP1/1</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Mewnosod y testun canlynol ar ôl paragraff 4.23 a Ffigur 4: Bargen Ddinesig Bae Abertawe.</p> <p>Rhifau Paragraff Newydd</p> <p><b>Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040</b></p> <p>Mae Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040 wedi'i osod yng nghyd-destun gweledigaeth a fydd yn helpu i ddarparu lleoedd cynaliadwy ledled Cymru erbyn 2040, drwy gefnogi'r gwaith o greu lleoedd a sicrhau bod datblygiadau'n cael eu cyfeirio at y lleoedd cywir, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau, creu a chynnal cymunedau iach a hygyrch, gwarchod ein hamgylchedd a chefnogi ffyniant i bawb. Mae'r CDLI Diwygiedig yn cyd-fynd â darpariaethau Cymru'r Dyfodol a'r 11 o ganlyniadau sydd gan y cynllun (fel y'u nodir ym Mhennod 3 Cymru'r Dyfodol) ac yn cefnogi ei rôl wrth yrru twf cynaliadwy a brwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd drwy lywio datblygiad strategol dros yr 20 mlynedd nesaf.</p> <p>Mae polisïau a darpariaethau'r CDLI Diwygiedig yn ffurfio'r fframwaith ar gyfer gweithredu a chyflawni'r weledigaeth a'i hamcanion strategol, yn ogystal â blaenoriaethau corfforaethol a strategol y Cyngor. Mae'r polisïau a'r darpariaethau hyn yn cynnwys ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy yn y CDLI Diwygiedig, gan sicrhau ei fod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gysoni â chynnwys Cymru'r Dyfodol. O ganlyniad, mae'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r 11 canlyniad gan gynnwys twf cynaliadwy, rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a llai o lygredd, y Gymraeg, bioamrywiaeth ac ecosystemau cysylltiedig a lleoedd gwledig bywiog gyda mynediad at gartrefi, swyddi a gwasanaethau ac ati.</p> <p>Ceir amryw ddarpariaethau yn Cymru'r Dyfodol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â Sir Gaerfyrddin, gyda Llanelli a Rhydaman/Cross Hands yn dod o fewn Ardaloedd Twf Cenedlaethol Bae Abertawe fel y'u diffinnir yn fras. Mae Polisi 28 Cymru'r Dyfodol yn nodi Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli fel ardal a fydd yn brif</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>ganolbwynt ar gyfer twf a buddsoddiad yn Rhanbarth y De-orllewin. Mae'r CDLI yn cydnabod hyn fel ffocws ar gyfer twf a buddsoddi trwy nodi aneddiadau o fewn haen uchaf yr hierarchaeth aneddiadau.</p> <p>Yn yr un modd, caiff Caerfyrddin ei nodi fel Canolfan Dwf Ranbarthol ac mae Castellnewydd Emlyn yn ffurfio rhan o Ardal Dwf Ranbarthol canolbarth Cymru yn unol â (Polisi 25).</p> <p>Mae Cymru'r Dyfodol yn darparu ar gyfer twf a reolir yn yr ardaloedd hyn sy'n ymwneud â'u swyddogaethau is-ranbarthol pwysig a'u cysylltiadau cryf ar draws rhanbarth De-orllewin Cymru. Mae hefyd yn nodi'r angen am: brosesau rheoli adnoddau naturiol, llifogydd, a diogelu a gwella ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol a thirweddol ac y dylent lywio penderfyniadau strategol ynghylch lleoliadau ar gyfer twf a seilwaith newydd; datgarboneiddio cymdeithas ac ymateb i fgythyadau'r argyfwng hinsawdd ac y dylai hyn fod yn ganolog i bob achos o gynllunio rhanbarthol; ac yn cydnabod y potensial sydd gan Sir Gaerfyrddin o'r lleoliad hwn ar gyfer datblygu, arloesi a buddsoddi newydd sy'n gysylltiedig ag ynni adnewyddadwy a charbon isel.</p> <p>Mae'r rôl o greu lleoedd yn llifo trwy bolisi cynllunio cenedlaethol ac mae'r CDLI Diwygiedig yn ei hymgorffori fel elfen ganolog ynddo. Mae Cymru'r Dyfodol, fel rhan o'r agenda hon, hefyd yn nodi nifer o egwyddorion creu lleoedd strategol, gan gynnwys galluogi ardaloedd trefol i gefnogi gwytnwch ecosystemau yn ogystal â chynyddu dwysedd poblogaeth trefi a dinasoedd sydd wedi'u bwriadu i greu lleoedd cynaliadwy a chynhwysol yn gymdeithasol.</p>
<b>MAC 002</b>	<p><b>AP1/2</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Mae'r testun canlynol i'w fewnosod ar ôl y newid a gynigir uchod mewn ymateb i AP1/1.</p> <p>Rhifau Paragraff Newydd</p> <p><b>Cynlluniau Datblygu Strategol</b></p> <p>Mae'r Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Rhanbarth y De-orllewin wedi'i ddiffinio gan ardal weinyddol y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac fel y'i nodir yn Cymru'r Dyfodol. Ffurfiwyd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru, a gyfansoddwyd yn ffurfiol ym mis Ionawr 2022, trwy ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Abertawe, yn ogystal ag o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>Mae gan y Pwyllgor rôl strategol allweddol o fewn y rhanbarth o ran gwella cynlluniau rhanbarthol, cydlynu a darparu trafndiaeth, cynllunio defnydd tir, datblygu economaidd ac ynni. Mae'r rôl hon yn adlewyrchu'r ffocws ehangach ar weithio a chydweithio rhanbarthol ar draws rhanbarth amrywiol, sy'n cynnwys ardaloedd gwledig helaeth ac ardaloedd trefol, sydd i gyd wedi'u lleoli o fewn ac o amgylch rhai o amgylcheddau naturiol ac adeiledig pwysicaf Cymru.</p> <p>Mae Cymru'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i Gynlluniau Datblygu Strategol gydymffurfio â gofynion Polisi 19. Yn hyn o beth, rhaid iddynt ystyried ac ymateb i'r canlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol a nodir yn Cymru'r Dyfodol sydd, gyda'i gilydd, yn ceisio creu Cymru fwy cynaliadwy, iach a thecach. Bydd disgwyl i Gynlluniau Datblygu Strategol ddangos sut y bydd y fframwaith gofodol y maent yn ei ddatblygu, a'r dewisiadau allweddol a wneir ganddynt, yn cyfrannu at gyflawni'r Canlyniadau. Mae rôl Cynlluniau Datblygu Strategol yn y dyfodol a'r berthynas â'r CDLI Diwygiedig wedi bod yn ystyriaeth wrth ddatblygu'r Cynllun hwn, gyda chydweithio rhanbarthol yn elfen bwysig. Yn hyn o beth, cyfeirir yn benodol at y diffiniad gofodol o'r Ardal Dwf Genedlaethol a baratowyd ar y cyd gan yr awdurdodau ledled y rhanbarth. Mae hyn wedi cael ei ddefnyddio i lywio darpariaethau'r CDLI Diwygiedig a bydd yn ffurfio rhan o'r dystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol sydd i ddod. Mae'n dangos sut y mae strategaethau gofodol a hierarchaethau aneddiadau'r CDLI Diwygiedig a'r Cynllun Datblygu Strategol yn cyd-fynd â darpariaethau Cymru'r Dyfodol a'i ganlyniadau.</p> <p>Mae Sir Gaerfyrddin wedi cydweithio, a bydd yn parhau i weithio, gydag awdurdodau ar draws rhanbarth De-orllewin Cymru, a'r rheiny o fewn rhanbarth canolbarth Cymru, ar ddarpariaethau a chynnwys y Cynllun Datblygu Strategol yn y dyfodol. Er bod y Cynllun Datblygu Strategol yn ei gamau cychwynnol, mae'r Cyngor wedi mynd ati i weithio gydag awdurdodau cyfagos ar y trefniadau llywodraethu a'r gofynion ffurfiannol ar gyfer ei baratoi. Mae'r Cyngor hefyd wedi datblygu tystiolaeth gyffredin a fydd yn ategu'r gwaith o baratoi a chyflawni'r CDLI Diwygiedig a bydd yn helpu i lywio a thanategu cynnwys Cynllun Datblygu Strategol yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth mewn perthynas â Hyfywedd Datblygu, Aseidiadau'r Farchnad Dai Leol, Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd, Prosiect Diffinio Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli, Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir ar gyfer Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, ac Aseiad Canlyniadau Llifogydd Strategol Cam 1 De-orllewin Cymru.</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
MAC 003	<p><b>AP1/3</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Diwygio Amcan Strategol AS4 fel a ganlyn:</p> <p><b>AS4 Sicrhau bod egwyddorion cyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol yn cael eu cynnal drwy hyrwyddo mynediad i dai, gwasanaethau cyhoeddus, gofal iechyd, siopau, cyfleusterau hamdden a chyfleoedd gwaith amrywiol ac o ansawdd uchel, yn ogystal â chanol trefi bywiog.</b></p>
MAC 004	<p><b>AP2/1</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Diwygio Polisi SP1 i adlewyrchu'r newid mewn niferoedd tai fel y nodir o dan MAC 011. Yn ogystal â chynnwys croesyfeiriad at Bolisi SP3.</p> <p><b>Polisi Strategol – SP1: Twf Strategol</b></p> <p><b>Bydd y CDLI yn darparu ar gyfer twf economi gynaliadwy a gofynion tai yn y dyfodol drwy ddarparu:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a. <b>9,814 9,704</b> o dai newydd i fodloni'r gofyniad tai a nodwyd o 8,822.</li> <li>b. <b>Dyrannu isafswm o 71.21ha o dir cyflogaeth.</b></li> </ul> <p><b>Mae'r ffocws ar adfywio a thwf yn adlewyrchu uchelgeisiau strategol craidd y Cyngor gan ddsbarthu datblygiad mewn modd cynaliadwy sy'n gyson â'r strategaeth ofodol a'r fframwaith aneddiadau (Polisi SP3).</b></p>
MAC 005	<p><b>AP1/6, AP15/7</b></p>	<p>Diwygio Polisi SG1 i esbonio defnydd arfaethedig a maint y datblygiad.</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd	
	Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	<b>SG1: Adfywio a Safleoedd Defnydd Cymysg</b>	
		<b>Cyf. Safle</b>	<b>Lleoliad a Defnyddiau Arfaethedig</b>
		<b>PrC1/MU1</b>	<b>Gorllewin Caerfyrddin, Caerfyrddin</b>  Cynigir cymysgedd o ddefnyddiau, yn cynnwys defnydd preswyl (darpariaeth ar gyfer 700 o dai newydd o fewn cyfnod y cynllun hwn), cyflogaeth, cyfleusterau cymunedol (yn cynnwys ysgol gynradd) ac amwynder. Roedd Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin yn ddangosydd cyflawnadwyedd allweddol. Mae'r ffordd hon bellach wedi'i chwblhau ac ar agor.
		<b>PrC1/MU2</b>	<b>Pibwr-lwyd, Caerfyrddin</b>  Yn cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau sy'n adlewyrchu ei leoliad strategol a'i gyfraniad at Gaerfyrddin. Mae'r defnydd yn cynnwys cyflogaeth, hamdden masnachol, addysg yn gysylltiedig â Choleg Sir Gâr a phreswyl (ceir darpariaeth ar gyfer 247 o dai newydd).
		<b>PrC2/MU1</b>	<b>Hen Safle Gwaith yr Hen Gastell, Llanelli</b>  Cymysgedd o ddefnyddiau yn canolbwyntio ar yr economi ymwelwyr, treftadaeth a hamdden, a seilwaith cysylltiedig a thirweddu ar draws y safle 3.4ha, gan gynnwys adnewyddu'r Adeilad Rhestredig Gradd 2 a gaiff ei adnabod fel y Tŷ Tun (750 metr sgwâr). Mae'r safle yn dir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac yn rhan o gynnydd adfywio sy'n cynnwys defnyddiau llai agored i niwed. Mae'r safle yn agos at Barc Arfordirol y Mileniwm. Nid oes dim darpariaeth breswyl wedi'i gwneud.
<b>PrC2/MU2</b>	<b>Porth Trostre, Llanelli</b>		

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd	
			<p>Cymysgedd o ddefnyddiau gan gynnwys datblygu siop fwyd Dosbarth A1 a Siop Goffi Gyrru Trwodd, gyda mynediad cysylltiedig, parcio ceir a gwaith tirweddu a ddatblygwyd ym mlynnyddoedd cynnar cyfnod y CDLI Diwygiedig. Mae darn bach o dir yn parhau i fod ar yr ochr orllewinol a fyddai'n cefnogi defnydd adwerthu ar raddfa fach o oddeutu 250m<sup>2</sup> o arwynebedd llawr gros. sy'n adlewyrchu ei leoliad amlwg a'i hanes cynllunio.</p>
		PrC2/MU3	<p><b>Hen Adeilad yr YMCA, Stryd Stepney, Canol Tref Llanelli</b></p> <p><del>Cymysgedd o ddefnyddiau mewn lleoliad yng nghanol tref, gyda darpariaeth ar gyfer 8 uned breswyl</del></p> <p>Mae'r safle wedi'i gwblhau ac yn cynnwys gofod swyddfa / adwerthu ar y llawr gwaelod. Mae 8 uned breswyl wedi'u cwblhau ar loriau uchaf y datblygiad.</p>
		PrC3/MU1	<p><b>Gwaith Brics Emlyn, Pen-y-groes</b></p> <p>Darpariaeth i adfywio safle a ddatblygwyd o'r blaen. <del>Dangosydd allweddol o'r gallu i gyflawni yw'r Mae Ffordd Gyswilt Economaidd Cross Hands a gwblhawyd yn ddiweddar yn gorwedd ger ffin orllewinol y safle ac mae'n darparu cysylltiadau cyfleus â choridor trafndiaeth yr A48 a'r M4 sy'n cael ei adeiladu.</del> Ceir darpariaeth i gyflawni datblygiad sy'n canolbwyntio ar y gymuned ynghyd â 177 o dai newydd.</p>
		SeC4/MU1	<p><b>Glannau Porth Tywyn</b></p> <p><del>Cymysgedd o ddefnyddiau sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth adwerthu briodol, ynghyd â defnyddiau masnachol / twristiaeth cysylltiedig. Dim darpariaeth breswyl wedi'i gwneud.</del></p> <p>Mae'r dyraniad defnydd cymysg wedi'i rannu'n ddwy ardal ar wahân o dir.</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd	
			<p>Mae'r elfen ogleddol o'r dyraniad yn cynnwys y potensial ar gyfer cymysgedd o ddefnyddiau sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth adwerthu briodol o hyd at 2,000m<sup>2</sup> o arwynebedd llawr gros, ynghyd â defnyddiau masnachol / twristiaeth. Bydd angen i unrhyw ddatblygiad arfaethedig ystyried polisiau'r Cynllun ynghyd â darpariaethau TAN4.</p> <p>Mae rhan ddeheuol y safle yn rhan o ardal Uwchgynllun Porth Tywyn (Safle 4). Mae gan y safle ganiatâd cynllunio amlinellol ar gyfer datblygiad hamdden masnachol sy'n cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau adwerthu, gwesty, tafarn/bwyty a phreswyl o hyd at 5,000m<sup>2</sup> o arwynebedd llawr gros. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddarpariaeth breswyl wedi'i gwneud o fewn Polisi HOM1 – Dyraniadau Tai.</p>
		<b>SeC16/MU1</b>	<p><b>Beechwood, Llandeilo</b></p> <p>Mae'r safle'n cynnwys <del>Yn cynnwys</del> cymysgedd o ddefnyddiau sy'n adlewyrchu ei leoliad strategol a'i gyfraniad i Llandeilo. Mae'r defnyddiau'n cynnwys cymysgedd o unedau dechrau cyflogaeth a swyddfeydd B1 (tua 3020 metr sgwâr), <del>masnachol</del> ac adwerthu (A1 ac A3 o hyd at 1700 metr sgwâr o arwynebedd llawr gros). Mae'r safle yn rhan o ardal fwy sydd wedi'i chynnwys o fewn terfynau datblygu ond a nodwyd yn barth perygl llifogydd C2. Bydd angen i geisiadau fodloni'r holl ofynion o ran hyn.</p>
		<b>SeC20/MU1</b>	<p><b>Parc Gwyliau Talacharn</b></p> <p>Mae'r safle'n cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau sy'n canolbwyntio ar dwristiaeth a hamdden <del>ae</del> sy'n yn gysylltiedig ag ailddatblygu Parc Gwyliau Talacharn, a gaiff ei adnabod bellach fel Dylan Coastal Resort. Mae'r rhan fwyaf o'r ardal a ddyrannwyd bellach wedi'i chwblhau gydag ardal fechan yng ngogledd y safle eto i'w datblygu.</p>
		<b>PrC1/MU3</b>	<p><b>Safle adfywio a Defnydd Cymysg Nant-y-caws</b></p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd	
			<p>Safle mewn man strategol a ddefnyddir eisoes i reoli gwastraff mewn modd cynaliadwy. Mae'n cynnig cyfle yn y dyfodol i fanteisio ar ynni, a gweithgareddau cysylltiedig sy'n seiliedig ar gyflogaeth. Bydd <b>cyfuno</b> cyfleoedd yn y dyfodol <b>ar y safle yn</b> cael ei nodi trwy ddatblygu uwchgynllun.</p>
<b>MAC 006</b>	<b>AP1/7</b>  Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	<p>Dileu <b>Polisi SG2 - Safleoedd wrth Gefn</b> a'i gyfiawnhad rhesymegol o'r Cynllun, gan ddiwygio Polisi SG3 – Penrhyn Pen-bre o ganlyniad a fydd yn cymryd ei le fel y Polisi SG2 newydd.</p> <p>Yn ogystal, diwygiwyd yr holl groesgyfeiriadau dilynol eraill yn unol â hynny trwy bob rhan o'r Cynllun.</p>	
<b>MAC 007</b>	<b>AP1/13; AP4/14; AP15/7</b>  Sicrhau bod cynnwys y	<p>Diwygio Polisi SP2 fel a ganlyn:</p> <p><b>Polisi Strategol – SP 2: Adwerthu a Chanol Trefi</b></p> <p><b>Bydd cynigion am ddatblygiadau adwerthu ac at ddefnydd arall yng nghanol trefi yn cael eu hystyried yn unol â'r hierarchaeth adwerthu a ganlyn a'r darpariaethau isod:</b></p>	



Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p><del>1) Cyflwyno asesiad effaith i ddangos na fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effaith andwyol ar fywiogrwydd a hyfywedd y ganolfan adwerthu bresennol;</del></p> <p><del>2) Tystiolaeth o fod wedi cymhwyso prawf dilyniannol wrth ddewis y safle;</del></p> <p><del>3) Tystiolaeth o angen meintiol ac ansoddol am y datblygiad; a,</del></p> <p><del>4) Tystiolaeth o hygyrchedd y safle i ddulliau trafndiaeth cynaliadwy.</del></p> <p><b>dc) Bydd cynigion ar gyfer adwerthu a defnyddiau canol tref eraill o fewn ffin canol y dref yn cael eu cefnogi a fydd, lle bo hynny'n berthnasol:</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1) Yn darparu cyfleoedd i'r sectorau adwerthu a masnachol annibynnol;</li> <li>2) Yn cefnogi <del>a pheidio â thanseilio</del> parhad swyddogaeth canol trefi lefel uwch a lefel ganol fel canolfannau adwerthu;</li> <li>3) Hyrwyddo ac arallgyfeirio addysg, hamdden, cyfleusterau diwylliannol, a'r economi gyda'r nos;</li> <li>4) Darparu ar gyfer creu gofodau cyhoeddus o ansawdd a gwelliannau amgylcheddol gan gynnwys gwarchod a gwella cymeriad lleol unigryw yr amgylchedd adeiledig hanesyddol a naturiol, ac ymrwymiad i ddylunio o ansawdd uchel;</li> <li>5) Gwella lleoedd i gerddwyr, beicwyr a phobl pobl â chyflyrau iechyd neu namau, gan wella trafndiaeth gyhoeddus, hygyrchedd, mynediad i gyfleusterau cyhoeddus, manau parcio i geir, arwyddion, a'r strydlyn; a,</li> <li>6) Gwarchod, gwella ac integreiddio â'r rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas.</li> </ol> <p><b>d) Y tu allan i'r ffiniau canol tref uchod gellir caniatáu'r mathau canlynol o ddarpariaeth adwerthu a defnyddiau canol tref eraill yn unol â pholisi cenedlaethol:</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1) Unedau warws adwerthu newydd nad ydynt ar gyfer bwyd (gan gynnwys canolfannau garddio, neuaddau arddangos ceir a chyfleusterau ategol), cyfleusterau hamdden priodol mewn parciau adwerthu dynodedig a defnyddiau canolfan fasnachu ar safleoedd cyflogaeth, ble maent yn cael eu cefnogi gan <del>y</del> dystiolaeth berthnasol. <b>a nodir isod:</b></li> </ol>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p><del>i. asesiad effaith yn dangos na fyddai'r cynnig yn niweidio canol trefi sefydledig;</del></p> <p><del>ii. tystiolaeth o fod wedi mabwysiadu ymagwedd ddilyniannol sy'n dangos nad oes safleoedd addas a chynaliadwy ar gael mewn lleoliadau oddi mewn i ganol trefi diffiniedig neu'n union wrth eu hymyl;</del></p> <p><del>iii. tystiolaeth o angen meintiol, ansoddol ac/neu angen arall perthnasol am y datblygiad;</del></p> <p><del>iv. tystiolaeth o hygyrchedd y safle i ddulliau trafndiaeth cynaliadwy.</del></p> <p><b>2) Cynigion am gyfleusterau siopa cyfleustra lleol mewn ardaloedd gwledig a threfol o fewn y ffiniau datblygu os yw eu graddfa'n briodol i'r anheddiad hwnnw. Bydd cynigion am ddatblygiadau adwerthu gwledig yn cael eu hystyried yn unol â pholisi RTC2.</b></p> <p>Diwygio paragraff 11.34 fel a ganlyn:</p> <p>11.34 Mae gan Gaerfyrddin rôl is-ranbarthol hirsefydlog ac yn draddodiadol mae wedi bod â phresenoldeb cenedlaethol cryf ar ei stryd fawr ynghyd ag amrywiaeth o siopau lleol. Fodd bynnag, mae Covid-19 wedi cael effaith amlwg ar natur ei darpariaeth adwerthu gyda nifer o gwmnïau cenedlaethol wedi tynnu'n ôl yn sgil yr heriau ariannol a'r ad-drefnu o fewn y sector adwerthu. O ganlyniad, er bod y ganolfan yn gwasanaethu amrywiaeth o anghenion ar gyfer y boblogaeth y tu hwnt i'w chymuned leol a bydd yn parhau i wneud hynny, rhaid i natur ei darpariaeth a'r ystod o ddefnyddiau o fewn y craidd adwerthu traddodiadol allu addasu wrth gadw'r sylfaen adwerthu draddodiadol honno. Mae'r Polisi felly yn caniatáu'r hyblygrwydd i gyflwyno defnyddiau heblaw adwerthu yng nghanol y dref. Wrth wneud hynny, mae maen prawf a yn ceisio sicrhau nad yw cymysgedd o ddefnyddiau yn andwyol i gymeriad a swyddogaeth adwerthu canol y dref. Ni ddylai cynigion arwain at ormod o unedau nad ydynt yn rhai adwerthu yng nghanol tref Caerfyrddin. Bydd pob cynnig yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun gan ystyried ei gyd-destun a'i ddefnyddiau cyfagos. Mae'r Archwiliad Adwerthu o Ganol y Dref a gynhelir ddwywaith y flwyddyn yn cofnodi'r defnyddiau a wneir o bob uned o fewn ffin canol y dref a bydd yn cael ei ddefnyddio wrth ystyried ceisiadau. Bydd yr archwiliad yn golygu bod modd adnabod clystyrau o unedau nad ydynt yn cael eu defnyddio at ddibenion adwerthu a monitro tueddiadau eiddo gwag yn yr hirdymor. Mae'r ganolfan yn parhau i fod yn un y gellir ei galw'n rhwydd yn ganolfan adwerthu lefel uwch ar sail y darpariaethau uchod.</p> <p>Paragraff newydd i'w fewnosod ar ôl 11.40:</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>Rhif paragraff newydd</p> <p>Mae'r Astudiaeth Adwerthu yn dangos nad oes capasiti ar gyfer arwynebedd llawr adwerthu nwyddau cymharol ychwanegol yn Sir Gaerfyrddin dros gyfnod y Cynllun, ac felly bydd angen i gynigion ar gyfer arwynebedd llawr nwyddau cymharol ychwanegol ddangos bod angen y ddarpariaeth ychwanegol. Yn yr un modd, mae'r Astudiaeth Adwerthu yn dangos bod yna ormod o arwynebedd llawr nwyddau cyfleustra yn Sir Gaerfyrddin; fodd bynnag, mae hyn yn amrywio ar draws y Sir ac mae'r Astudiaeth yn awgrymu bod yna rywffaint o gapasiti ar gyfer arwynebedd llawr nwyddau cyfleustra ychwanegol ym Mharth 1 – Caerfyrddin a Pharth 3 – Rhydaman Cross Hands, fel y nodwyd yn yr Astudiaeth. Er gwaethaf hyn, bydd angen i gynigion ar gyfer arwynebedd llawr nwyddau cyfleustra ddangos bod yna angen o safbwynt adwerthu am arwynebedd llawr nwyddau cyfleustra ychwanegol yn unol â Nodyn Cynngor Technegol 4 - Adwerthu a Datblygiadau Masnachol (2016).</p> <p>Diwygio paragraff 11.43 fel a ganlyn i ddiffinio siopau cyfleustra lleol bach:</p> <p>Bydd darpariaeth y tu allan i'r canolfannau is-ranbarthol a chanolig, gan gynnwys siopau pentref lleol, yn gwneud cyfraniad pwysig at swyddogaeth adwerthu Sir Gaerfyrddin. Yn hyn o beth, mae'r canolfannau hynny sy'n bodloni angen am adwerthu nwyddau cyfleustra a mân anghenion siopa o ddydd i ddydd yn creu amrywiaeth sy'n gyson â'r amcanion o gynnal cymunedau a lleihau'r angen i deithio hyd yr eithaf. Gall yr aneddiadau hyn a'u cynnig adwerthu ategu swyddogaeth adwerthu sefydledig aneddiadau sydd yn uwch i fyny'r hierarchaeth a chyfrannu hefyd at weithredu Strategaeth y Cynllun. Gall fod yn ofynnol i gynigion adwerthu cyfleustra y tu allan i ffiniau canol y dref mewn canolfannau o'r fath ddangos tystiolaeth briodol o'r angen am ddarpariaeth adwerthu er mwyn sicrhau nad ydynt yn tanseilio'r gweithgarwch adwerthu yng nghanol y trefi. Dylai eu graddfa fod yn briodol ac yn gymesur â'r anheddiad cymharol ond yn gyffredinol ni ddylent fod yn fwy na 200 metr sgwâr gros o arwynebedd llawr. Dylai cynigion sy'n mynd y tu hwnt i'r trothwy hwn ddangos bod angen yr arwynebedd llawr adwerthu a nodwyd.</p> <p>Paragraff newydd i'w fewnosod ar ôl paragraff 11.55</p> <p>Paragraff newydd: Cyfeirir at Bolisi CCH4 er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd gwarchoddedig sy'n sensitif i faetholion</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
<b>MAC 008</b>	<b>AP1/14</b>  Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	<p>Diwygio Polisi RTC1 fel a ganlyn:</p> <p><b>RTC1: Diogelu siopau a chyfleusterau lleol</b></p> <p><b>Ni fydd Bydd</b> cynigion a fyddai'n arwain at golli siop, gwasanaeth neu gyfleuster cymunedol lleol (gan gynnwys Tafariadau) y tu allan i Ganol Trefi a nodwyd ym Mholisi Strategol SP2 dim ond yn cael eu caniatáu yn yr achosion a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a) Pe na bai'r golled honno'n niweidio gwead cymdeithasol ac economaidd y gymuned;</li> <li>b) Os oes siop neu wasanaeth arall o ddefnydd cydnaws tebyg <b>ar gael i gwsmeriaid</b> o fewn yr anheddiad neu o fewn pellter cerdded cyfleus.</li> </ul> <p>Os na cheir darpariaeth arall, bydd cynigion a fydd yn arwain at golli'r siop leol, neu wasanaeth dim ond yn cael eu caniatáu os <b>yw pob ymdrech resymol wedi'i gwneud i farchnata'r gellir dangos bod y busnes i'w werthu neu i'w osod wedi cael ei farchnata am dros gyfnod parhaus o 12 mis <del>ac wedi methu.</del></b></p>
<b>MAC 009</b>	<b>AP15/7</b> Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	<p>Er mwyn sicrhau bod cyfeiriad priodol at ddarpariaethau Polisi CCH4, cynigir ychwanegu'r frawddeg ganlynol at gyfiawnhad rhesymegol Polisi RTC2 ar ôl paragraff 11.66</p> <p><b>Rhif paragraff newydd: Cyfeirir at Bolisi CCH4 er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd gwarchoddedig sy'n sensitif i faetholion.</b></p>
<b>MAC 010</b>	<b>AP1/8 AP15/7</b>	Diwygio polisi SD1 fel a ganlyn:

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
	Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	<p><b>SD1: Terfynau Datblygu</b></p> <p>Caiff <b>T</b>erfynau datblygu eu diffinio <b>ar y map cynigion</b> ar gyfer yr aneddiadau hynny sy'n cael eu nodi fel Prif Ganolfannau, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Cynaliadwy o fewn Polisi Strategol SP3.</p> <p>Bydd cynigion o fewn <b>T</b>erfynau <b>D</b>atblygu a ddiffinnir yn cael eu caniatáu, yn amodol ar bolisïau a chynigion y Cynllun hwn, polisïau cenedlaethol ac ystyriaethau cynllunio eraill perthnasol. <b>Mewn aneddiadau gwledig a'r tu allan i derfynau datblygu diffiniedig bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad amhriodol.</b></p> <p>Rhif Paragraff Newydd: Mae terfynau datblygu yn fecanwaith allweddol ar gyfer helpu i reoli twf yn y dyfodol trwy ddiffinio'r ardal lle byddai datblygu fel arfer yn cael ei ganiatáu, yn amodol ar ystyriaethau cynllunio materol. Mae'r terfynau datblygu wedi'u cymhwysu i'r Prif Ganolfannau, Canolfannau Gwasanaeth a Phentrefi Cynaliadwy fel y'u diffinnir ym Mholisi Strategol SP3: Dosbarthiad Cynaliadwy – Fframwaith Aneddiadau.</p> <p>11.75 Wrth baratoi'r Cynllun hwn, mae terfynau datblygu wedi'u diffinio <del>ar draws yr holl aneddiadau o fewn Haenau 1, 2, a 3,</del> er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Atal datblygu amhriodol yng nghefn gwlad a rhoi sicrwydd ac eglurder ynghylch lle y gellir ystyried bod cynigion eithriadau (yn gyfagos i derfynau) yn briodol;</li> <li>• Atal cyfuno aneddiadau (neu rannau ar wahân o'r un anheddiad), datblygiad hirgul annerbyniol neu ddatblygiad tameidiog,</li> <li>• Nodi'r ardaloedd hynny lle byddai cynigion datblygu yn cael eu caniatáu (gweler uchod); a</li> <li>• Hyrwyddo defnydd effeithiol a phriodol o dir sy'n canolbwyntio twf o fewn aneddiadau diffiniedig.</li> </ul> <p>Rhif Paragraff Newydd: Mewn aneddiadau gwledig (Haen 4) a'r tu allan i'r terfynau datblygu diffiniedig bydd cynigion ar gyfer datblygu yn cael eu rheoli'n llym a dim ond yn unol â pholisïau'r Cynllun y byddant yn cael eu cefnogi, a/neu os ystyrir bod lleoliad cefn gwlad yn hanfodol o ystyried natur y cynnig, yn unol â'r Polisi a'r Canllawiau Cynllunio Cenedlaethol.</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>Rhif Paragraff Newydd: Mae'r rhagdybiaeth yn erbyn unrhyw gynigion amhriodol y tu allan i ffiniau aneddiadau diffiniedig yn rhoi eglurder ynghylch y lleoliadau priodol ar gyfer datblygu yn y dyfodol a bydd yn sicrhau bod twf yn cael ei reoli'n strategol. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i dai a allai fod yn briodol y tu hwnt i ffiniau aneddiadau gan ystyried polisïau'r cynllun (dylid cyfeirio yn benodol at AHOM2) a Pholisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol.</p> <p>Rhif Paragraff Newydd: Mae Polisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol a pholisïau'r Cynllun hwn yn cydnabod bod cyfleoedd cyflogaeth lleol o fewn aneddiadau gwledig yn bwysig i gynnal a gwella cymunedau. Cyfeirir at Bolisi EME 4 sy'n darparu ar gyfer cynigion cyflogaeth priodol y tu allan i'r terfynau datblygu, yn ogystal ag EME2 mewn perthynas ag ehangu mentrau gwledig presennol. Yn unol â Pholisi Cynllunio Cenedlaethol cydnabyddir bod gan fentrau ar raddfa fach rôl hanfodol yn yr economi wledig a'u bod yn cyfrannu at gystadleurwydd a ffyniant lleol a chenedlaethol. Yn hyn o beth gall nifer o weithgareddau masnachol a gweithgynhyrchu ysgafn gael eu lleoli'n briodol mewn ardaloedd gwledig heb darfu mewn modd annerbyniol neu achosi unrhyw effeithiau niweidiol eraill, gan ganiatáu ar gyfer arallgyfeirio'r economi wledig. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i ardaloedd gwledig y Sir lle mae'r Cynllun yn cefnogi cyflogaeth a mentrau gwledig.</p> <p>11.76 Nid yw pob tir ar Fap Cynigion a Mapiau Mewnosod wedi ei nodi ar gyfer datblygiad penodol, nac yn destun polisi penodol. Gall ardaloedd sylweddol o dir ymddangos fel tir heb ei anodi yn y Cynllun. Bydd cynigion datblygu yn cael eu hystyried ar sail eu rhinweddau unigol yn erbyn darpariaethau'r CDLI hwn, ac ystyriaethau perthnasol eraill.</p> <p>Rhif paragraff newydd: Cyfeirir at Bolisi CCH4 er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd gwarchoddedig sy'n sensitif i faetholion.</p>
MAC 011	<p>AP2/1</p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Diwygio paragraff cyntaf Polisi SP4 fel a ganlyn:</p> <p><b>Er mwyn sicrhau bod y gofyniad tai cyffredinol o 8,822 o dai dros gyfnod y cynllun yn cael ei fodloni, darperir ar gyfer 9,704 9,814 o dai newydd yn unol â'r fframwaith aneddiadau (Polisi SP3) er mwyn hyrwyddo creu a gwella cymunedau cynaliadwy.</b></p> <p>Diwygiad canlyniadol i baragraff 9.57, pwynt bwled cyntaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu 9,704 9,814 o dai newydd er mwyn cyflenwi'r gofyniad o 8,822 o dai.</li> </ul>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd																		
MAC 012	<p>AP2/1</p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Diwygio paragraff 11.79 fel a ganlyn:</p> <p>11.79 Mae'r Cynllun hwn yn cyfrifo nifer o gydrannau cyflenwi tai er mwyn bodloni'r angen am dai, ynghyd â hyblygrwydd (cynnydd) er mwyn sicrhau y bydd nod cyffredinol y polisi strategol i ddarparu tai newydd yn cael ei gyflawni. <u>Mae'r cyflenwad tai yn rhoi lwfans hyblygrwydd o 11.24%</u> <del>Mae'r cyflenwad tai ac</del> yn cynnwys y cydrannau a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li><del>• Dyraniadau Tai (5+ cartref)</del> <ul style="list-style-type: none"> <li><del>○ Ymrwymadau banc tir</del></li> <li><del>○ Anheddau wedi'u cwblhau</del></li> </ul> </li> <li><del>• Lwfans Hap-safleoedd</del> <ul style="list-style-type: none"> <li><del>○ Cydran Safleoedd Bach (llai na 5 cartref)</del></li> <li><del>○ Cydran ar Hap-safleoedd (5+ Cartref)</del></li> </ul> </li> <li><del>• Hyblygrwydd (+10%)</del></li> </ul> <table border="0" style="width: 100%; border-collapse: collapse;"> <tr> <td style="width: 80%;">Dyraniadau Polisi HOM1</td> <td style="text-align: right;">2685</td> </tr> <tr> <td>Ymrwymadau (yn weddill)</td> <td style="text-align: right;">2750</td> </tr> <tr> <td>Darpariaeth ar gyfer Hap-safleoedd Mawr (yn weddill)</td> <td style="text-align: right;">522</td> </tr> <tr> <td>Hap-safleoedd Bach (Yn weddill)</td> <td style="text-align: right;">840</td> </tr> <tr> <td colspan="2">Wedi'u cwblhau:</td> </tr> <tr> <td>Ymrwymadau (wedi'u cwblhau)</td> <td style="text-align: right;">2269</td> </tr> <tr> <td>Darpariaeth ar gyfer Hap-safleoedd Mawr (wedi ei gwblhau)</td> <td style="text-align: right;">84</td> </tr> <tr> <td>Hap-safleoedd Bach (Wedi'u cwblhau)</td> <td style="text-align: right;">664</td> </tr> <tr> <td><b>Cyfanswm</b></td> <td style="text-align: right;"><b>9814</b></td> </tr> </table> <p>Newidiadau canlyniadol i Baragraff 9.11:</p>	Dyraniadau Polisi HOM1	2685	Ymrwymadau (yn weddill)	2750	Darpariaeth ar gyfer Hap-safleoedd Mawr (yn weddill)	522	Hap-safleoedd Bach (Yn weddill)	840	Wedi'u cwblhau:		Ymrwymadau (wedi'u cwblhau)	2269	Darpariaeth ar gyfer Hap-safleoedd Mawr (wedi ei gwblhau)	84	Hap-safleoedd Bach (Wedi'u cwblhau)	664	<b>Cyfanswm</b>	<b>9814</b>
Dyraniadau Polisi HOM1	2685																			
Ymrwymadau (yn weddill)	2750																			
Darpariaeth ar gyfer Hap-safleoedd Mawr (yn weddill)	522																			
Hap-safleoedd Bach (Yn weddill)	840																			
Wedi'u cwblhau:																				
Ymrwymadau (wedi'u cwblhau)	2269																			
Darpariaeth ar gyfer Hap-safleoedd Mawr (wedi ei gwblhau)	84																			
Hap-safleoedd Bach (Wedi'u cwblhau)	664																			
<b>Cyfanswm</b>	<b>9814</b>																			

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd																			
		<p>9.11 Drwy ddarparu nifer y tai a nodir uchod, mae'r Strategaeth a Ffeirir hon yn cynnwys hyblygrwydd ychwanegol fel rhan o'i chyflenwi (ymgodiad) i sicrhau twf cynaliadwy a goresgyn unrhyw broblemau cyflawni annisgwyl posibl. Mae <b>lwfans</b> hyblygrwydd o <b>11.24%<del>10</del></b> drwy <b>992 <del>882</del></b> o dai pellach wedi'i gynnwys. Mae hyn yn cyfateb i gyflenwad tai o <b>9,814 <del>9,704</del></b> o anheddau i gyflenwi'r 8,822 o gartrefi.</p> <p>Newidiadau canlyniadol i'r fframwaith monitro:</p> <table border="1" data-bbox="501 619 2132 1145"> <thead> <tr> <th data-bbox="501 619 763 804">Amcanion y CDLI a'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig</th> <th data-bbox="763 619 909 804">Polisi</th> <th data-bbox="909 619 1122 804">Cyfeirnod y Dangosydd:</th> <th data-bbox="1122 619 1402 804">Dangosydd Monitro</th> <th data-bbox="1402 619 1648 804">Targed</th> <th data-bbox="1648 619 1865 804">Pwynt Sbarduno</th> <th data-bbox="1865 619 2132 804">Ffynhonnell</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td data-bbox="501 804 763 1145">SO6, SO10 ISA10, ISA15</td> <td data-bbox="763 804 909 1145">SP4 HOM1</td> <td data-bbox="909 804 1122 1145">MI. 8</td> <td data-bbox="1122 804 1402 1145"><b>Dangosydd Lleol:</b> Nifer yr anheddau a gyflawnwyd ar Ddyraniadau Tai.</td> <td data-bbox="1402 804 1648 1145">Darparu <b>6,824</b> <b>5,435</b> o anheddau ar safleoedd a ddyrannwyd <b>ac yr ymrwymwyd iddynt.</b></td> <td data-bbox="1648 804 1865 1145">Cyfanswm nifer yr unedau tai newydd a adeiladwyd ar safleoedd a ddyrannwyd sy'n disgyn islaw'r gofyniad blynyddol am 2 flynedd yn olynol.</td> <td data-bbox="1865 804 2132 1145">Cyngor Sir Caerfyrddin</td> </tr> </tbody> </table>						Amcanion y CDLI a'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig	Polisi	Cyfeirnod y Dangosydd:	Dangosydd Monitro	Targed	Pwynt Sbarduno	Ffynhonnell	SO6, SO10 ISA10, ISA15	SP4 HOM1	MI. 8	<b>Dangosydd Lleol:</b> Nifer yr anheddau a gyflawnwyd ar Ddyraniadau Tai.	Darparu <b>6,824</b> <b>5,435</b> o anheddau ar safleoedd a ddyrannwyd <b>ac yr ymrwymwyd iddynt.</b>	Cyfanswm nifer yr unedau tai newydd a adeiladwyd ar safleoedd a ddyrannwyd sy'n disgyn islaw'r gofyniad blynyddol am 2 flynedd yn olynol.	Cyngor Sir Caerfyrddin
Amcanion y CDLI a'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig	Polisi	Cyfeirnod y Dangosydd:	Dangosydd Monitro	Targed	Pwynt Sbarduno	Ffynhonnell															
SO6, SO10 ISA10, ISA15	SP4 HOM1	MI. 8	<b>Dangosydd Lleol:</b> Nifer yr anheddau a gyflawnwyd ar Ddyraniadau Tai.	Darparu <b>6,824</b> <b>5,435</b> o anheddau ar safleoedd a ddyrannwyd <b>ac yr ymrwymwyd iddynt.</b>	Cyfanswm nifer yr unedau tai newydd a adeiladwyd ar safleoedd a ddyrannwyd sy'n disgyn islaw'r gofyniad blynyddol am 2 flynedd yn olynol.	Cyngor Sir Caerfyrddin															
<b>MAC 013</b>	<b>AP2/4 AP15/7 AP6/21</b>	Diwygio tabl HOM1 fel a ganlyn (sylwer y bydd y cyfeiriadau safle yn destun mân newidiadau golygyddol er mwyn sicrhau bod y rhifau'n gyson ac mewn trefn gan adlewyrchu safleoedd a nodwyd fel ymrwymadau sydd wedi'u dileu a safleoedd ychwanegol sydd wedi'u cynnwys) yn ogystal â'r cyfiawnhad rhesymegol.																			

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd					
	Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad 1/17	<p>Cynnwys anodiad (♣) i nodi'r safleoedd canlynol sydd ag elfen o berygl llifogydd.</p> <p>PrC1/h12 ♣ - Heol Castell Pigyn, Abergwili  PrC1/MU1 ♣ - Gorllewin Caerfyrddin  PrC2/SS1 ♣ - Pentre Awel  SeC7/h3 ♣ - Golwg Yr Afon</p> <p>Diwygiadau canlyniadol i'r map cynigion yn ogystal â'r map rhyngweithiol i gynnwys ♣ sy'n anodi perygl llifogydd wrth ymyl cyfeirnod y safle a diwygio'r map rhyngweithiol i gynnwys cyfeiriad at bolisiau perygl llifogydd.</p>					
		<b>Cyf. Safle</b>	<b>Enw'r Safle</b>	<b>Cyfanswm yr Unedau yng Nghyfnod y Cynllun</b>	<b>Cyfanswm yr Unedau Fforddiadwy yng nghyfnod y Cynllun</b>	<b>Amserlen Darparu Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15</b>	<b>Unedau y tu hwnt i Gyfnod y Cynllun</b>
		<b>Clwstwr 1</b>					
		<b>Caerfyrddin</b>					
		PrC1/h2	Heol Maesyffynnon	29	8.7	Blwyddyn 6-10	
		PrC1/h3	*113 Heol y Prior	37	37	Blwyddyn 1-5	
		PrC1/h4	Tir oddi ar Barc y Delyn	17	1.7	Blwyddyn 11-15	
		PrC1/h5	I'r dwyrain o Lôn Devereaux	10	5	Blwyddyn 6-10	
		PrC1/h7	Fferm Penybont, Heol Llysonnen	9	0	Blwyddyn 1-5	
		PrC1/h8	*Heol Llansteffan	50	50	Blwyddyn 6-10	
		PrC1/h9	Mounthill	5	0	Blwyddyn 1-5	
		PrC1/h10	Brynhyfryd	20	2.4	Blwyddyn 6-10	

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd					
		PrC1/h11	Estyniad Rhiw Babell	12	0	Blwyddyn 1-5	
		PrC1/h12	Heol Castell Pigyn, Abergwili	35	4.2	Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15	
		PrC1/h14	Heol Bronwydd (de)	44	2	Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10	
		PrC1/h15	Gerllaw Tyle Teg, Ffordd Llysonnen	7	2	Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10	
		PrC1/h16	Rhiw Babell	9	1.5	Blwyddyn 6-10	
		PrC1/h17	4-5 Heol y Cei	5	0	Blwyddyn 6-10	
		PrC1/h18	Castell Howell	7	2.1	Blwyddyn 6-10	
		PrC1/h19	Tir gerllaw Ty Gwynfa	10	10	Blwyddyn 1-5	
		PrC1/h20	5-8 Heol Spilman	12	12	Blwyddyn 6-10	
		PrC1/h21	Clos Tawelan	18	18	Blwyddyn 1-5	
		PrC1/MU1	Gorllewin Caerfyrddin	700	84	Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15	291
		PrC1/MU2	Pibwr lwyd	247	61.75	Blwyddyn 11-15	
		<b>Pont-iets / Y Meinciau / Pont- henri</b>					
		SeC1/h1	Heol Pisgwydd	19	3.8	Blwyddyn 6-10	
		SeC1/h3	Tir yn ffinio â Chapel y Tabernacl	11	4	Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10	
		SeC1/h4	Gae Canfas, Heol Llanelli	8	Cyfraniad Swm Cyfnewid	Blwyddyn 6-10	
		SeC1/h5	Tir yn 8 Heol Llanelli	6	Cyfraniad Swm Cyfnewid	Blwyddyn 6-10	

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd					
		SeC1/h6	Tir oddi ar Heol Llanelli	10	2	Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15	
		SeC1/h7	Tir oddi ar Heol Glyndwr	9	2	Blwyddyn 6-10	
		<b>Glanyfferi</b>					
		Sec2/h1	Llys Garadog	12	Cyfraniad Swm Cyfnewid	Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10	
		Sec2/h2	Tir y tu ôl i Barc y Ffynnon	12	1.2	Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15	
		<b>Cynwyl Elfed</b>					
		SuV1/h1	Gerllaw Fron Houlog	8	Cyfraniad Swm Cyfnewid	Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15	
		SuV1/h2	Tir ger Lleine	13	1.3	Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15	
		<b>Llansteffan</b>					
		SuV3/h1	Tir y tu ôl i Faesgriffith	16	5	Blwyddyn 6-10	
		<b>Bronwydd</b>					
		SuV4/h1	Tir ar fferm Troed Rhiw	6	Cyfraniad Swm Cyfnewid	Blwyddyn 6-10	
		<b>Cwm-ffrwd</b>					
		SuV5/h1	Tir ym Maesglasnant	20	4	Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10	
		<b>Llan-gain</b>					
		SuV8/h1	I'r de o Ddôl y Dderwen	36	10.8	Blwyddyn 6-10	
		<b>Peniel</b>					
		SuV10/h1	I'r de o Pentre	9	4	Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10	

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd					
		SuV10/h2	Aberdeuddwr/Pant-y-fedwen	38	4.56	Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15	
		<b>Alltwalis</b>					
		SuV11/h1	*Tir yn Ysgol Alltwalis	12	12	Blwyddyn 6-10	
		Llanpumsaint					
		SuV12/h1	Ger Gwyn Villa	20	2.4	Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15	
		SuV12/h2	Llandre	8	Cyfraniad Swm Cyfnewid	Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15	
		<b>Rhydargaeau</b>					
		SuV14/h1	Fferm Cefn	36	3.7	Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15	
		<b>Llanarthne</b>					
		SuV15/h1	Ysgol Llanarthne	8	Cyfraniad Swm Cyfnewid	Blwyddyn 1-5	
		<b>Capel Dewi</b>					
		SuV16/h1	Heol Llwynddewi	8	Cyfraniadau Swm Cyfnewid	Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10	
		<b>Nantgaredig</b>					
		SuV17/h1	Cefn yr Hen Waith Saer, Heol yr Orsaf	35	4.2	Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15	
		<b>Pontargoethi</b>					
		SuV18/h1	Tir oddi ar yr A40, Pontargoethi	15	1	Blwyddyn 6-10	
		<b>Llanddarog</b>					
		SuV19/h1	Tir gyferbyn â Neuadd y Pentref	16	3.2	Blwyddyn 6-10	

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd					
		SuV19/h2	Tir ger Haulfan a'r tu ôl i Haulfan	10	4	Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15	
		<b>Porth-y-rhyd</b>					
		SuV20/h1	Tir ger Fferm Llwynhenri	6	Cyfraniad Swm Cyfnewid	Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15	-
		<b>Cyfanswm Clwstwr 1</b>		<b>1690</b>			
		<b>Clwstwr 2</b>					
		<b>Llanelli</b>					
		PrC2/h1	Beech Grove, y Pwll	10	4	Blwyddyn 6-10	
		PrC2/h2	Hen Labordy Lôn Pen-y-fai	13	2	Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10	
		PrC2/h3	Parc y Strade	94	0	Blwyddyn 1-5	
		PrC2/h4	Doc y Gogledd	210	42	Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15	
		PrC2/h6	107 Heol yr Orsaf	7	0	Blwyddyn 1-5	
		PrC2/h7	13-15 Heol yr Orsaf	9	0	Blwyddyn 1-5	
		PrC2/h9	*3-5 Heol Goring	8	8	Blwyddyn 1-5	
		PrC2/h10	Tir ger The Dell, Ffwrnes	13	1.3	Blwyddyn 6-10	
		PrC2/h12	*Llys yr Hen Folin, Canol y Dref	26	26	Blwyddyn 1-5	
		PrC2/h13	*Tir oddi ar Redfa Frondeg	29	29	Blwyddyn 1-5	
		PrC2/h14	Cefn 22c, 22d a 22e Heol Llwynhendy	6	0	Blwyddyn 1-5	
		PrC2/h15	Heol Maesarddafen / Erw Las, Llwynhendy	94	18.8	Blwyddyn 6-10	
		PrC2/h16	Ynys Las, Llwynhendy	33	6.6	Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15	

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd					
		PrC2/h18	*Dylan, Trallwm	32	32	Blwyddyn 1-5	
		PrC2/h19	Genwen, y Bryn	240	48	Blwyddyn 1-5	
		PrC2/h20	*Harddfau	6	6	Blwyddyn 6-10	
		PrC2/h21	*Maes y Bryn, y Bryn	34	34	Blwyddyn 1-5	
		PrC2/h22	Cwm y Nant, Dafen	202	40.4	Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15	
		PrC2/h23	Porth Dwyrain Dafen	150	45	Blwyddyn 6-10	
		PrC2/h24	Clos Ffordd Fach	13	0	Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10	
		PrC2/h25	*Tir oddi ar Clos y Berllan	20	20	Blwyddyn 6-10	
		PrC2/h26	Gerllaw Rhif 19 Heol Llwynhendy	6	1	Blwyddyn 6-10	
		PrC2/h27	42 Stryd Stepney	8	0	Blwyddyn 1-5	
		PrC2/h28	Heol Y Graig, Llwynhendy	5	Cyfraniadau Swm Cyfnewid	Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10	
		PrC2/MU3	Hen Adeilad yr YMCA, Stryd Stepney, Canol Tref Llanelli	8	8	Blwyddyn 1-5	
		PrC2/SS1	Pentre Awel	240	60	Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15	
		<b>Cydweli</b>					
		SeC3/h2	Tir oddi ar Stryd y Prior	20	2.4	Blwyddyn 11-15	
		SeC3/h3	Llys Felin	24	1.5 + Cyfraniad Swm Cyfnewid	Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10	
		SeC3/h4	Tir yn Dinas Yard gynt	71	5	Blwyddyn 6-10	
		<b>Porth Tywyn</b>					
		SeC4/h1	Fferm Gwdig	105	21	Blwyddyn 1-5	
		SeC4/h2	Harbwr Porth Tywyn	364	72.8	Blwyddyn 6-10 Blwyddyn 11-15	

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd					
		SeC4/h3	*Teras Glanmor	32	32	Blwyddyn 1-5	
		<b>Pen-bre</b>					
		SeC5/h1	*Garreglwyd	14	14	Blwyddyn 1-5	
		Sec5/h2	Awel y Mynydd	100	20	Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10	
		<b>Yr Hendy / Fforest</b>					
		SeC6/h1	Llwyngwern	20	5	Blwyddyn 1-5	
		SeC6/h2	Tir rhwng Heol Clayton a Dwyrain Heol Bronallt	20	2.2	Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10	
		SeC6/h3	Coed y Bronallt	6	Cyfraniad Swm Cyfnewid	Blwyddyn 1-5 Blwyddyn 6-10	
		<p><del>11.144 Mae TAN 23 yn ystyried 'efallai y bydd y targedau darparu tir yn uwch na'r galw disgwylledig', i ddarparu ar gyfer y siawns i ateb y galw. Mae'r Canllawiau Ymarfer sy'n cyd-fynd â'r Nodyn Cyngor Technegol (Awst 2015) yn ystyried, lle gellir cyfiawnhau hynny, efallai y bydd y targedau darparu tir yn uwch na'r galw disgwylledig, i ddarparu ar gyfer y siawns bod yr asesiadau'n rhy isel ac i sicrhau nad oes unrhyw gyfleoedd yn cael eu colli. Wrth gydnabod pwysigrwydd peidio â dibynnu dim ond ar ragolygon cyflogaeth pan eir ati i adnabod portffolio o dir cyflogaeth, mae Astudiaeth y Ddwy Sir yn pwysleisio galw a hyder busnesau broderol i aros a thyfu, a dyhead gan randdeiliaid i warchod manteision lleoliadol ac asedau strategol ar gyfer twf yn y dyfodol.</del></p> <p><del>11.145 Gan gydnabod yr uchod, mae Astudiaeth y Ddwy Sir wedi adnabod portffolio o safleoedd yn ardal yr astudiaeth yr ystyrir eu bod yn cynnig manteision strategol a chyfle i dyfu a chreu swyddi.</del></p> <p><u>Tystiolaeth am angen cyflogaeth y dyfodol</u></p> <p>Rhifau paragraff newydd  Mae'r Cyngor wedi casglu dystiolaeth i ddarparu dealltwriaeth o anghenion cyflogaeth y dyfodol o fewn y Sir ac yn arbennig yn y naw sector y rhoddir blaenoriaeth iddynt gan Lywodraeth Cymru. Mae dau ddarn o dystiolaeth wedi'u cynhyrchu sy'n cynnwys yr Adroddiad Tai a Thwf Economaidd (Tachwedd 2022), ac Astudiaeth y Ddwy Sir sydd wedi'i pharatoi ar y cyd â Chyngor Sir Penfro.</p> <p>Mae Polisi Strategol SP7: Cyflogaeth a'r Economi yn gosod y fframwaith er mwyn gallu darparu lefel gytbwys o dir cyflogaeth ar gyfer y swyddi newydd a'r angen a nodwyd drwy Astudiaeth Economaidd y Ddwy Sir ar gyfer Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin a'r Adroddiad Tai a Thwf Economaidd.</p> <p>Sefydlodd Astudiaeth y Ddwy Sir ddadansoddiad meintiol o'r galw a ragwelir am safleoedd cyflogaeth ar lefel fwy na lleol, ac roedd hyn yn cael ei ategu gan dystiolaeth y farchnad a chyflogwyr mewn perthynas â galw'r farchnad. Cafodd y cysylltiadau rhwng cydraddoli lefelau tir cyflogaeth a swyddi gyda'r gofyniad am dwf tai newydd i'r Sir eu hystyried ymhellach gan yr Adroddiad Tai a Thwf Economaidd.</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>Mae tystiolaeth gefndirol y CDLI Diwygiedig yn gosod y naratif ar gyfer y berthynas rhwng twf tai, creu swyddi a darparu tir cyflogaeth. Wrth allosod data o'r modelau demograffig, mae'n awgrymu y gallai'r senario a ffeirir o 8,822 o anheddau gynnwys 276 o swyddi newydd y flwyddyn, na fyddai'n cefnogi'n llawn ragolwg Experian o 354 o swyddi'r flwyddyn. Er mwyn cyflawni hyn, byddai angen newid ymddygiad gweithlu mwy amlwg o fewn y Sir; fodd bynnag, mae'r Cynllun yn ceisio ystyried sawl ffactor wrth benderfynu ar lefel o dwf cynaliadwy.</p> <p>Mae Canllawiau Ymarfer Llywodraeth Cymru - Adeiladu Sylfaen Dystiolaeth Datblygu Economaidd i Ategu Cynllun Datblygu Lleol yn ystyried, lle gellir cyfiawnhau hynny, y gallai'r targedau darparu tir fod yn uwch na'r galw disgwylidig, i ddarparu ar gyfer y siawns bod yr asesiadau'n rhy isel ac i sicrhau nad oes unrhyw gyfleoedd yn cael eu colli. Dylent hefyd ganiatáu hyblygrwydd, cystadleuaeth, a dewis. Fodd bynnag, gall gormodedd parhaus o dir cyflogaeth achosi niwed lle mae'r cyflenwad tir arfaethedig yn fwy na'r galw, fel bod safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd yn parhau i fod yn wag am gyfnodau hir ac yn rhwystro datblygiad ar gyfer defnyddiau tir eraill.</p> <p>Mae'r CDLI Diwygiedig yn dyrannu 71.21 hectar o dir cyflogaeth a allai ddarparu amcangyfrif o 6,652 o swyddi, a thra cydnabyddir nad yw'r cyfrifiad o gartrefi i swyddi, a chreu swyddi i ddarpariaeth tir cyflogaeth yn cyd-fynd â'r CDLI Diwygiedig, rhaid nodi nad oes perthynas union ac uniongyrchol rhwng tai a swyddi, ac felly dim ond fel un ddangosol y gellir darllen unrhyw berthynas.</p> <p>Mae'n bwysig nodi hefyd bod rhaid gwireddu a darparu tystiolaeth o lefel y cartrefi newydd. Yn hyn o beth byddai unrhyw gynnydd mewn cartrefi newydd i gyfateb i'r swyddi posibl a gaiff eu creu trwy ddyraniadau cyflogaeth newydd yn arwain at or-ddarpariaeth na ellir ei chyflawni o dai newydd yn y Sir.</p> <p>Serch hynny, gwnaeth yr Adroddiad Tai a Thwf Economaidd asesiad o'r patrymau cymudo o Gyfrifiad 2011 a oedd yn nodi cymhareb gymudo o 1.09, sy'n dangos all-lif net o gymudwyr o Sir Gaerfyrddin. Mae'r Cynllun, drwy ddyrannu 71.21ha, yn ceisio adfer cydbwysedd y gymhareb gymudo i leihau nifer preswylwyr Sir Gaerfyrddin sy'n mynd allan o'r sir i weithio ac i hyrwyddo buddsoddiad a ffurfiau cynaliadwy o dwf yn y Sir.</p> <p>Mae graddfa'r tir cyflogaeth a nodwyd yn y Cynllun yn sicrhau hyblygrwydd a'r gallu i'w gyflawni ac mae'n adlewyrchu'r dadansoddiad a nodir yn Astudiaeth y Ddwy Sir a'r adroddiad Tai a Thwf Economaidd. Mae'n bwysig er mwyn cefnogi buddsoddiad ac uchelgais cynllun adfywio strategol Sir Gaerfyrddin a strategaethau twf economaidd eraill yn ogystal â Bargaen Ddinesig Bae Abertawe ac Adroddiad Cyflawni Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru.</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
MAC 026	<p>AP4/3</p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p><b>EME1: Cyflogaeth - Diogelu Safleoedd Cyflogaeth</b></p> <p><b>Bydd safleoedd a nodwyd at ddibenion cyflogaeth trwy bolisi SP7 a safleoedd cyflogaeth presennol yn cael eu diogelu ar gyfer y defnyddiau hynny (B1, B2, B8 a'r rhai a adnabuwyd trwy ddarpariaethau polisi perthnasol).</b></p> <p><b><del>Yn eithriadol,</del> b</b> Bydd cynigion sy'n arwain at eu colli'n cael eu caniatáu dim ond lle gellir dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li><del>a.</del> <b>a) Nad oes angen y safle neu'r adeiladau mwyach neu nad yw'n addas mwyach ar gyfer defnydd cyflogaeth;</b></li> <li><del>b.</del> <b>b) Na allai'r defnydd arfaethedig gael ei leoli'n rhesymol yn rhywle arall yn unol â pholisïau'r Cynllun hwn;</b></li> <li><del>c.</del> <b>c) Bod tir neu adeiladau cyflogaeth sy'n ddigonol o ran eu nifer, eu hansawdd a'u hamrywiaeth y gellir eu dwyn ymlaen i ddiwallu anghenion cyflogaeth y Sir a'r ardal leol;</b></li> <li><del>d.</del> <b>d) Nad oes unrhyw ddefnyddiau cyflogaeth diwydiannol na busnes sy'n hyfyw yn economaidd ar gyfer y safle a'r adeiladau;</b></li> <li><del>e.</del> <b>e) Bod defnydd cyflogaeth yn anghydnaws â defnyddiau cyfagos/yn yr ardal o amgylch; a</b></li> <li><del>f.</del> <b>f) Lle y bo'n berthnasol bod y defnyddiau arfaethedig yn ategu prif ddefnydd cyflogaeth yr ardal o amgylch ac na fydd yn achosi effaith annerbyniol ar weithrediadau busnesau presennol.</b></li> </ul> <p>Diwygio paragraff 11.153 fel a ganlyn:</p> <p>11.153 Mae'r polisi hwn yn ceisio sicrhau bod safleoedd cyflogaeth <del>presennol</del> yn cael eu gwarchod rhag defnyddiau eraill (<del>nad ydynt yn rhai dosbarth B</del>). Er mwyn cynnal cyflenwad digonol o dir cyflogaeth sy'n darparu ar gyfer ystod a dewis o ddefnyddiau posibl, mae'r polisi hwn yn ceisio gwarchod ardaloedd cyflogaeth diffiniedig rhag defnyddiau nad ydynt yn ymwneud â chyflogaeth a ddylai fod mewn lleoliadau sy'n well ac, o bosibl, yn fwy priodol. <del>Darperir atodlen o safleoedd cyflogaeth presennol yn Atodiad 12 a chaiff ei dangos ar y Map Cynigion. Bydd angen i gynigion ar gyfer defnyddiau eraill (nad ydynt yn rhai dosbarth B) gyfiawnhau pam nad yw'r safle bellach yn ofynnol (am resymau economaidd) neu'n addas (mynd yn amhriodol ar gyfer y lleoliad) at ddefnydd cyflogaeth. O ran rhesymau economaidd, yn absenoldeb darpariaeth</del></p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>arall, dim ond lle gellir dangos nad yw defnyddiau busnes bellach yn hyfyw ar y safle y caniateir cynigion sy'n arwain at gollu defnydd cyflogaeth. Rhaid i hyn gynnwys tystiolaeth i ddangos bod ymdrechion priodol a rhesymol wedi'u gwneud i farchnata'r safle i'w werthu neu ei brydlesu ar gyfer ei ddefnydd cyflogaeth presennol, neu ddefnydd tebyg. Rhaid i'r math o wybodaeth gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Pa mor hir y mae'r safle neu'r eiddo wedi bod yn wag; a,</li> <li>• Strategaeth Farchnata sy'n manylu ar y math o ddefnydd y mae'r safle/eiddo wedi'i farchnata ar ei gyfer a'i hyd – rhaid bod o leiaf 12 mis o farchnata priodol; a</li> <li>• Faint o ddiddordeb sydd yn y safle yn ystod y cyfnod marchnata, gan gynnwys y math o ymholiadau a'u nifer, ynghyd â'r rheswm (rhesymau) dros beidio â hawlio'r safle / diffyg diddordeb yn y pen draw.</li> </ul> <p>Paragraff newydd i'w fewnosod cyn 11.154.</p> <p>Paragraff Newydd: Lle mae cynnig yn ceisio newid defnydd i ddefnydd swyddfa B1(a) ar safle cyflogaeth sydd wedi'i ddiogelu, dylid ystyried cyfeirio at y dull canol trefi yn gyntaf fel y nodir yn y polisi cenedlaethol. Dylid rhoi sylw arbennig i Bolisi 6: Canol Trefi yn Gyntaf fel y'i nodir yn Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040, a pharagraff 4.3.18 o Bolisi Cynllunio Cymru sy'n ymwneud â'r dull dilyniannol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer defnyddiau adwerthu a B1.</p> <p>11.154 Gan gydnabod y pwysau ar ardaloedd cyflogaeth o du defnyddiau eraill (nad ydynt yn perthyn i Ddosbarth B), mae'r polisi'n derbyn y gall fod angen rhywfaint o hyblygrwydd mewn rhai achosion. Mae defnyddiau o'r fath yn aml yn ddefnyddiau dosbarth B rhannol sy'n cyfuno elfen adwerthu ar raddfa fach â defnydd busnes, diwydiannol neu storio yn bennaf, neu'n ddefnyddiau sui generis. Derbynnir hefyd, wrth ddiwallu anghenion defnyddiau o'r fath, bod ardaloedd cyflogaeth yn aml yn debygol o fod yn fwy derbyniol na lleoliadau eraill megis ardaloedd preswyl, neu hyd yn oed canol trefi. Bydd disgwyl i unrhyw elfen adwerthu fod yn atodol i'r prif ddefnydd, ac at ddibenion masnach yn hytrach na'r cyhoedd.</p> <p><del>Cyfeirir at yr Atodiad canlynol sy'n darparu atodlen o safleoedd cyflogaeth presennol, gan gynnwys cyfeirnod safle newydd er eglurder.</del></p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p><del>Cyfeirir hefyd at nifer o safleoedd cyflogaeth presennol ychwanegol a gafodd eu heithrio o'r Mapiau Cynigion yn flaenorol. Bydd y safleoedd hyn yn cael eu nodi a'u hamlinellu drwy'r ymgynghoriad Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd (Mapiau) gyda newidiadau o ganlyniad i'r fersiwn nesaf o'r Adolygiad Tir Cyflogaeth.</del></p>
<p><b>MAC 027</b></p>	<p><b>AP4/4, AP15/7</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Diwygio Polisi EME2 fel a ganlyn</p> <p><b>EME2: Cyflogaeth – Estyniadau a Dwysáu</b></p> <p><b>Bydd cynigion ar gyfer estyniadau (i adeiladau cyflogaeth presennol) a/neu ddwysáu mentrau cyflogaeth presennol cael eu caniatáu ar yr amod:</b></p> <p><b>a) a. Na fydd y cynnig datblygu'n Nad yw'r cynigion datblygu'n debygol o achosi niwed amgylcheddol na pheryglu cynigion ailddatblygu eraill;</b></p> <p><b>b) b. Nad yw'r cynnig yn estyn a/neu'n dwysáu defnydd neu weithgarwch a allai arwain at faterion sy'n niweidiol i amwynderau defnyddiau cyfagos, neu nad ydynt yn gydnaws â'r defnyddiau hynny o bosibl; a</b></p> <p><b>c) c. Bod y cynnig cynigion datblygu ar raddfa a ffurf briodol sy'n gydnaws â'i leoliad.</b></p> <p><del>Bydd cynigion i ehangu mentrau gwledig presennol yn cael eu cefnogi yn amodol ar y darpariaethau uchod a pholisïau a chynigion y Cynllun hwn.</del></p> <p>Diwygio paragraff 11.157 fel a ganlyn</p> <p>11.157 Mae'r polisi hwn yn ymwneud ag estyniadau i adeiladau presennol a/neu ddwysáu defnyddiau ar fentrau cyflogaeth presennol, mewn lleoliadau gwledig a threfol. Gall dwysáu mentrau cyflogaeth presennol gynnwys ymestyn y safle presennol ar raddfa fach, a gall gynnwys adeiladau newydd sy'n gysylltiedig â'r estyniad, os ystyrir bod y rhain yn angenrheidiol i'r gwaith. Fodd bynnag, Ni fydd cynigion sy'n ceisio estyn a/neu ddwysáu defnydd neu weithgaredd yn cael ystyriaeth ffafriol os nad ydynt yn gydnaws â defnyddiau o'u hamgylch, neu os ydynt yn debygol o arwain at faterion sy'n niweidiol i amwynder a fyddai'n peryglu cynigion ailddatblygu eraill.</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd												
		<p>Paragraff newydd i'w gynnwys ar ôl paragraff 11.159</p> <p>Paragraff Newydd: Cyfeirir at Bolisi CCH4 er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd gwarchoddedig sy'n sensitif i faetholion.</p>												
<p><b>MAC 028</b></p>	<p><b>AP4/2, AP15/7</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Diwygio Polisi EME3 fel a ganlyn, gan ddileu paragraff 11.161 o'r cyfiawnhad rhesymegol yn dilyn hynny ac ychwanegu colofn newydd at dabl 7 sy'n dynodi swm y tir cyflogaeth yr ymrwymwyd iddo.</p> <p><b>EME3: Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd Dyranedig</b></p> <p><b>Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau cyflogaeth B1, B2 a B8 yn cael eu caniatáu ar y safleoedd cyflogaeth dyranedig canlynol lle maent yn cydymffurfio â'r defnydd arfaethedig o'r safle.</b></p> <p><b>Bydd defnyddiau cyflogaeth eraill a defnyddiau atodol cysylltiedig nad ydynt yn rhai dosbarth B yn cael eu caniatáu ar safleoedd cyflogaeth dyranedig lle gellir dangos bod y datblygiad arfaethedig yn ategu ac yn gwella rôl y safle fel y nodir yn y tabl Dyrannu Safleoedd Cyflogaeth isod. Rhaid ystyried amwynder defnyddiau cyflogaeth cyfagos a'u bod yn gweithredu'n ddiogel i osgoi gwrthdaro rhwng gwahanol ddefnyddiau tir.</b></p> <table border="1" data-bbox="501 1182 1527 1359"> <thead> <tr> <th data-bbox="501 1182 663 1278">Cyf. Safle:</th> <th data-bbox="663 1182 855 1278">Enw'r Safle:</th> <th data-bbox="855 1182 1034 1278">Lleoliad:</th> <th data-bbox="1034 1182 1182 1278">Dosbarth Defnydd:</th> <th data-bbox="1182 1182 1368 1278">Cyfanswm Arwynebedd (Ha):</th> <th data-bbox="1368 1182 1527 1278">Maint yr ymrwymir iddo (Ha):</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td data-bbox="501 1278 663 1359">PrC1/E1</td> <td data-bbox="663 1278 855 1359">Ystâd Ddiwydiannol Cillefwr</td> <td data-bbox="855 1278 1034 1359">Caerfyrddin</td> <td data-bbox="1034 1278 1182 1359">B1, B2, B8</td> <td data-bbox="1182 1278 1368 1359">4.167</td> <td data-bbox="1368 1278 1527 1359">0.56</td> </tr> </tbody> </table>	Cyf. Safle:	Enw'r Safle:	Lleoliad:	Dosbarth Defnydd:	Cyfanswm Arwynebedd (Ha):	Maint yr ymrwymir iddo (Ha):	PrC1/E1	Ystâd Ddiwydiannol Cillefwr	Caerfyrddin	B1, B2, B8	4.167	0.56
Cyf. Safle:	Enw'r Safle:	Lleoliad:	Dosbarth Defnydd:	Cyfanswm Arwynebedd (Ha):	Maint yr ymrwymir iddo (Ha):									
PrC1/E1	Ystâd Ddiwydiannol Cillefwr	Caerfyrddin	B1, B2, B8	4.167	0.56									

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd					
		PrC1/E1 (i)	Tir i'r gorllewin o Heol Cillefwr (Gorllewin).			2	0
		PrC1/E1 (ii)	Tir i'r gogledd o Heol Allt-y-cnap			1.215	0
		PrC1/E1 (iii)	Tir i'r de o Heol Allt-y-cnap			0.952	0.56
		PrC1/MU1	Gorllewin Caerfyrddin	Caerfyrddin	B1, B2, B8	4.53	0
		PrC1/MU2	Pibwr-lwyd	Caerfyrddin	B1,B2, B8	8.95	2.33
		PrC1/SS1	Yr Egin	Caerfyrddin	B2	1.04	1.04
		PrC2/E2	Dafen	Llanelli	B1,B2,B8	17.489	1.9
		PrC2/E2 (i)	Tir i'r dwyrain o Calsonic			4.723	0
		PrC2/E2 (ii)	Tir i'r gorllewin o Gestamp Talent			1.547	0
		PrC2/E2 (iii)	Tir ar Heol Aur			1.657	0
		PrC2/E2(iv)	Tir i'r gorllewin o Heol Gors			1.449	0
		PrC2/E2 (v)	Tir ar Heol Croppin			0.355	0
		PrC2/E2 (vi)	Tir i'r gorllewin o'r Goleudy			1.881	1.9
		PrC2/E2 (vii)	Tir i'r dwyrain o'r Ganolfan Ambiwllans Awyr			1.316	0
		PrC2/E2 (viii)	Tir ym Mhorth Llanelli, oddi ar Heol Aur			3.755	0
		PrC2/E2 (ix)	Tir i'r gorllewin o Llys Aur			0.806	0
		PrC3/E1	Dwyrain Cross Hands	Rhydaman / Cross Hands	B1,B8	8.31	8.31

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd					
		PrC3/E2	Parc Bwyd Gorllewin Cross Hands	Rhydaman / Cross Hands	B1,B2,B8	5.647	0
		PrC3/E2(i)	Tir i'r gorllewin o Castell Howell			1	0
		PrC3/E2(ii)	Tir i'r de o Heol Parc Mawr			2.712	0
		PrC3/E2(iii)	Tir i'r gogledd o Dunbia			1.935	0
		PrC3/E3	Parc Busnes Cross Hands	Rhydaman / Cross Hands	B1,B2,B8	4.76	0
		PrC3/E3 (i)	Heol Stanllyd (Gorllewin)			2	0
		PrC3/E3 (ii)	Heol Stanllyd (De)			2.156	0
		PrC3/E3 (iii)	Heol Stanllyd (Dwyrain)			0.604	0
		PrC3/E6	Ystâd Ddiwydiannol Capel Hendre	Rhydaman / Cross Hands	B1,B2,B8	0.538	0.44
		PrC3/E7	Parc Hendre, Capel Hendre <sup>1</sup>	Rhydaman / Cross Hands	B1,B2,B8	8.112	0.77
		PrC3/E7(i)	Parc Hendre (Gorllewin)			2.165	0
		PrC3/E7(ii)	Parc Hendre (Gogledd)			1.955	0
		PrC3/E7(iii)	Parc Hendre (Dwyrain)			1.05	0.77
		PrC3/E7(iv)	Parc Hendre (De)			2.942	0
		PrC3/E8	Ystâd Ddiwydiannol Cilyrychen	Cilyrychen	B1,B2,B8	0.751	0
		SeC4/E1	Dyfaty	Porth Tywyn	B1,B2,B8	3.036	3.036
		SeC16/E1	Ystâd Ddiwydiannol Beechwood	Llandeilo / Rhos-maen	B1,B2,B8	0.289	0.25

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd					
		SeC16/MU1	Beechwood	Llandeilo / Rhos-maen	B1,B2,B8	0.755	0
		SeC16/E2	Hen Neuadd y Farchnad	Llandeilo	B1	0.2	0.2
		SeC18/E1	Parc Busnes Sanclêr	Sanclêr	B1,B8	0.421	0
		SeC19/E1	Ystâd Ddiwydiannol Hendy-gwyn ar Daf	Hendy-gwyn ar Daf	B1,B8	0.489	0
		SeC19/E2	Tir i'r De o'r Hen Hufenfa	Hendy-gwyn ar Daf	B1,B2,B8	1.321	0
		SeC13/E1	Hen Ffowndri	Llanybydder	B1,B8	0.405	0.405
		<b>Cyfanswm</b>				<b>71.21</b>	<b>19.24</b>
<p><i>Tabl 7: Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd Dyranedig</i></p>							
<p>11.160 Mae'r cyfanswm yn y tabl uchod yn cynnwys ffigyrau tybiannol ar gyfer cyflogaeth defnydd B ar safleoedd Defnydd Cymysg (Polisi SG1) a safleoedd Strategol (Polisi SP6). Mae'r Tabl yn nodi'r tir yr ymrwymir iddo ar bob safle (ffynhonnell: yr Adolygiad Tir Cyflogaeth, 2023).</p>							
<p>Paragraff newydd i'w gynnwys ar ôl paragraff 11.162:</p>							
<p>Rhif paragraff newydd: Cyfeirir at Bolisi CCH4 er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd gwarchoddedig sy'n sensitif i faetholion.</p>							
<p><del>11.161 Lle bo'n briodol bydd defnyddiau cyflogaeth eraill a defnyddiau atodol cysylltiedig nad ydynt yn rhai dosbarth B yn cael eu caniatáu ar safleoedd cyflogaeth dyranedig lle mae'r datblygiad arfaethedig yn ategu ac yn gwella rôl y safle fel y'i nodir yn y tabl Dyrannu Safleoedd Cyflogaeth. Rhaid ystyried amwynder defnyddiau cyflogaeth cyfagos a'u bod yn gweithredu'n ddiogel i osgoi gwrthdaro rhwng gwahanol ddefnyddiau tir.</del></p>							
<p>Newid i Dabl 6 (ym Mholisi SP7) o ganlyniad i'r ffigurau a ddiweddarwyd yn Nhabl 7.</p>							

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd						
			<u>A.</u> <u>Dyraniad</u> <u>CDLI</u>	<u>B.</u> <u>Cwblhawyd</u>	<u>C.</u> <u>Cwblhawyd</u> <u>ond heb</u> <u>ffurfio rhan</u> <u>o'r ffigur a</u> <u>ddyranwyd.<sup>1</sup></u>	<u>D.</u> <u>Ymrwymwyd</u> <u>iddo</u>	<u>E.</u> <u>Cyflenwad</u> <u>Gweddilliol</u> <u>(A-B-D=E)</u>	<p data-bbox="1570 464 1928 488"><i>Tabl 6: Darpariaeth Tir Cyflogaeth</i></p> <p data-bbox="1570 536 2096 639">Cyfeirir at Atodiad 11 newydd (isod) sy'n darparu gwybodaeth am y Dyraniadau Cyflogaeth Arfaethedig (Polisi EME3).</p>
MAC 029	<p data-bbox="282 927 394 991"><b>AP4/5;</b> <b>AP15/7</b></p> <p data-bbox="282 1031 461 1302">Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p data-bbox="499 927 976 951">Diwygio Polisi EME4 fel a ganlyn:</p> <p data-bbox="499 983 1368 1007"><b>EME4: Cynigion Cyflogaeth ar Safleoedd Nas Dyrannwyd</b></p> <p data-bbox="499 1038 2040 1142"><b>Bydd cynigion ar gyfer datblygu cyflogaeth ar safleoedd nas dyrannwyd, ond sydd o fewn terfynau datblygu anheddiad diffiniedig (Haenau 1-3 fel y'u diffinnir ym Mholisi SP3) yn cael eu caniatáu dan yr amgylchiadau canlynol:</b></p> <ul data-bbox="551 1182 2096 1374" style="list-style-type: none"> <li><b>a) a.</b> Ile dangosir na all unrhyw safleoedd cyflogaeth presennol neu ddyranedig addas arall neu dir a ddatblygwyd yn flaenorol yn rhesymol dderbyn y cynnig;</li> <li><b>b) b.</b> Ile mae'r cynigion datblygu ar raddfa a ffurf briodol, a lle nad ydynt yn niweidiol i briod gymeriad ac edrychiad y drefwedd/ y dirwedd; <b>a</b></li> <li><b>c) c.</b> Ile mae'r datblygiad yn gydnaws â'i leoliad ac â defnyddiau cyfagos.</li> </ul>						

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p><b>Caniateir cynigion cyflogaeth y tu allan i derfynau datblygu anheddiad diffiniedig (Haenau 1-3), (<del>Polisi SP3</del>) o fewn aneddiadau Haen 4, neu yng nghefn gwlad agored, pan fydd naill ai'n bodloni meini prawf d ac f, neu e ac f isod:</b></p> <p><b>d) <del>a.</del> Lle mae'r cynnig yn uniongyrchol gysylltiedig ag anheddiad <del>neu bentrefan</del> a restrir ym Mholisi SP3; neu</b></p> <p><b>e) <del>b.</del> Lle caiff y cynnig ei ategu gan achos busnes sy'n dangos bod cyfiawnhad dros ei leoliad; a</b></p> <p><b>f) <del>c.</del> Lle mae'r cynnig o raddfa, maint a dyluniad priodol.</b></p> <p>Paragraff newydd yn dilyn 11.164 gyda'r canlynol gan ychwanegu'r frawddeg isod</p> <p>11.164 O fewn terfynau datblygu aneddiadau diffiniedig, mae'r polisi'n ei gwneud yn ofynnol i gynigion ddangos eu gofyniad lleoliadol trwy ddull dilyniannol o ddedol safleoedd. Yn y lle cyntaf, rhaid iddynt ystyried dyraniadau arfaethedig a phresennol i ddiwallu'r angen o ran cyflogaeth. Dim ond wedyn y dylid ystyried safleoedd heb eu dyrannu.</p> <p>Paragraff Newydd: Mewn perthynas â chymhwyso dull dilyniannol ar gyfer lleoli defnyddiau swyddfa B1(a), dylid dilyn y cyfeiriad at y dull canol trefi yn gyntaf fel y'i nodir mewn polisi cenedlaethol. Cyfeirir yn benodol at Bolisi 6: Canol Trefi yn Gyntaf fel y'i nodir yn Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040, a pharagraff 4.3.18 o Bolisi Cynllunio Cymru sy'n ymwneud â'r dull dilyniannol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer defnyddiau adwerthu a B1.</p> <p>Diwygio paragraff 11.165, fel a ganlyn:</p> <p>11.165 Ar gyfer cynigion y tu allan i derfynau datblygu anheddiad diffiniedig (Haenau 1-3), a'r aneddiadau hynny a nodir fel pentrefi gwledig (Haen 4) rhaid iddynt ddangos eu bod yn uniongyrchol gysylltiedig ag anheddiad a restrir ym Mholisi SP3. <del>neu bentrefan, neu</del> Yn achos lleoliad yng nghefn gwlad agored nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig ag anheddiad, rhaid i gynigion gael eu hategu gan achos busnes sy'n cyfiawnhau ei leoliad. Ceir diffiniad o 'uniongyrchol gysylltiedig' yn yr eirfa. Mae'r Cynllun yn cydnabod bod gan fentrau ar raddfa fach rôl hanfodol yn yr economi wledig a'u bod yn cyfrannu at</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>gystadleurwydd a ffyniant lleol a chenedlaethol. Gall nifer o weithgareddau masnachol a gweithgynhyrchu ysgafn gael eu lleoli'n briodol mewn ardaloedd gwledig heb darfu mewn modd annerbyniol neu achosi unrhyw effeithiau niweidiol eraill. Yn hyn o beth, byddai datblygu busnesau bach yn mynd i'r afael ag unrhyw angen lleol am adeiladau cyflogaeth.</p> <p>Paragraff newydd i'w gynnwys ar ôl paragraff 11.166:</p> <p>Rhif paragraff newydd: Cyfeirir at Bolisi CCH4 er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd gwarchoddedig sy'n sensitif i faetholion.</p>
<b>MAC 030</b>	<p><b>AP15/7</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Cynnwys paragraff newydd o fewn cyfiawnhad rhesymegol polisi <b>EME5</b>, ar ôl paragraff 11.171, Er mwyn sicrhau bod cyfeiriad priodol at ddarpariaethau Polisi CCH4:</p> <p>Rhif paragraff newydd: Cyfeirir at Bolisi CCH4 er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd gwarchoddedig sy'n sensitif i faetholion.</p>
<b>MAC 031</b>	<p><b>AP1/16</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Diwygio Polisi SP8 fel a ganlyn:</p> <p><b>Polisi Strategol – SP 8: Y Gymraeg a Diwylliant Cymru</b></p> <p><del>Mae'r Cynllun yn cefnogi</del> Bydd cynigion datblygu sy'n diogelu, yn hyrwyddo ac yn gwella buddiannau'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn y Sir yn cael eu cefnogi. Ni fydd cynigion datblygu sy'n cael effaith andwyol ar fywiogrwydd a hyfywedd y Gymraeg a diwylliant Cymru'n cael eu caniatáu oni bai y gellir lliniaru'r effaith. Bydd disgwyl i'r holl gynigion datblygu y mae WL1 yn berthnasol iddynt nodi mesurau sy'n gwella buddiannau'r Gymraeg a diwylliant Cymru.</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>Diwygio Paragraff 11.173 fel a ganlyn.</p> <p><del>Ystyrir Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd yn ardal o sensitifrwydd ieithyddol. Mae Cyfrifiad 2011 yn dynodi bod 19.0% o boblogaeth Cymru'n gallu siarad Cymraeg, tra bod y ffigur cyfatebol yn Sir Gaerfyrddin yn 43.9%. O ran dadansoddiad daearyddol o gyfran y siaradwyr ledled y Sir, mae ar ei hisaf yn ward etholiadol Glan y môr lle mae 19.2% yn siarad Cymraeg, ac ar ei uchaf yn Cwarter Bach lle mae 68.7% yn siarad Cymraeg. Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar draws pob ward yn y Sir, ac am y rheswm hwn yn bennaf y mae Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd yn cael ei hystyried yn sensitif yn ieithyddol. Hefyd, mae data'r Cyfrifiad diwethaf wedi dangos gostyngiad sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg ledled y Sir sy'n dangos natur fregus yr iaith yn Sir Gaerfyrddin.</del></p> <p>Ystyrir Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd yn ardal o sensitifrwydd ieithyddol. Mae Cyfrifiad 2021 yn dynodi bod 17.8% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg, tra bod y ffigur cyfatebol ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn 39.9%. O ran dadansoddiad daearyddol o gyfran y siaradwyr ledled y Sir, mae ar ei hisaf yn ward Tyisha lle mae 18.9% yn siarad Cymraeg, ac ar ei uchaf ym Mhontyberem lle mae 60.7% yn siarad Cymraeg. Mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar draws pob ward yn y Sir, ac am y rheswm hwn yn bennaf y mae Sir Gaerfyrddin yn ei chyfanrwydd yn cael ei hystyried yn sensitif yn ieithyddol. Hefyd, mae data'r Cyfrifiad diwethaf wedi dangos gostyngiad sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg ledled y Sir sy'n dangos natur fregus yr iaith yn Sir Gaerfyrddin.</p>
<b>MAC 032</b>	<p><b>AP1/17 ac 18</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau</p>	<p>Diwygio Polisi WL1 a dileu Polisi PSD9 a chyfuno gofynion y frawddeg olaf â Pholisi WL1 fel a ganlyn</p> <p><b>WL1: Y Gymraeg a Datblygiadau Newydd</b></p> <p><b>Bydd yn ofynnol i'r holl gynigion datblygu ledled Sir Gaerfyrddin ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg.</b></p> <p><b>Bydd yn ofynnol i'r cynigion datblygu canlynol gyflwyno Cynllun Gweithredu Iaith, a hwnnw'n nodi'r mesurau a fydd yn cael eu cymryd i ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg:</b></p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
	gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	<p><b>a.</b> Datblygiadau preswyl o 5 neu fwy o anheddau a fydd yn unigol neu gyda'i gilydd yn <b>darparu arwain at ddatblygiad tai sy'n fwy na'r ddarpariaeth tai ddangosol a nodir ar gyfer yr anheddiad ym Mholisiau SP4 a HOM1 a HOM3</b>; neu</p> <p><del><b>b.</b> Datblygiad preswyl o 5 neu fwy o anheddau ar safleoedd wedi'u dyrannu neu hap-safleoedd nad ydynt yn mynd i'r afael â thystiolaeth o angen a'r galw am dai a gofnodwyd mewn Asesiad o'r Farchnad Dai neu ffynonellau tystiolaeth lleol eraill sy'n berthnasol; neu,</del></p> <p><del><b>c.</b></del> <b>b.</b> Datblygiadau adwerthu, masnachol neu ddiwydiannol â chyfanswm arwynebedd llawr o 1,000 metr sgwâr neu fwy ar arwynebedd safle sy'n fwy nag 1 hectar.</p> <p><del>Mae'n ofynnol i gynigion ar hap-safleoedd nas rhagwelwyd ar gyfer datblygiad tai ar raddfa fawr neu ddatblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr a fyddai'n arwain at lif gweithlu sylweddol gyflwyno Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a fydd yn nodi sut y bydd y datblygiad arfaethedig yn diogelu, yn hyrwyddo ac yn gwella'r Gymraeg.</del></p> <p>Bydd yn ofynnol i gynigion ar gyfer datblygiadau tai ar raddfa fawr ar hap-safleoedd mawr, a fydd yn unigol neu gyda'i gilydd yn fwy na'r lwfans hap-safleoedd blynyddol o fewn y Cynllun, gyflwyno Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a fydd yn nodi sut y bydd y datblygiad arfaethedig yn diogelu, yn hyrwyddo ac yn gwella'r Gymraeg.</p> <p>Bydd yn ofynnol i gynigion ar gyfer datblygiadau cyflogaeth ar raddfa fawr ar hap-safleoedd gyflwyno Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a fydd yn nodi sut y bydd y datblygiad arfaethedig yn diogelu, yn hyrwyddo ac yn gwella'r Gymraeg.</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p><b>Bydd yn ofynnol bod cynigion nad ydynt yn gyson â thafllwybr tai'r Cynllun (Atodiad 7) yn darparu cynllun cyflwyno'n raddol sy'n nodi'r graddfeydd amser ar gyfer darparu'r tai a gynigir ar y safle, a dangos na fyddent yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg na ellir ei lliniaru.</b></p> <p><b>Bydd cynigion ar gyfer hysbysebion (sy'n destun rheolaeth gynllunio) yn cael eu rheoli'n llym a bydd disgwyl iddynt ddiogelu, a gwella'r Gymraeg yn y Sir drwy ddarparu arwyddion dwyieithog. Bydd disgwyl i ddatblygiadau a strydoedd newydd fod ag enwau Cymraeg.</b></p> <p>11.178 Mae'r ddarpariaeth dai ddangosol y cyfeirir ati ym maen prawf (a) i'w gweld yn Atodiad 13. Mae'r ffigurau a nodir yn y tabl cyflenwad tai wedi'u llunio o elfennau'r cyflenwad tai, gan gynnwys dyraniadau ac ymrwmiadau. Lle byddai cynigion yn golygu bod y datblygiad cyfan a ganiateir o fewn anheddiad yn fwy na'r ddarpariaeth dai ddangosol yn ystod oes y Cynllun, bydd yn ofynnol iddynt ddarparu Cynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys hap-safleoedd, a aseswyd yn fras drwy Asesiad y CDLI o'r Effaith ar y Gymraeg, ond nid yw union leoliadau'r safleoedd unigol yn hysbys ar hyn o bryd. Mae'r Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg yn nodi'r mesurau a fydd yn cael eu cymryd i ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r Gymraeg. Dylai'r Cynllun Gweithredu Iaith Gymraeg nodi hefyd sut y mae'r datblygiad yn cynnig gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at grwpiau iaith Gymraeg y gymuned. Gallai hyn, ymhlith mesurau eraill, gynnwys rhoi cymorth a chyllid i sefydliadau a chyrrff sy'n darparu gweithgareddau, cyfleusterau ac addysg ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg, a chymorth a chyllid tuag at ddosbarthiadau Cymraeg. <b>Ceir canllawiau pellach yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar y Gymraeg sy'n amlinellu'r materion y dylai'r Cynllun Gweithredu eu hystyried. Bydd yn ofynnol bod Asesiadau o'r Effaith ar y Gymraeg yn nodi effeithiau disgwylidig y datblygiad arfaethedig ar y Gymraeg yn y Sir. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar y Gymraeg<sup>91</sup> yn rhoi cyfarwyddyd pellach ynghylch pryd y mae angen Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, gan egluro beth yw datblygiad ar raddfa fawr, yn ogystal â sut i lunio Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg</b></p> <p>Paragraff newydd ar ôl 11.178</p> <p><b>Rhifau paragraff newydd</b> Bydd yn ofynnol i gynigion ar gyfer datblygiadau tai ar raddfa fawr ar hap-safleoedd, a fydd gyda'i gilydd yn fwy na'r lwfans hap-safleoedd blynyddol o fewn y Cynllun, gyflwyno Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Y lwfans hap-safleoedd blynyddol a bennwyd ar gyfer ardal y cynllun yw 87 o anheddau. Bydd y Cyngor yn monitro caniatâd cynllunio a cheisiadau newydd arfaethedig ar hap-safleoedd i nodi pryd y mae angen Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac yn darparu'r wybodaeth hon i ymgeiswyr. At ddibenion y polisi hwn, safleoedd preswyl ar raddfa fawr yw'r rhai sy'n cynnwys 5 neu fwy o anheddau.</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>At ddibenion y polisi hwn diffinnir safleoedd cyflogaeth ar raddfa fawr fel cynigion lle mae'r arwynebedd llawr sydd i'w greu yn 1,000 metr sgwâr neu fwy, neu lle mae arwynebedd y datblygiad sydd i'w gyflawni ar y safle yn fwy nag 1 hectar (yn unol â pharagraff 3.2.3 o Nodyn Cyngor Technegol 20). Ceir canllawiau pellach mewn perthynas â'r angen am Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar y Gymraeg.</p> <p>Lle bo hynny'n briodol, efallai y bydd y Cyngor o'r farn bod angen gofyn am ddarparu Cynllun Gweithredu'r Iaith Gymraeg ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar safleoedd dyranedig, safleoedd yr ymrwymwyd iddynt a hap-safleoedd. Mewn achosion o'r fath, bydd Canllawiau Cynllunio Atodol y Gymraeg yn rhoi cyngor pellach ynglŷn â'r wybodaeth sydd i'w darparu.</p> <p>11.179 Er y gellir rhoi cymorth i brosiectau trwy gyfraniadau ariannol, gellir ei roi trwy ddulliau eraill hefyd. Bydd caniatâd cynllunio'n cael ei roi gydag amodau neu'n amodol ar gytundebau cyfreithiol i sicrhau bod y mesurau lliniaru a gwella a gynigir yn y Cynllun Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith. Bydd canllawiau pellach ar gynnwys Cynlluniau Gweithredu Iaith Gymraeg yn cael eu darparu trwy Ganllawiau Cynllunio Atodol.</p> <p>11.180 Caiff taflywyr tai'r CDLI ei amlinellu yn Atodiad 7 y Cynllun. Mae effeithiau graddfa, lleoliad a chyfradd datblygu wedi cael eu hasesu yn unol â'r taflywyr y cytunwyd arno. O ganlyniad nid yw cynigion ar gyfer datblygiadau nad ydynt yn gyson â graddfeydd amser y taflywyr yn cael eu hasesu'n llawn. Felly bydd angen i gynigion o'r fath gael eu hategu gan gynllun fesul cam sy'n nodi nifer yr anheddau a fydd yn cael eu cyflawni ym mhob blwyddyn ariannol. Mewn achosion o'r fath, gellir rhoi caniatâd cynllunio gydag amod i sicrhau bod anheddau'n cael eu cyflawni yn unol â'r cynllun fesul cam lle ystyrir bod hynny'n angenrheidiol. Gall ymgeiswyr hefyd gynnig lliniaru'r effeithiau disgwylidig trwy ddulliau heblaw cyflawni'r datblygiad fesul cam; bydd rhagor o wybodaeth ac arweiniad ar fesurau lliniaru yn cael eu hamlinellu trwy Ganllawiau Cynllunio Atodol.</p> <p>11.181 Mae Strategaeth y Cynllun yn darparu ar gyfer twf organig ar raddfa fach o fewn y Pentrefi Gwledig ac mae polisiau HOM1 a HOM3 yn adeiladu ar hyn gan ganiatáu datblygu ar raddfa briodol ac mewn lleoliadau priodol. Ystyrir bod datblygiad bob yn dipyn ar y raddfa hon yn gallu gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at dwf cynaliadwy'r Gymraeg mewn cymunedau gwledig, a bod unrhyw effeithiau negyddol yn debygol o gael eu hamsugno gan y gymuned. Efallai nad yw datblygiad nas rhagwelwyd ar raddfa sylweddol nas caniateir ym mholisïau'r Cynllun yn gydnaws â Strategaeth y Cynllun, ac felly mae ei effeithiau heb eu hasesu ac yn anhysbys. Os caiff cynigion o'r fath eu cyflwyno i gael eu hystyried, bydd angen cyflwyno asesiad llawn gyda hwy sy'n nodi eu heffeithiau tebygol ar y Gymraeg.</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p><del>11.182 Mae'n ofynnol bod yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer y CDLI yn asesu effeithiau tebygol y CDLI ar y Gymraeg. Gwneir hyn yn ailadroddol ar adegau allweddol trwy gydol y broses o gynhyrchu'r Cynllun. Caiff yr effeithiau disgwylidig tebygol eu cyflwyno yn yr adroddiad ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, ac mae rhagor o wybodaeth ar gael o fewn sail dystiolaeth y CDLI.</del></p> <p><del>11.183 Mae'r CDLI yn darparu canllawiau pellach ynghylch darparu hysbysebion dwyieithog ym Mholisi PSD9—Hysbysebion. Er mwyn hybu hunaniaeth ddiwylliannol ac i ddiogelu cymeriad ieithyddol lleol Sir Gaerfyrddin, bydd y Cyngor yn rhoi anogaeth i farchnata datblygiadau tai a masnachol newydd yn ddwyieithog yn ogystal â rhoi anogaeth i roi enwau Cymraeg i strydoedd a datblygiadau. Caiff canllawiau ychwanegol ynglŷn â darparu enwau strydoedd Cymraeg eu darparu ym Mholisi Enwi a Rhifo Strydoedd Sir Gaerfyrddin.</del></p> <p>Paragraffau newydd ar ôl 11.179</p> <p>I hybu hunaniaeth ddiwylliannol ardal y Cynllun, bydd y Cyngor yn cefnogi ac yn hybu darpariaeth arwyddion gwybodaeth, hysbysfyrddau a byrddau gwybodaeth; arddangosiadau ac arwyddion hysbysebu dwyieithog Cymraeg a Saesneg ar gyfer atyniadau a chyfleusterau twristiaeth. Bydd datblygwyr preifat cyfleusterau twristiaeth a hamdden hefyd yn cael eu hannog i roi cyhoeddusrwydd i'w mentrau busnes trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd yn ofynnol i hysbysebion ddarparu brand neu enw'r cwmni yn ddwyieithog; fodd bynnag, bydd yn ofynnol i'r holl eiriau ategol neu ychwanegol a ddarperir ar arwyddion yn y parth cyhoeddus a gynigir mewn cais cynllunio gael eu darparu'n ddwyieithog.</p> <p>Paragraff Newydd: Bydd arwyddion dwyieithog a chynigion hysbysebu sy'n ceisio cyfuno nifer o hysbysebion hanfodol o fewn un arwydd yn cael eu hannog. Ceir cyfarwyddyd pellach yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar hysbysebion.</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
<b>MAC 033</b>	<p><b>AP1/15</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Diwygio Polisi INF1 fel a ganlyn.</p> <p><b>INF1: Rhwymedigaethau Cynllunio</b></p> <p><b>Pan fydd angen, gofynnir am rwymedigaethau cynllunio i sicrhau yr ymdrinnir yn llwyr ag effeithiau datblygiadau er mwyn gwneud y datblygiad yn dderbyniol. Bydd angen cyfraniadau i gyflawni neu gyllido gwelliannau i seilwaith, <b>ecoleg</b>, cyfleusterau cymunedol a gwasanaethau a chyfleusterau eraill i fynd i'r afael â gofynion neu effeithiau sy'n deillio o ddatblygiadau newydd.</b></p> <p><b>Lle bo'n berthnasol, gofynnir hefyd am gyfraniadau tuag at waith cynnal a chadw darpariaeth o'r fath yn barhaus ac yn y dyfodol.</b></p> <p><del><b>Mewn achosion lle ceir anghydfod ynghylch materion sy'n ymwneud â hyfywedd ariannol cyflawni'r gofynion, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd dalu costau'r Cyngor am sicrhau arfarniad / asesiad annibynnol o hyfywedd ariannol.</b></del></p> <p>Diwygio paragraff 11.191 fel a ganlyn:</p> <p>11.191 Bydd gofynion y rhwymedigaethau cynllunio yn ystyried hyfywedd ariannol datblygiad arfaethedig. Mewn achosion lle ceir anghydfod ynghylch <del>yr effaith y mae'r gofynion yn ei chael ar y</del> <b>materion sy'n ymwneud â</b> hyfywedd ariannol <del>y cynllun cyflawni'r gofynion,</del> bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd gyflwyno Arfarniad Hyfywedd Datblygu <del>o'r safle i ddeall ei hyfywedd ariannol.</del> Bydd yr arfarniad yn cael ei ddadansoddi gan drydydd parti, gyda'r holl gostau yn cael eu talu gan yr ymgeisydd. Darperir rhagor o wybodaeth yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol y Rhwymedigaethau Cynllunio.</p>
<b>MAC 034</b>	<p><b>AP2/12</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r</p>	<p>Diwygio Polisi INF2 fel a ganlyn:</p> <p><b>INF2: Cymunedau Iach</b></p> <p><b>Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau sy'n darparu ar gyfer teithio llesol, manau gwyrdd a seilwaith defnyddiadwy hygyrch, ac sy'n ceisio lleihau anghydraddoldebau iechyd trwy annog pobl i ddilyn ffyrdd</b></p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
	camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	<p>iach o fyw, gan fynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd a darparu cyfleusterau gofal iechyd hygyrch yn cael eu cefnogi.</p> <p><b>Bydd yn ofynnol i gynigion ar gyfer datblygiadau mawr (fel y'u diffinnir mewn deddfwriaeth gynllunio) fel y nodir isod y nodir o fewn y testun ategol isod</b> gyflwyno Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn unol â'r dull dilyniannol:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Datblygiadau preswyl o 10 annedd neu fwy neu 0.5 hectar neu fwy;</b></li> <li>• <b>Darparu adeilad neu adeiladau lle y mae'r gofod llawr fydd yn cael ei greu gan y datblygiad yn 1,000 metr sgwâr neu fwy; neu</b></li> <li>• <b>Datblygiad ar safle yn cynnwys arwynebedd o 1 hectar neu fwy</b></li> </ul> <p>Diwygio paragraff 11.196 o'r cyfiawnhad rhesymegol i bolisi INF2 fel a ganlyn:</p> <p>11.196 I helpu i hybu iechyd a llesiant corfforol a meddyliol, dylai'r dull dilyniannol canlynol gael ei ystyried gan ddatblygwyr i bennu'r gofyniad am Asesiad o'r Effaith ar Iechyd a chwmpas a chynnwys posibl hyn. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i ddatblygiadau mawr a ddiffinnir mewn deddfwriaeth cynllunio <del>fel ac a nodir yn y polisi uchod.:-</del></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <del>Datblygiadau preswyl yn cynnwys 10 annedd neu ragor neu 0.5 hectar neu fwy;</del></li> <li>• <del>Darparu adeilad neu adeiladau lle y mae'r gofod llawr fydd yn cael ei greu gan y datblygiad yn 1,000 metr sgwâr neu fwy; neu</del></li> </ul> <p><del>Datblygiad ar safle yn cynnwys arwynebedd o 1 hectar neu fwy</del></p>
<b>MAC 035</b>	<b>AP4/13</b>  Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu	<p>Diwygio Polisi INF3 fel a ganlyn:</p> <p><b>INF3: Band Eang a Thelathrebu</b></p> <p><del>Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r diwydiant telathrebu a'r corff rheoleiddio cyfathrebu Ofcom i gynyddu i'r eithaf fynediad at fand eang cyflym iawn, lle cynnau diwifr ac argaeledd darpariaeth symudol gwell ar gyfer yr holl breswylwyr a busnesau, gan eu cynorthwyo (lle y bo'n briodol) i gyflawni eu cynlluniau buddsoddi i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion mewn seilwaith.-</del></p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
	sy'n deillio o'r Archwiliad	<p><b>Dylai datblygiadau newydd gynnwys darparu seilwaith band eang sy'n gallu trosglwyddo ar gyfradd Gigadid o'r cychwyn cyntaf.</b></p> <p><b>Rhaid i ddatblygiadau pwysig newydd gael eu gwasanaethu gan gyswllt band eang cyflym iawn a dibynadwy â'r adeiladau.</b></p> <p><b>Dylai datblygiadau llai ddarparu mynediad at y cyswllt cyflym iawn mwyaf hyfyw yn ogystal â dwythellau ychwanegol ar gyfer Cysylltiad Ffeibr i'r Adeilad (FTTP) neu ddarpariaeth arall yn y dyfodol.</b></p> <p><del><b>Bydd eithriadau'n cael eu gwneud lle mae ymgeiswyr wedi dangos trwy ymgynghori â darparwyr seilwaith band eang na fyddai hyn yn bosibl, yn ymarferol nac yn hyfyw yn economaidd. Mewn achosion o'r fath, gellid ceisio cyfraniad cyfwerth gan ddatblygwr tuag at waith oddi ar y safle a allai wneud mwy o fynediad yn bosibl yn y dyfodol.</b></del></p> <p>Diwygio'r cyfiawnhad rhesymegol i bolisi INF3 i gynnwys y paragraff newydd canlynol ar ôl 11.198.</p> <p>Bydd Awdurdodau Cynllunio yn gweithio gyda'r diwydiant telathrebu a'r corff rheoleiddio cyfathrebu Ofcom i gynyddu i'r eithaf fynediad at fand eang cyflym iawn, llecynnau diwifr ac argaeledd darpariaeth symudol gwell ar gyfer yr holl breswylwyr a busnesau, gan eu cynorthwyo (lle y bo'n briodol) i gyflawni eu cynlluniau buddsoddi i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion mewn seilwaith.</p> <p>Diwygio paragraff 11.201 i ddarllen fel a ganlyn:</p> <p>Mae'r polisi hefyd yn cydnabod, mewn cyfran fach o achosion, na fydd yn bosibl darparu band eang ar gyfer datblygiadau newydd oherwydd eu lleoliad gwledig iawn. Felly mae'r polisi'n cynnwys y potensial i ddarparu swm o arian i gyfrannu tuag at ddatrysiad arall. <del>Bydd eithriadau o'r fath yn cael eu gwneud lle mae ymgeiswyr wedi dangos trwy ymgynghori â darparwyr seilwaith band eang na fyddai hyn yn bosibl, yn ymarferol nac yn hyfyw yn economaidd. Mewn achosion o'r fath, gellid ceisio cyfraniad cyfwerth gan ddatblygwr tuag at waith oddi ar y safle a allai wneud mwy o fynediad yn bosibl yn y dyfodol.</del> Fodd bynnag, lle bynnag y bo'n bosibl dylai'r datrysiad gynnwys bod y datblygiad yn trefnu darpariaeth angenrheidiol ar gyfer seilwaith ar y safle i hwyluso'r gwelliannau.</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
MAC 036	<p>AP1/22, AP15/5</p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Diwygio Polisi INF4 fel a ganlyn</p> <p><b>INF4: Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli - gwaredu dŵr wyneb y dalgylch</b>  <del>Bydd cynigion sy'n draenio i Waith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli ac sy'n cael eu diffinio fel rhai mawr o dan Erthygl 2 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 yn ddarostyngedig i ofyniad ar gyfer gwaredu swm mesuradwy o ddŵr wyneb o'r system garthffosiaeth gyfun fel y nodir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Cilfach Tywyn.</del></p> <p>Er mwyn diogelu ansawdd dŵr Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd, bydd angen i gynigion ar gyfer datblygiad mawr a fyddai'n draenio'n uniongyrchol i Waith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli gael gwared ar swm mesuradwy o ddŵr wyneb o'r system garthffosiaeth gyfunol.</p> <p>Gall mân ddatblygiadau sy'n draenio'n uniongyrchol i Waith Trin Dŵr Gwastraff Llanelli hefyd gyflwyno gwaredu dŵr wyneb fel mesur lliniaru i sicrhau niwtraliaeth maetholion lle bo angen yn unol â Pholisi CCH4.</p> <p>Ychwanegwyd paragraffau newydd ar ôl paragraff 11.205</p> <p>Yn rhan o roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr perthnasol, mae Awdurdod Cynllunio Lleol Sir Gaerfyrddin yn ei gwneud hi'n ofynnol gwaredu swm mesuradwy o ddŵr wyneb o'r system gyfun fel y'i mynegir mewn litrau. Yna, caiff credydau o'r fath eu cofnodi ar y gofrestr gwaredu dŵr wyneb. Cydnabyddir y gall gwaredu dŵr wyneb gynnig manteision ehangach, gan gynnwys gwneud cyfraniad gwerthfawr tuag at gyflawni niwtraliaeth maetholion lle bo angen. Felly, mae Polisi INF4 yn rhoi cyfle i ddatblygwyr gynnig gwaredu dŵr wyneb mewn perthynas â mân ddatblygiadau fel mesur lliniaru i gyfrannu tuag at gyflawni niwtraliaeth maetholion fel sy'n ofynnol</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>yn unol â Pholisi CCH4. Nid yw gwaredu dŵr wyneb yn ofyniad polisi ar gyfer mân ddatblygiadau; fodd bynnag, gellir cynnwys hyn o fewn pecyn ehangach o fesurau lliniaru lle mae angen i fân ddatblygiad ddangos y gall gyflawni niwtraliaeth maetholion.</p> <p>Mae cael gwared ar ddŵr wyneb yn debygol o olygu atebion pwrpasol, gan ddibynnu ar faint a lleoliad y datblygiad. Yn nhermau'r credyd litrau, efallai y bydd y ffigur gwelliant gwirioneddol yn ddibwys. Er gwaethaf hyn, ni ddylai fod unrhyw niwed o ran llifoedd dŵr, gyda modd mesur y credydau a gyflawnwyd.</p> <p>Bydd yna ofyniad i gyflwyno adroddiad draenio i awdurdod cynllunio lleol Sir Gaerfyrddin sy'n dangos y gellir sicrhau gwelliant a bod y chwiliad dilyniannol gofynnol wedi'i ddilyn. Mae Atodiad 1 o'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn darparu gwybodaeth am gyfrifo llifoedd ac yn nodi enghraifft ar gyfer uned breswyl sy'n cynnwys ffactor gwelliant x2.</p> <p>Er nad yw cyflwyno'r adroddiad draenio yn ofyniad dilysu, cynghorir datblygwyr yn gryf y dylai ystyriaeth gynnar ac amserol fod yn ymhlyg yn y cynigion datblygu. Cynghorir yn gryf y dylid dechrau trafod mewn da bryd â rhanddeiliaid allweddol - yn enwedig Dŵr Cymru. Dylid nodi mai datblygiadau perthnasol fydd y rheiny a fydd yn destun ymgynghoriad cyn ymgeisio ac felly mae hyn yn rhoi digon o gyfle i ystyried y gofynion</p> <p>Y datblygiadau hynny sy'n ddarostyngedig i'r gofyniad gwelliant yw'r rhai sy'n draenio i waith trin dŵr gwastraff Llanelli a ddiffinnir fel rhai mawr o dan Erthygl 2 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012.</p> <p>Cyfrifir swm mesuradwy y llif budr newydd arfaethedig a nodwyd ym Mholisi INF4 fel 0.013 litr yr eiliad ar gyfer 1 eiddo preswyl. Caiff rhagor o fanylion eu hystyried yng Nghannllawiau Cynllunio Atodol Cilfach Tywyn.</p>
<b>MAC 037</b>	<b>AP1/19</b>	<p>Diwygio Polisi INF5 fel a ganlyn.</p> <p><b>INF5: Dyraniadau Gwledig y tu allan i Ddalgylchoedd Systemau Carthffosiaeth Gyhoeddus</b></p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd												
	Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	<p><b>Bydd cynigion ar gyfer darparu safleoedd o 5 neu fwy o anheddau mewn aneddiadau lle nad oes cysylltiad â'r garthffos gyhoeddus yn cael eu cefnogi lle mae'n cael eu gwasanaethu gan un system breifat. Caniateir cynigion o'r fath lle nad ydynt yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd naturiol, defnyddiau cyfagos neu amwynder lleol a lle gellir dangos na fydd yna effaith andwyol ar gyfanrwydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol a morol sensitif i faetholion.</b></p> <p>Rhif paragraff newydd: Cyfeirir at Bolisi CCH4 er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd gwarchoddedig sy'n sensitif i faetholion.</p>												
<b>MAC 038</b>	<p><b>AP3/5</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Diwygio Polisi SP10 fel a ganlyn:</p> <p><b>Polisi Strategol – SP 10: Darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr</b></p> <p><b>Mae'r safleoedd <del>Awdurdod Lleol</del> canlynol wedi'u dyrannu i ddiwallu'r angen dynodedig am Lety Sipsiwn a Theithwyr ac i alluogi Aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr i ehangu yn y dyfodol:</b></p> <table border="1" data-bbox="501 954 1545 1209"> <thead> <tr> <th data-bbox="501 954 696 1038">Cyf. Safle:</th> <th data-bbox="696 954 1050 1038">Lleoliad</th> <th data-bbox="1050 954 1332 1038">Math o Angen</th> <th data-bbox="1332 954 1545 1038">Lleiniau arfaethedig</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td data-bbox="501 1038 696 1123">PrC2/GT1</td> <td data-bbox="696 1038 1050 1123">Tir ym Mhenyfan, Trostre, Llanelli</td> <td data-bbox="1050 1038 1332 1123">Preswyl</td> <td data-bbox="1332 1038 1545 1123">7 llain</td> </tr> <tr> <td data-bbox="501 1123 696 1209">PrC2/GT2</td> <td data-bbox="696 1123 1050 1209">Pen-y-bryn (estyniad), Bynea, Llanelli</td> <td data-bbox="1050 1123 1332 1209">Preswyl</td> <td data-bbox="1332 1123 1545 1209">6 llain</td> </tr> </tbody> </table> <p>11.211 Er mwyn ystyried y ddarpariaeth ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol, mae'r Cyngor Sir wedi ymgymryd â dau Aseiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n nodi'r angen sydd heb ei ddiwallu ar hyn o bryd ar gyfer lleiniau Sipsiwn a Theithwyr yn y Sir. Cynhaliwyd yr adroddiad cychwynnol yn 2015 i gwmpasu'r cyfnod hyd at 2031, tra bod</p>	Cyf. Safle:	Lleoliad	Math o Angen	Lleiniau arfaethedig	PrC2/GT1	Tir ym Mhenyfan, Trostre, Llanelli	Preswyl	7 llain	PrC2/GT2	Pen-y-bryn (estyniad), Bynea, Llanelli	Preswyl	6 llain
Cyf. Safle:	Lleoliad	Math o Angen	Lleiniau arfaethedig											
PrC2/GT1	Tir ym Mhenyfan, Trostre, Llanelli	Preswyl	7 llain											
PrC2/GT2	Pen-y-bryn (estyniad), Bynea, Llanelli	Preswyl	6 llain											

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>diweddariad 2019 yn sicrhau bod y Cynllun yn cael ei lywio gan anghenion Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer cyfnod y Cynllun hyd at 2033.</p> <p>11.212 Mae'r Asesiadau yn ystyried y fethodoleg a amlinellir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru, ac mae'n amlinellu dau fath o asesiadau angen: mae'r cyntaf yn ystyried 5 mlynedd gyntaf cyfnod yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr; ac mae'r ail yn ystyried cyfnod llawn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr o 15 mlynedd.</p> <p>11.213 Yn seiliedig ar asesiad Sipsiwn a Theithwyr 2019, mae'r angen presennol sydd heb ei ddiwallu ar gyfer 19 o leiniau, ac amcangyfrifir bod darpariaeth Sir Gaerfyrddin am y 5 mlynedd gyntaf ar gyfer 23 o leiniau ychwanegol. Mae cyfran uchel o'r angen hwn yn deillio o bobl sy'n byw mewn cartrefi brics a mortar, a thwf aelwydydd newydd o fewn yr aelwydydd hyn. Mae'r angen hwn wedi'i ganolbwyntio yn Llanelli, lle roedd <del>nifer sylweddol</del> llawer o'r aelwydydd hyn yn byw ar y safle cyhoeddus ym Mhen-y-bryn yn y gorffennol.</p> <p>11.214 Mae rhagamcan wedi'i wneud hefyd o ran aelwydydd sipsiwn a theithwyr newydd a fydd yn dod rhwng Blwyddyn 6 a Blwyddyn 15 yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, oedolion ifanc sy'n byw ar safleoedd presennol a fydd, mewn amser, yn ffurfio eu haelwydydd eu hunain, sy'n golygu y byddai angen lleiniau personol arnynt. Mae'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn rhagweld y bydd angen 8 o leiniau ychwanegol rhwng Blwyddyn 6 a Blwyddyn 15, sy'n golygu cyfanswm o 31 o leiniau hyd at 2033.</p> <p><b>Rhif paragraff newydd:</b> Mae'r Sir wedi gweld newid sylweddol mewn anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr ac mae cyfanswm o 27 o leiniau wedi cael caniatâd cynllunio. Yn ogystal â'r 13 llain arfaethedig a ddyrannwyd ar safleoedd y Cyngor a nodir ym Mholisi SP10, ystyrir y gellir bodloni'r gofyniad a nodir yn Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2019 hyd at ddiwedd cyfnod y cynllun yn 2033.</p> <p>11.215 Fe wnaeth yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr hefyd edrych ar anghenion llety siewmyn teithiol o fewn Sir Gaerfyrddin. Roedd yr elfen hon o'r asesiad yn nodi 9 o leiniau a awdurdodwyd neu a oddefir ar gyfer siewmyn teithiol yn y sir. Wrth ystyried yr amcanestyniad ar gyfer y dyfodol, mae asesiad 2019 yn nodi bod angen 4 llain ychwanegol yn ystod pum mlynedd gyntaf yr asesiad.</p> <p>11.216 Bydd y gofyniad am leiniau a'r defnydd ohonynt yn cael ei fonitro'n agos hefyd fel rhan o fframwaith monitro'r cynllun hwn ac adroddir ar hynny drwy drefniadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol.</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		Bydd cynigion ar gyfer darparu safleoedd o 5 neu fwy o anheddau mewn aneddiadau lle nad oes cysylltiad â'r garthffos gyhoeddus yn cael eu cefnogi lle mae'n cael eu gwasanaethu gan un system breifat. Caniateir cynigion o'r fath lle nad ydynt yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd naturiol, defnyddiau cyfagos neu amwynder lleol <b>a lle gellir dangos na fydd yna effaith andwyol ar gyfanrwydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol sensitif i ffosfforws.</b>
MAC 039	<p><b>AP15/7</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Diwygio Polisi GTP1 fel a ganlyn:</p> <p><b>GTP1: Llety Sipsiwn a Theithwyr</b></p> <p><b>1.</b> Bydd cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd, neu estyniadau i safleoedd awdurdodedig presennol o fewn terfynau datblygu anheddiad diffiniedig (<b>Polisi SP3</b>) yn cael eu caniatáu dan yr amgylchiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a) Lle mae'r ystod angenrheidiol o gyfleusterau a gwasanaethau, gan gynnwys darpariaethau cymunedol, cymdeithasol ac addysgol presennol, a thrafnidiaeth gyhoeddus yn hygyrch neu'n gallu cael eu darparu'n rhwydd;</li> <li>b) Lle na fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol ar amwynder preswylwyr a defnyddiau tir cyfagos;</li> <li>c) Lle mae'r safle'n gallu cael gwasanaethau dŵr, trydan, carthffosiaeth a gwaredu gwastraff;</li> <li>d) Lle nad oes effaith niweidiol ar ei amgylchoedd, y dirwedd/treflun na lleoliad a chyfanrwydd yr amgylchedd hanesyddol.</li> </ul> <p><b>2.</b> Bydd safleoedd awdurdodedig newydd neu estyniadau i safleoedd awdurdodedig presennol y tu allan i derfynau datblygu aneddiadau diffiniedig (<b>Polisi SP3</b>) yn cael eu caniatáu yn unol â'r <b>meini prawf</b> uchod, <b>lle gellir dangos nad oes unrhyw leiniau addas ar gael ar safleoedd awdurdodedig presennol, o fewn terfynau datblygu anheddiad diffiniedig, neu lle nad oes cyfle i estyn y safleoedd hynny'n briodol.</b></p> <p>Bydd cynigion ar gyfer safle tramwy neu deithiol yn cael eu hystyried lle mae ganddynt gysylltiadau da â'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol.</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>Paragraff newydd i'w gynnwys ar ôl paragraff 11.226:</p> <p>Rhif paragraff newydd: Cyfeirir at Bolisi CCH4 er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd gwarchoddedig sy'n sensitif i faetholion.</p>
<b>MAC 040</b>	<p><b>AP4/6</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Diwygio Polisi SP11 fel a ganlyn:</p> <p><b>Polisi Strategol – SP 11: Yr Economi Ymwelwyr</b></p> <p><b>Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau sy'n gysylltiedig â'r economi twristiaeth ac ymwelwyr yn cael eu cefnogi lle maent:</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>a. yn arddangos egwyddorion dylunio a chreu lleoedd o ansawdd uchel;</li> <li>b. yn cyfrannu at warchod a gwella'r amgylchedd naturiol;</li> <li>c. yn ychwanegu gwerth i'n heconomi ymwelwyr; <b>ac</b></li> <li>d. mewn lleoliad cynaliadwy a phriodol.</li> </ol>
<b>MAC 041</b>	<p><b>AP4/7</b> <b>AP15/7</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Diwygio Polisi VE1 fel a ganlyn:</p> <p><b>VE1: Atyniadau a Chyfleusterau Ymwelwyr</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li><del>1.</del> <b>a) Bydd cynigion ar gyfer atyniadau a chyfleusterau o ansawdd uchel ar gyfer ymwelwyr, gan gynnwys estyniadau priodol i gyfleusterau presennol, yn cael eu caniatáu lle maent wedi'u lleoli mewn, neu lle maent yn uniongyrchol gysylltiedig ag, anheddiad diffiniedig (Polisi SP3).</b></li> <li><del>2.</del> <b>b) Bydd pob cynnig arall ar gyfer atyniadau a chyfleusterau ymwelwyr o ansawdd uchel nad ydynt <b>a ystyriwyd o dan Bwynt 1 uchod</b> wedi'u lleoli o fewn anheddiad diffiniedig, neu'n uniongyrchol</b></li> </ol>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p><b>gysylltiedig ag anheddiad diffiniedig (Polisi SP3) yn cael eu caniatáu, lle gellir dangos bod y cynnig yn cyd-fynd â pholisi cynllunio cenedlaethol.</b></p> <p><del>maent yn amlwg yn dibynnu ar nodweddion penodol y safle / lleoliad yng nghefn gwlad agored; Dylai cynigion Dangoswyd bod y dull dilyniannol canlynol wedi'i gynnal lle ystyriwyd addasu ac ailddefnyddio adeilad presennol yn y lle cyntaf; yna tir a ddatblygwyd o'r blaen; yna lleoliad maes glas.</del></p> <p>Dylai'r holl gynigion adlewyrchu a pharchu rôl a swyddogaeth yr ardal, yn ogystal â'i hymdeimlad o le, yn anad dim o ran graddfa, math, cymeriad, dyluniad, cynllun ac ymddangosiad.</p> <p><del>Lle y bo'n briodol, d</del>Dylai cynigion fod yn hygyrch gan ddefnyddio amryw ddulliau trafndiaeth - yn enwedig dulliau trafndiaeth cynaliadwy - megis cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.</p> <p>Paragraff newydd ar ôl paragraff 11.245:</p> <p>Rhif paragraff newydd: Cyfeirir at Bolisi CCH4 er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd gwarchoddedig sy'n sensitif i faetholion.</p>
MAC 042	<p><b>AP4/8</b> <b>AP15/7</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Diwygio Polisi VE2 fel a ganlyn:</p> <p><b>VE2: Llety Gwyliau</b></p> <p><del>1.</del> <b>a) Bydd cynigion ar gyfer llety â gwasanaeth a llety hunanarlwyo o ansawdd uchel, gan gynnwys estyniadau priodol i lety presennol, yn cael eu caniatáu lle maent wedi'u lleoli o fewn, neu lle maent yn uniongyrchol gysylltiedig ag, anheddiad diffiniedig (Polisi SP3).</b></p> <p><del>2.</del> <b>b) Bydd Cynigion ar gyfer llety â gwasanaeth a llety hunanarlwyo o ansawdd uchel sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r lleoliadau uchod neu nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig ag anheddiad diffiniedig (Polisi</b></p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p><b>SP3</b>) yn cael eu caniatáu dim ond lle maent yn cynnwys aildefnyddio ac addasu (gan gynnwys trosi) adeiladau presennol ar y cyd â <b>pPholisi RD4-RD2</b>.</p> <p>Dylai'r holl gynigion a bennir uchod adlewyrchu a pharchu rôl a swyddogaeth yr ardal a'i hymdeimlad o le, yn anad dim o ran graddfa, math, cymeriad, dyluniad, cynllun ac ymddangosiad – yn ogystal â'r defnyddiau hynny sydd eisoes wedi'u lleoli yng nghyffiniau'r safle.</p> <p>Paragraff newydd ar ôl paragraff 11.250:</p> <p>Rhif paragraff newydd: Cyfeirir at Bolisi CCH4 er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd gwarchodedig sy'n sensitif i faetholion.</p>
<b>MAC 043</b>	<p><b>AP4/10</b> <b>AP15/7</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Mae maen prawf b o Bolisi <b>VE3</b> wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r ffaith bod yna eisoes gyfeiriad at gynigion nad ydynt yn arwain at ardal ormodol o lawr caled ym mharagraff 11.254 o'r cyfiawnhad rhesymegol.</p> <p><b>VE3: Carafanau Teithiol, Gwersylla a Llety Gwersylla Amgen nad yw'n Barhaol</b></p> <p><b>Bydd cynigion ar gyfer safleoedd newydd carafannau teithiol newydd, safleoedd gwersylla newydd a safleoedd llety gwersylla amgen newydd nad ydynt yn barhaol, ac ar gyfer yn ogystal ag estyniadau, gwelliannau neu ddwysáu safleoedd presennol, yn cael eu caniatáu lle maent yn adlewyrchu ac yn parchu rôl a swyddogaeth yr ardal a'i hymdeimlad o le, yn ogystal â'r canlynol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><b>a)</b> lle maent o ansawdd uchel o ran dyluniad, cynllun ac ymddangosiad, a lle na fyddant yn cael effaith niweidiol annerbyniol ar y dirwedd, morwedd a/neu'r drefwedd amgylchynol;</li> <li><b>b)</b> <del>lle na fyddant yn arwain at ardal ormodol o arwyneb solet</del>, a lle gall yr unedau llety gael eu symud yn <del>rhwydd</del> hwylus oddi ar y safle;</li> <li><b>c)</b> lle na fyddant yn arwain at or-grynodiad o safleoedd yn yr ardal;</li> <li><b>d)</b> lle maent wedi'u lleoli'n addas mewn perthynas â'r prif rwydwaith priffyrdd a lle gellir darparu mynediad digonol heb niweidio'r amgylchedd naturiol ac adeiledig;</li> </ul>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p><b>e) Ile defnyddir y llety at ddibenion teithio yn unig, gyda meddiannaeth yn gyfyngedig i ddefnydd ar gyfer gwyliau.</b></p> <p><b>Dylai cynigion sy'n cynnwys angen am strwythurau atodol ddangos bod dull dilyniannol wedi cael ei ystyried, gan ddechrau ag ailddefnyddio adeiladau presennol, gyda'r angen i godi adeiladau newydd yn dilyn wedyn.</b></p> <p><b>Bydd adeiladau newydd yn cael eu caniatáu dim ond lle maent yn briodol o ran eu lleoliad ar y safle, yr angen amdanynt a'u graddfa.</b></p> <p>-----</p> <p>Dylid ychwanegu'r canlynol fel paragraff newydd rhwng paragraff 11.254 a pharagraff 11.255  Mae'r term "gor-grynodiad" yng nghyd-destun y Polisi hwn yn cyfeirio at amlhau safleoedd carafannau teithiol, safleoedd gwerysilla, a safleoedd gwerysilla amgen nad ydynt yn barhaol sy'n arwain at effeithiau andwyol ar gymeriad, swyddogaeth ac amwynder yr ardal. Dylid ystyried nifer a dwysedd cyfleusterau tebyg yn yr ardal yn ogystal â'u patrwm dosbarthiad ac a yw'r effeithiau gweledol neu amgylcheddol cronol yn tynnu sylw oddi wrth gymeriad y dirwedd, y forwedd neu'r drefwedd.</p> <p>Paragraff newydd ar ôl paragraff 11.255:</p> <p>Rhif paragraff newydd: Cyfeirir at Bolisi CCH4 er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd gwarchodedig sy'n sensitif i faetholion</p>
MAC 044	<b>AP4/11</b> <b>AP15/7</b> Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu	Diwygio Polisi VE4 fel a ganlyn: <b>VE4: Safleoedd Carafanau Sefydlog a Chalets a Safleoedd Gwersylla Parhaol Eraill.</b> <b>a) Bydd cynigion ar gyfer Safleoedd Carafanau Sefydlog a Chalets newydd yn cael eu caniatáu dan yr amgylchiadau canlynol:</b>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
	sy'n deillio o'r Archwiliad	<p><b>1) a) Ile maent o fewn anheddiad diffiniedig neu'n uniongyrchol gysylltiedig ag ef (Polisi SP3), neu lle maent wedi'u lleoli mewn cyfleuster neu atyniad twristiaeth presennol perthnasol neu'n dangos perthynas ofodol a swyddogaethol â chyfleuster neu atyniad o'r fath;</b></p> <p><b>2) b) Ile maent o ansawdd uchel yn ôl dyluniad, cynllun ac ymddangosiad, a lle na fyddant yn cael effaith niweidiol annerbyniol ar y dirwedd a/neu'r drefwedd o amgylch; <b>ac</b></b></p> <p><b>3) c) Ile na fyddant yn arwain at ddwysâd sylweddol ac annerbyniol yn y safleoedd a ddarperir yn yr ardal leol;</b></p> <p><b>b) Bydd cynigion i wella ac estyn safleoedd presennol yn cael eu caniatáu dan yr amgylchiadau canlynol:</b></p> <p><b>4) d) lle bydd yn cynyddu bywiogrwydd, cynaliadwyedd ac ansawdd amgylcheddol y safle;</b></p> <p><b>5) e) lle na fyddant yn arwain at gynnydd annerbyniol yn nwyster unedau a/neu raddfa'r safle ar y cyfan</b></p> <p><b>6) f) lle na fydd yn creu niwed annerbyniol i'r dirwedd, y morwedd a / neu'r drefwedd o amgylch; <b>ac</b></b></p> <p><b>7) g) lle mae'n darparu (lle y bo'n briodol) ar gyfer gwelliant sylweddol yn ansawdd, ymddangosiad a lleoliad y safle ar y cyfan.</b></p> <p>Paragraff newydd ar ôl paragraff 11.264:</p> <p>Rhif paragraff newydd: Cyfeirir at Bolisi CCH4 er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd gwarchoddedig sy'n sensitif i faetholion</p>
<b>MAC 045</b>	<b>AP1/21</b> <b>AP6/22</b> Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	<p>Diwygio Polisi SP12 a'i gyfiawnhad rhesymegol fel a ganlyn:</p> <p><b>Polisi Strategol – SP 12: Creu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy</b></p> <p><b>i) Bod yn hygyrch ac yn integredig gan alluogi hydreddedd a rhwyddineb symud sy'n hybu buddiannau cerddwyr, beicwyr, <b>marchogion</b> a thrafnidiaeth gyhoeddus sy'n sicrhau rhwyddineb mynediad i bawb;</b></p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>j) Ymgorffori dyluniadau gwrthsefyll llifogydd mewn adeiladau newydd mewn ardaloedd a nodwyd fel Parthau 2 a 3 ar y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio (a Pharthau Amddiffynedig TAN 15).</p> <p>Cynnwys paragraff newydd i'r cyfiawnhad rhesymegol</p> <p>O ran cymunedau sydd mewn perygl o lifogydd, mae gwella eu gallu i wrthsefyll llifogydd, yn awr ac o dan senarios newid hinsawdd posibl, yn flaenoriaeth i awdurdodau cynllunio. Bydd ystyriaethau dylunio yn ffactor allweddol wrth benderfynu a yw datblygu yn dderbyniol mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd. Bydd yr atebion mwyaf effeithiol yn cyfuno mesurau gwrthsefyll llifogydd ar lefel safle ac eiddo. Rhaid i unrhyw ddatblygiad ym Mharthau 2 a 3 a Pharthau Amddiffynedig TAN 15 fod yn gallu gwrthsefyll llifogydd ar lefel safle ac eiddo. Cyfeirir at Ganllawiau Cynllunio Atodol yr Awdurdod ar Berygl Llifogydd a Dyluniadau Gwrthsefyll Llifogydd.</p>
MAC 046	<p>AP1/9, AP15/6</p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Diwygio Polisi PSD1 a'i gyfiawnhad rhesymegol a gwneud diwygiadau canlyniadol i'r Cynllun yn unol â hynny.</p> <p><b>PSD1: Atebion Dylunio Effeithiol: <del>Cynaliadwyedd</del> ac Egwyddorion Creu Lleoedd</b></p> <p><b>Dylai cynigion datblygu ddangos bod dyluniadau penodol i safle ac <del>amcanion-cynaliadwyedd</del> egwyddorion creu lleoedd yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Dylai datblygiadau gyflawni datrysiadau dylunio o ansawdd sy'n briodol i'r safle penodol, yr ardal leol a natur y datblygiad.</b></p> <p><b>Dylai cynigion ddangos y canlynol yn glir:</b></p> <p><b>a) Bod y datblygiad yn adlewyrchu'r cyd-destun lleol drwy ystyried y dirwedd; yr amgylchedd adeiledig; a nodweddion hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys:</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. cynllun y safle a chynllun dylunio'r dirwedd;</li> <li>2. ffurf, graddfa, <b>dimensiynau</b> màs, deunyddiau a manylion yr holl elfennau adeiledig ac arwynebau.</li> </ol> <p><b>Sicrhau bod cynigion datblygu yn cadw cysylltiad â'r 'ymdeimlad o le' lleol ac yn ychwanegu ato.</b></p> <p><b>b) Datrysiadau dylunio o ansawdd uchel sy'n darparu:</b></p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<ol style="list-style-type: none"> <li>1. ffurf adeiledig sy'n integreiddio egwyddorion dylunio adeiladau cynaliadwy yn effeithiol er mwyn sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl ar gyfer lleihau carbon, effeithlonrwydd ynni a hyblygrwydd o ran defnydd.</li> <li>2. defnydd effeithlon o arwynebedd y safle, gan wneud y mwyaf o gadw, amddiffyn ac integreiddio elfennau a nodweddion tirwedd ac ecolegol presennol, fel asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas.</li> <li>3. cynllun safle effeithiol, diogel, a chynhwysol sy'n hyrwyddo iechyd, llesiant ac amwynder preswylwyr, defnyddwyr, ac ymwelwyr.</li> <li>4. cyfraniad cadarnhaol i amgylchfyd cyhoeddus effeithiol a deniadol trwy integreiddio ffurf adeiledig gyda gofod digonol wedi'i ddiffinio'n glir ar gyfer amwynderau preifat a chyhoeddus</li> </ol> <p><b>c) Na fydd y datblygiad yn cael effaith sylweddol ar amwynder defnyddiau tir cyfagos, eiddo, preswylwyr neu'r gymuned; a bod unrhyw effeithiau andwyol posibl wedi'u hosgoi, eu lleihau a'u lliniaru.</b></p> <p><b>d) Atebion dylunio tirweddau o ansawdd sy'n:</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer; gwella ansawdd a hyd a lled y presennol; a chreu elfennau a nodweddion tirwedd ac ecolegol newydd, fel asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas.</li> <li>2. gwella amwynder gweledol a chymeriad y dirwedd i sefydlu ymdeimlad clir ac eglur o le a chyfrannu at amgylchfyd cyhoeddus deniadol</li> <li>3. lleihau, a lliniaru yn erbyn effeithiau andwyol posibl ar y dirwedd ac effeithiau gweledol.</li> </ol> <p><b>e) Datrysiadau dylunio effeithiol sy'n ystyried amodau tir presennol ac yn defnyddio topograffeg presennol y safle i fynd i'r afael â sefydlogrwydd y tir; lleihau cloddio a mewnlenni; optimeiddio cyflawni'r Polisi PSD5 (Datblygu a'r Economi Gylchol); a lleihau'r effeithiau ar y dirwedd a'r effeithiau gweledol.</b></p> <p><b>f) Bod y datblygiad yn cyflawni neu'n cyfrannu at y canlynol:</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. cysylltiadau diogel ac effeithlon â rhwydweithiau mynediad presennol gan gynnwys Teithio Llesol a'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus;</li> <li>2. llwybrau mynediad priodol ac arwynebau sy'n hybu hygyrchedd effeithiol ar gyfer pawb a rhwyddineb symud i mewn i'r safle a thrwyddo;</li> <li>3. darparu safonau priffordd priodol ar y safle gan gynnwys parcio a gwasanaethau.</li> </ol>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p><b>g)</b> Bod y datblygiad yn cyflawni mesurau cynaliadwy a chydnerth ar gyfer trin a gwaredu dŵr wyneb a dŵr budr; sydd wedi'u hintegreiddio'n llawn â <b>datblygiad</b> y safle <b>a'i</b> gynllun ac yn cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd am <b>wytnwch dŵr mewn ardaloedd niwtraliaeth maetholion yr effeithir arnynt ac i ddarparu gwerth ychwanegol trwy swyddogaethau sy'n cyflawni amcanion polisi ar gyfer y dirwedd, ecoleg a seilwaith gwyrdd a glas.</b></p> <p><b>h)</b> Bod atebion dylunio yn cael eu cyflawni trwy gydol oes y datblygiad arfaethedig trwy gynigion cynnal a chadw a rheoli effeithiol</p> <p><b>i)</b> Ei fod yn cynnwys, lle bo hynny'n berthnasol, ddarpariaeth ar gyfer rheoli a chael gwared ar rywogaethau ymledol yn briodol.</p> <p>Paragraff newydd i'w osod ar ôl paragraff 11.284</p> <p>Rhif paragraff newydd: Mewn perthynas â gwytnwch dŵr, cydnabyddir y gall y defnydd effeithlon o ddŵr mewn datblygiadau newydd gynnig manteision ehangach, gan gynnwys gwneud cyfraniad gwerthfawr tuag at gyflawni niwtraliaeth maetholion lle bo angen. Nodir bod Rhan G o'r Rheoliadau Adeiladu yn darparu ar gyfer safonau uwch o ran y defnydd o ddŵr. Fodd bynnag, mae'r polisi yn rhoi cyfle i ddatblygwyr gynnig mesurau gwytnwch dŵr ychwanegol fel mesur lliniaru i gyfrannu tuag at gyflawni niwtraliaeth maetholion fel sy'n ofynnol yn unol â Pholisi CCH4. Nid yw mesurau gwytnwch dŵr yn ofyniad polisi; fodd bynnag, gellir eu cynnwys o fewn pecyn ehangach o fesurau lliniaru lle mae angen i fân ddatblygiad ddangos y gall gyflawni niwtraliaeth maetholion. Nodir hefyd bod llai o ddŵr yn golygu llai o wanhau, a dylai fod yn rhan o set ehangach o fesurau lliniaru.</p>
<b>MAC 047</b>	<b>AP1/11</b>  Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau	<p>Diwygio Polisi PSD3 fel a ganlyn</p> <p><b>PSD3: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas</b></p> <p><b>Mae'n ofynnol i gynigion datblygu</b> <del>Bydd cynigion datblygu yn</del> dangos atebion dylunio <b>Seilwaith Gwyrdd a Glas effeithiol sy'n:</b></p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
	gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	<p>a) <del>1.</del> Cadw, amddiffyn, ac integreiddio asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas presennol i'r graddau gorau posibl a blaenoriaethu'r rheiny sydd o'r gwerth, <del>yr ansawdd, a'r cyflwr</del> gorau o fewn ac ar ffiniau'r safle datblygu;</p> <p>b) <del>2.</del> Gwireddu gwelliannau cyffredinol i werth, ansawdd, a chyflwr; ac ehangder, amrywiaeth, a chysylltedd y rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas o fewn ac ar ffiniau'r safle datblygu;</p> <p>c) <del>3.</del> Integreiddio'n effeithiol a gwneud y mwyaf o gysylltedd ag asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas presennol wrth ymyl ffiniau'r safle datblygu a chyda'r rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas ehangach;</p> <p>d) <del>4.</del> Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i fod yn amlswyddogaethol trwy integreiddio swyddogaethau Seilwaith Gwyrdd a Glas i gyflawni amcanion cyfunol sydd o fudd i Fioamrywiaeth, Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd, Iechyd a Llesiant, Ymdeimlad o Le, a'r Economi; <b>a lle na fydd hyn yn peryglu pwrpas y seilwaith gwyrdd a glas; a,</b></p> <p>e) <del>5.</del> Cynnwys cynigion rheoli a chynnal a chadw hirdymor i sicrhau bod atebion dylunio Seilwaith Gwyrdd a Glas effeithiol yn cael eu cyflawni ar gyfer oes y datblygiad arfaethedig; <b>ac,</b></p> <p>f) <b>Osgoi goleuo'r seilwaith gwyrdd a glas a ddarperir at ddibenion cadwraeth bywyd gwyllt.</b></p> <p>Bydd ceisiadau cynllunio yn gofyn am gyflwyno arolygon ac asesiadau sy'n briodol i safle a natur y datblygiad, er mwyn sefydlu llinell sylfaen ar gyfer atebion dylunio Seilwaith Gwyrdd a Glas.</p> <p>Bydd yn ofynnol i bob cais cynllunio <del>ar gyfer datblygiadau mawr</del> gyflwyno Datganiad Seilwaith Gwyrdd a Glas i ddangos sut mae atebion dylunio Seilwaith Gwyrdd a Glas wedi cael eu hystyried a'u cynnwys fel rhan o'r datblygiad arfaethedig.</p>
MAC 048	AP6/7  Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn	Diwygio Polisi PSD4 fel a ganlyn. Gwneud diwygiadau canlyniadol o fewn y Cynllun i adlewyrchu'r newidiadau yn nheitl y polisi. Cyfeirir hefyd at ymateb y Cyngor i AP1/12 gyda golwg ar baragraff 11.306 o'r cyfiawnhad rhesymegol i bolisi PSD4.

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
	adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	<p><b>PSD4: Seilwaith Gwyrdd a Glas - Coed, Coetiroedd a Gwrychoedd <span style="color: green;">mewn Datblygiadau Newydd</span></b></p> <p><b>Bydd <span style="color: green;">yn ofynnol i egnigion</span> <del>ar gyfer</del> datblygu <del>yn</del>:</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li><b><span style="color: red;">1. a)</span> Cadw, amddiffyn, ac integreiddio coed, coetiroedd a gwrychoedd presennol i'r graddau gorau posibl a blaenoriaethu'r rheiny sydd o'r gwerth, yr ansawdd, a'r cyflwr gorau o fewn ac ar ffiniau'r safle datblygu trwy broses ailadroddol o ddylunio cynllun safle sy'n osgoi effeithiau posibl;</b></li> <li><b><span style="color: red;">2. b)</span> Lleihau effeithiau posibl i goed, coetiroedd a gwrychoedd a gaiff eu cadw trwy ddylunio safleoedd yn benodol, datganiadau dull a mesurau amddiffyn;</b></li> <li><b><span style="color: red;">3. c)</span> Gwneud gwaith plannu priodol i wneud iawn am golled anochel coed, coetiroedd, a gwrychoedd i ddarparu gwelliannau cyffredinol i ehangder a gorchudd. Dylid ystyried cyfleoedd i drawsleoli gwrychoedd presennol lle bo'n ymarferol;</b></li> <li><b><span style="color: red;">4. d)</span> Darparu digon o le a chyfaint gwreiddio o fewn cynllun y safle ac mewn perthynas â defnyddiau tir cyfagos i alluogi coed, coetiroedd, a gwrychoedd presennol a rhai sydd newydd eu plannu i dyfu'n effeithiol i aeddfedrwydd ac i osgoi heriau posibl i'w cadw drwy gydol oes y datblygiad;</b></li> <li><b><span style="color: red;">5. e)</span> Nodi a darparu gwaith rheoli i wella gwerth, ansawdd a chyflwr coed, coetiroedd, a gwrychoedd presennol o fewn ac ar ffiniau'r safle datblygu; a</b></li> <li><b><span style="color: red;">6. f)</span> Plannu coed, coetiroedd, a gwrychoedd ychwanegol sy'n briodol i'r safle a'r math o ddatblygiad a fydd yn sicrhau manteision tirwedd hirdymor a buddion net i fioamrywiaeth.</b></li> </ol> <p>Diwygio paragraffau 11.302, 11.303, 11.304 o'r cyfiawnhad rhesymegol i Bolisi PSD4 fel a ganlyn:</p> <p>11.302 Mae'r polisi yn cydnabod y cyfraniad pwysig y gall coed, coetiroedd a gwrychoedd eu gwneud i'r amgylchedd ac i'n cymunedau. Mae coed a choetiroedd yn chwarae rhan bwysig yn ardal y cynllun ac maent yn gynhenid i'r dirwedd a'r cymeriad trefol gan ddarparu cynefin a chynnyddu'r gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd. <del>Gall gwaith plannu coed, coetiroedd a pherthi wedi'i ddylunio'n dda helpu i fynd i'r afael â'r Argyfyngau Hinsawdd a Natur, fel y datganodd Llywodraeth Cymru a'r Gyngor.</del></p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>11.303 Cydnabyddir eu cyfraniad o fewn y ffurf drefol a chreu lleoedd gan gynnwys fel rhan o ddatblygiadau newydd yn arbennig. Gallant helpu i fynd i'r afael â llygryddion aer, llifogydd, a llygredd sŵn, a darparu nifer o fanteision eraill gan gynnwys darparu cysgod ac amwynder gweledol. Maent hefyd yn darparu rhannau helaeth o gynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt, yn enwedig coed aeddfed. Mae rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas Sir Gaerfyrddin yn adlewyrchu eu pwysigrwydd yn yr amgylchfyd trefol ac o fewn ein trefi a'n pentrefi - mewn mannau cyhoeddus a phreifat, ar hyd llwybrau llinol, a dyfrffyrdd, ac mewn ardaloedd amwynderau.</p> <p>11.304 Dylid ystyried cyfeiriadau at blannu er mwyn gwneud iawn a phlannu ychwanegol o fewn Polisi PSD4 yng nghydestun y cymarebau ailblannu a'r manylebau a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru. Ystyriwn bod eu cadw a phlannu rhai newydd ychwanegol yn gysylltiedig â datblygiad newydd yn rhan bwysig o greu cymunedau cydlynus ac iach o fewn cydestun gwledig a thirweddol gwerthfawr a bioamrywiol. Dylai pob cais cynllunio ar gyfer datblygu (lle bo'n briodol) gynnwys arolwg o goed lle mae coed yn bresennol ar y safle. Dylai hyn gynnwys mesurau amddiffyn, lliniaru, a rheoli. Rhaid gweithredu mesurau rheoli tymor hir a thymor byr priodol i ddiogelu coed, coetiroedd, a/neu wrychoedd sydd newydd eu plannu a rhai presennol. <b>Gellir cyfeirio at Bolisi CCH7.</b></p>
<b>MAC 049</b>	<b>AP1/12</b>  Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	<p>Diwygio'r cyfiawnhad rhesymegol dros Bolisi PSD4 fel a ganlyn.</p> <p>11.306 Dylai coed newydd a gaiff eu plannu fod o rywogaeth sy'n frodorol i'r safle, ac o aeddfedrwydd priodol. <b>i fedlonrwydd y-Cyngor.</b> O ran y cyfeiriad yn y polisi at golled anochel, <b>bydd y-Cyngor yn disgwyl disgwylir</b> i'r ymgeisydd wneud pob ymdrech resymol i gadw nodweddion presennol, ac o'r herwydd dylid ystyried eu cadw (lle bo'n briodol) yn rhan annatod o ddyluniad y safle datblygu arfaethedig o'r cychwyn cyntaf. <b>Mae paragraff 6.4.42 o Bolisi Cynllunio Cymru (rhifyn 12) yn darparu canllawiau ychwanegol.</b></p>
<b>MAC 050</b>	<b>AP6/15 –</b>	<p>Diwygio Polisi PSD5 fel a ganlyn.</p> <p><b>PSD5: Datblygu a'r Economi Gylchol</b></p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
	Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	<p><b>Bydd yn ofynnol i gynigion datblygu ddangos, trwy gyflwyno cynllun rheoli deunyddiau naturiol, sut y sicrhawyd bod y gwastraff a gynhyrchwyd mor isel â phosibl a bod unrhyw wastraff wedi cael ei reoli i gadw adnoddau mewn defnydd am gyhyd â phosibl:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><b>a) cynllun a dyluniad y datblygiad;</b></li> <li><b>b) unrhyw gyfnod dymchwel ac adeiladu;</b></li> <li><b>c) o ran unrhyw gyfleoedd i ddefnyddio gwastraff ar gyfer ailddefnyddio ac ailgylchu; ac</b></li> <li><b>d) o ran unrhyw gyfleoedd i ddefnyddio gwastraff gweddilliol fel ffynhonnell o danwydd.</b></li> </ul> <p>Diwygio paragraffau rhifau 11.308 a 3.311 o'r cyfiawnhad rhesymegol fel a ganlyn</p> <p>11.308 Er mwyn hwyluso gofynion y polisi hwn, bydd angen cyflwyno cynllun rheoli deunyddiau naturiol gyda phob cynnig chynigion datblygu, beth bynnag fo'u maint. Dylai'r Cynllun nodi'r holl ddeunyddiau naturiol ar y safle cyn y datblygiad, a all fod yn adeiladau presennol i'w dymchwel neu'r tir naturiol y byddir yn tarfu arno. Dylai esbonio sut y bwriedir cyfyngu i'r eithaf ar y gwastraff a fydd yn cael ei gynhyrchu o'r deunyddiau hyn a bod y dyluniad a'r cynllun wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r angen i sicrhau bod y cydbwysedd rhwng torri a llenwi mor agos â phosibl at fod yn niwtral. Bydd cynnwys y cynllun rheoli deunydd naturiol yn gymesur â graddfa'r datblygiad arfaethedig.</p> <p>11.311 Mae'n anochel bod angen rhywfaint o weithrediadau peiranyddol tyrchu a llenwi ar safleoedd adeiladu. Fel rhan o waith trin y safle, dylid asesu'r cydbwysedd tyrchu a llenwi o ddeunyddiau sy'n cael eu cloddio er mwyn osgoi creu gwastraff na ellir ei ailddefnyddio yn effeithiol oherwydd diffyg cyfleusterau storio addas. Fel rhan o'r cynllun rheoli deunydd adnoddau naturiol, dylai datblygwyr ddylunio cynigion i sicrhau cydbwysedd o ran cloddwaith sy'n ceisio sicrhau cyn lleied â phosibl o dorri a llenwi neu a all ddarparu ar gyfer adfer tir mewn mannau eraill yn yr ardal.</p>
<b>MAC 051</b>	<b>AP15/7</b>  Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r	Cynnwys paragraff newydd o fewn cyfiawnhad rhesymegol polisi <b>PSD6</b> , ar ôl paragraff 11.321, ermwyn sicrhau bod cyfeiriad priodol at ddarpariaethau Polisi CCH4:  Rhif paragraff newydd: Cyfeirir at Bolisi CCH4 er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd gwarchoddedig sy'n sensitif i faetholion

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
	camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	
<b>MAC 052</b>	<b>AP2/11</b>  Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	<p>Cynnwys polisi newydd fel a ganlyn:</p> <p><b>PSD7: Diogelu Cyfleusterau Cymunedol</b></p> <p><b>Bydd cynigion a fyddai'n arwain at golli cyfleusterau cymunedol y tu allan i'r Prif Ganolfannau a'r Canolfannau Gwasanaeth yn cael eu caniatáu dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol:</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>a. <b>Os oes cyfleuster cymunedol tebyg neu gydnaws ar gael o fewn:</b> <ol style="list-style-type: none"> <li>i. <b>pellter cerdded cyfleus neu,</b></li> <li>ii. <b>lle bo'n berthnasol, o fewn Pentref Gwledig neu Bentref Cynaliadwy cyfagos (fel y nodir ym Mholisi SP3: Dosbarthu Cynaliadwy – Fframwaith Aneddiadau).</b></li> </ol> </li> <li>b. <b>Pe na bai'r golled honno'n niweidio gwead cymdeithasol ac economaidd y gymuned.</b></li> </ol> <p><b>Os na cheir darpariaeth arall, ni chaiff cynigion a fydd yn arwain at golli cyfleuster cymunedol eu caniatáu oni bai y gellir dangos bod y busnes sydd ar werth neu ar osod wedi cael ei farchnata am dros gyfnod o 12 mis.</b></p> <p>Wrth geisio diffinio a chreu cymunedau cynaliadwy, mae'r Cynllun yn nodi ac yn cydnabod cyfraniad gwasanaethau lleol. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleusterau fel siopau, swyddfeydd post, tafarndai, gorsafoedd petrol, a fydd yn cyfrannu at hyfywedd aneddiadau a chymunedau yn y dyfodol, o ran darparu gwasanaeth ond hefyd drwy gynnig 'mannau cyfarfod' lle gall y gymuned ryngweithio a lle gellir cynyddu'r ymdeimlad o gymuned. Mae'r Cynllun hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol os ceir dibyniaeth gref arnynt yn lleol. Mae gwasanaethau o'r fath yn hollbwysig i sicrhau llesiant economaidd cymunedau a hefyd yn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, yn enwedig ymhlith aelodau llai symudol y gymuned.</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>Cydnabyddir mai'r aneddiadau sydd wedi'u dynodi'n Bentrefi Gwledig a Phentrefi Cynaliadwy yw'r rhai sydd yn fwyaf agored i golli'r cyfleusterau hynny. Bydd ffactorau fel y galw am dir preswyl a gwerth uchel tir preswyl mewn ardaloedd gwledig yn aml yn arwain at bwysau gan berchnogion eiddo i newid neu ailddatblygu'r cyfleusterau hynny i ddibenion preswyl, hyd yn oed lle bo busnes yn ffynnu. Gall yr incwm o siop neu weithgarwch arall fod yn llai na'r hyn y gellir ei ennill o fath arall o ddatblygiad. Mae'r polisi hwn yn ceisio cymedroli'r pwysau i newid drwy sicrhau na chaniateir colli siop neu gyfleuster os yw'n ddichonadwy a bod lefel y rhent yn briodol, onid oes cyfleusterau eraill rhesymol ar gael.</p> <p>Er bod y polisi yn ceisio gwarchod rhag colli cyfleusterau, ceir darpariaeth ar gyfer yr amgylchiadau hynny lle gellir dangos nad oes angen y cyfleusterau hynny mwyach, neu lle nad ydynt yn ddichonadwy.</p> <p>Wrth geisio sicrhau bod aneddiadau yn aros yn hyfyw, mabwysiadir dull dilyniannol wrth asesu argaeledd cyfleuster arall neu gyfleuster tebyg. Yr ystyriaeth gyntaf wrth asesu cynigion ddylai fod argaeledd cyfleuster arall o fewn pellter rhesymol i gael mynediad i gyfleuster o'r fath. Mae pellter cerddadwy at ddibenion y polisi hwn fel sydd wedi'i nodi yn y Llawlyfr ar gyfer Strydoedd: Adran ar gyfer Trafnidiaeth/Cymunedau a Llywodraeth Leol/Llywodraeth Cynulliad Cymru - 2007. Nodir yn y Llawlyfr mai'r hyn sydd fel arfer yn nodweddu cymdogaethau cerddadwy yw ystod o gyfleusterau o fewn 10 munud (hyd at tua 800m) o bellter cerdded o ardaloedd preswyl, y gall preswylwyr eu cyrraedd yn rhywydd ar droed.</p> <p>Gellir diffinio marchnata eiddo i ddibenion y polisi hwn fel hysbysebu mewn cyhoeddiad o fewn y diwydiant priodol neu, lle bo'n briodol, drwy werthwyr tai lleol am gyfnod rhesymol.</p>
<b>MAC 053</b>	<b>AP5/11</b>  Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	<p>Diwygio paragraffau 11.322 a 11.323 fel a ganlyn:</p> <p>11.322 Rhoddir diffiniadau o fannau agored ac eglurhad o safonau hygrychedd y Sir yn Asesiad Mannau Agored Sir Gaerfyrddin a cheir gwybodaeth ychwanegol hefyd yn Asesiad Seilwaith Gwyrdd Sir Gaerfyrddin. <del>At ddibenion y cynllun hwn, diffinnir mannau agored fel ardaloedd sy'n cynnwys caeau chwarae, ardaloedd chwarae plant â chyfarpar, cyfleusterau chwaraeon awyr agored, hamdden anffurfiol a mannau amwynder neu chwarae (h.y. mannau gwyrdd naturiol, mannau chwarae a mannau agored cyhoeddus).</del> At ddibenion y Cynllun hwn, diffinnir mannau agored fel ardaloedd sy'n cynnwys caeau chwarae, cyfleusterau chwaraeon awyr agored, hamdden anffurfiol, a mannau chwarae, yn ogystal ag ardaloedd dŵr megis afonydd, llynnoedd a chronfeydd dŵr, sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer chwaraeon, hamdden a thwristiaeth a gallant hefyd ddarparu amwynder gweledol. Dylai'r ardaloedd neu'r cyfleusterau hyn fod ar gael i'r cyhoedd fel rheol.</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd										
		<p>11.323 <del>Mae'r ddarpariaeth mannau agored a nodwyd yn y Sir yn cael ei mapio a'i hasesu yn Asesiad Mannau Agored Sir Gaerfyrddin. Dylid nodi, fodd bynnag, y gall fod ardaloedd ychwanegol o fannau agored nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu yn yr Asesiad sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr tuag at ddarparu mannau agored o fewn y gymuned. Er na chaiff yr ardaloedd hyn eu mapio fel rhan o'r GDLI, byddent yn cael eu diogelu serch hynny o dan y polisi hwn os ystyrir bod hynny'n briodol.</del> Mae'r Asesiad Mannau Agored Cyhoeddus yn asesu'r ddarpariaeth o fannau agored yn Sir Gaerfyrddin, ac yn dilyn hynny, cafodd yr ardaloedd hynny a nodwyd eu hanodi ar y Map Cynigion. Fodd bynnag, dylid nodi efallai na fydd ardaloedd ychwanegol o fannau agored, sy'n cyd-fynd â'r diffiniad uchod ac sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr at y ddarpariaeth gyffredinol mewn cymunedau, wedi cael eu hadlewyrchu. Er hynny, mae'r ardaloedd hyn hefyd yn cael eu diogelu o dan y polisi hwn. Yng ngoleuni hyn, mae cwmpas y polisi hwn yn berthnasol i ardaloedd a nodwyd yn yr Asesiad Mannau Agored Cyhoeddus ac ardaloedd eraill sy'n cydymffurfio'n glir â'r diffiniad uchod. Bydd y potensial i gynigion arwain at golli darpariaeth mannau agored yn cael ei asesu fesul achos.</p>										
MAC 054	<p><b>AP5/12</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Diwygio Polisi PSD8 a'r cyfiawnhad rhesymegol fel a ganlyn:</p> <p><b>PSD8: Darparu Mannau Agored Newydd</b>  <b>Bydd angen i bob datblygiad preswyl newydd â 5 neu fwy o dai gyfrannu at fannau agored yn unol â Safonau Mannau Agored <del>y Cynger</del> Sir Gaerfyrddin fel y nodir isod.</b></p> <table border="1" data-bbox="801 1166 1827 1343"> <thead> <tr> <th data-bbox="801 1166 1003 1209" rowspan="2">Categori Man Agored</th> <th colspan="2" data-bbox="1003 1166 1283 1209">Safon Maint</th> <th data-bbox="1283 1166 1827 1209" rowspan="2">Safon Hygyrchedd</th> </tr> <tr> <th data-bbox="1003 1209 1133 1343">Fesul 1000 o Bobl (ha)</th> <th data-bbox="1133 1209 1283 1343">Fesul Person (m2)</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td data-bbox="801 1209 1003 1343"></td> <td data-bbox="1003 1209 1133 1343"></td> <td data-bbox="1133 1209 1283 1343"></td> <td data-bbox="1283 1209 1827 1343"></td> </tr> </tbody> </table>	Categori Man Agored	Safon Maint		Safon Hygyrchedd	Fesul 1000 o Bobl (ha)	Fesul Person (m2)				
Categori Man Agored	Safon Maint			Safon Hygyrchedd								
	Fesul 1000 o Bobl (ha)	Fesul Person (m2)										

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd			
		Man Chwarae	0.8	8	Trothwy: taith gerdded 1½-munud (100m) Lleol: taith gerdded 5-munud (400m) Cymunedol: taith gerdded 12½-munud (1,000m)
		Chwaraeon awyr agored	1.6	16	Caeau Chwarae: taith gerdded 15-munud (1,200m)
		Tir Glas Hygyrch	0.25	2.5	Lle bynnag y bo modd
		Mannau Tyfu Cymunedol	0.2	2	-
		<p><b>Os na ellir bodloni'r safonau ar y safle, neu os oes digon o ddarpariaeth bresennol eisoes ar gael i wasanaethu'r datblygiad, yna gwneir cais am swm cyfnewid lle y bo'n briodol.</b></p> <p>11.327 Mae'r Asesiad Mannau Agored Cyhoeddus <del>Sir Gaerfyrddin</del> yn nodi'r ddarpariaeth bresennol o ran manau agored ledled ardal y Cynllun. Mae Safonau Mannau Agored y Cyngor a nodir ym Mholisi PSD8 uchod <del>a'r safonau yn gosod meincnod ar gyfer darparu manau agored</del> y dylai'r Cyngor a'r datblygwyr anelu at ei gyflawni. Mae'r polisi hwn yn fodd i <del>gyflawni'r</del> gyfrannu at gyflawni'r safonau hyn sy'n ystyried maint, swyddogaeth a hygyrchedd y ddarpariaeth. <del>Ceir manylion pellach yn yr Asesiad Mannau Agored.</del> Mae canllawiau ychwanegol mewn perthynas â'r mathau o fannau agored a nodwyd o fewn Safonau Mannau Agored Sir Gaerfyrddin yn y Canllawiau Cynllunio Atodol: Mannau Agored.</p> <p><del>11.328 Wrth benderfynu a oes angen cyfraniad, bydd angen ystyried maint, hygyrchedd, ansawdd a'r math o ddarpariaeth manau agored. Lle y bo diffyg presennol o fewn cymuned a bod y datblygiad arfaethedig yn debygol o waethygu'r sefyllfa yna bydd angen cyfraniad i sicrhau bod y safonau manau agored yn cael eu bodloni. Yn yr un modd, bydd angen cyfraniad mewn amgylchiadau lle byddai'r datblygiad arfaethedig yn arwain at ddiffyg.</del></p>			

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>11.328 Wrth asesu'r angen am gyfraniad, rhaid ystyried maint, hygyrchedd, ansawdd a'r math o ddarpariaeth manau agored. Gall yr Asesiad Mannau Agored Cyhoeddus, ynghyd â data dibynadwy ychwanegol lle mae ar gael (fel yr amlinellir ym mharagraff 11.323), gefnogi'r gwerthusiad hwn. Ar gyfer datblygiadau sy'n cynnwys pum neu fwy o anheddau, mae'n hanfodol sicrhau bod digon o fannau agored ar gael i ddeiliaid yn y dyfodol yn unol â Safonau Mannau Agored Sir Gaerfyrddin. Bydd angen cyfraniadau i fynd i'r afael â'r galw am fannau agored ychwanegol sy'n deillio o'r datblygiad, yn gymesur â nifer yr anheddau arfaethedig. Os yw'r datblygiad arfaethedig mewn ardal sydd â diffyg manau agored ar hyn o bryd ac y byddai'n gwaethygu'r sefyllfa, neu os yw'n creu diffyg newydd, bydd angen cyfraniad. Mewn sefyllfaoedd lle y mae darpariaeth ddigonol o ran maint a hygyrchedd, efallai y gofynnir am gyfraniad i wella cyflwr a/neu faint darpariaethau presennol yn y cylch, os ellir dangos fod angen am hynny.</p>
<p><b>MAC 055</b></p>	<p><b>AP1/17 ac 18</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Dileu Polisi PSD9 a gwneud diwygiadau canlyniadol gan gynnwys i Ddangosydd Monitro MI.37 yn y Fframwaith Monitro</p> <p><del><b>PSD9: Hysbysebion</b></del></p> <p>-</p> <p><del><b>Bydd cynigion ar gyfer hysbysebion (sy'n ddarostyngedig i reolaeth gynllunio) yn cael eu rheoli'n llym a disgwylir iddynt gydymffurfio â'r canlynol:-</b></del></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><del>a. <b>Bod eu dyluniad, eu graddfa, eu deunyddiau, a'u lleoliad ar y safle yn rhoi ystyriaeth lawn i'r adeilad, y strwythur, a/neu'r tir lle cânt eu harddangos;</b></del></li> <li><del>b. <b>Nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar y dirwedd / trefwedd, na lleoliad a chyfanrwydd yr amgylchedd hanesyddol;</b></del></li> <li><del>c. <b>Nad ydynt yn peryglu diogelwch y cyhoedd, yn enwedig pan gânt eu lleoli ar ffyrdd;</b></del></li> <li><del>d. <b>Eu bod yn diogelu'r Gymraeg, ac yn ei hyrwyddo'n gadarnhaol yn y Sir trwy ddarparu arwyddion dwyieithog. Dylid hefyd ystyried darpariaethau Polisi SP8 – Y Gymraeg.</b></del></li> </ul> <p><del><b>Ni ddylai cynigion ar gyfer hysbysfyrdau posterï ac arwyddion hysbysebion arwain at luosogi neu grynhoi arwyddion sy'n dderbyniol yn unigol yng nghefn gwlad.</b></del></p> <p><del><b>Bydd disgwyl i ddatblygiadau a strydoedd newydd fod ag enwau Cymraeg.</b></del></p> <p><del>11.334 Er mwyn hybu hunaniaeth ddiwylliannol ardal y Cynllun, bydd y Cyngor yn cefnogi a hybu darpariaeth arwyddion gwybodaeth, hysbysfyrdau a byrddau gwybodaeth, arddangosiadau ac arwyddion hysbysebu dwyieithog Cymraeg a Saesneg ar gyfer atyniadau a chyfleusterau twristiaeth. Bydd datblygwyr preifat cyfleusterau twristiaeth a hamdden hefyd yn cael eu hannog i roi cyhoeddusrwydd i'w mentrau busnes trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd yn</del></p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p><del>ofynnol i hysbysebion ddarparu brand neu enw'r cwmni yn ddwyieithog; fodd bynnag, bydd yn ofynnol i'r holl eiriau ategol neu ychwanegol a ddarperir ar arwyddion yn y parth cyhoeddus a gynigir mewn cais cynllunio gael eu darparu'n ddwyieithog.</del></p> <p><del>11.335 Bydd arwyddion dwyieithog a chynigion hysbysebu sy'n ceisio cyfuno nifer o hysbysebion hanfodol o fewn un arwydd yn cael eu hannog. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu paratoi i ategu Polisi PSD9.</del></p>
<b>MAC 056</b>	<p><b>AP15/7</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Cynnwys paragraff newydd o fewn cyfiawnhad rhesymegol polisi <b>PSD10</b>, ar ôl paragraff 11.337, ermwyn sicrhau bod cyfeiriad priodol at ddarpariaethau Polisi CCH4:</p> <p>Rhif paragraff newydd: Cyfeirir at Bolisi CCH4 er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd gwarchoddedig sy'n sensitif i faetholion.</p>
<b>MAC 057</b>	<p><b>AP2/9</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Mewnosod y polisi newydd canlynol, sef PSD14, o dan y thema Pobl a Lleoedd Ffyniannus:</p> <p><b>PSD14: Dwysedd Tai</b></p> <p><b>Bydd cynigion yn ofynnol i greu cymunedau cymysg, cynhwysol yn gymdeithasol ac yn gynaliadwy drwy ddarparu amrywiaeth o fathau a meintiau o dai i ddiwallu anghenion preswylwyr ar ddwysedd effeithlon a phriodol.</b></p> <p><b>Dylai datblygiadau preswyl o fewn haenau 1–3 y fframwaith aneddiadau (Polisi SP3) geisio adlewyrchu dwysedd net o 50 o anheddau y hectar. Dim ond lle bo'n briodol y caniateir dwyseddau gwahanol, yn unol â'r meini prawf isod:</b></p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>a. Bydd dwyseddau preswyl uwch yn cael eu caniatáu dim ond lle y dangosir bod y datblygiad yn sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl ar gyfer dylunio effeithiol drwy:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1) wella ansawdd a graddfa elfennau a nodweddion tirwedd ac ecolegol presennol, a chreu rhai newydd, fel asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas; a</li> <li>2) gwella mwynder gweledol a chymeriad y dirwedd er mwyn sefydlu ymdeimlad clir a darllenadwy o le a chyfrannu at faes cyhoeddus deniadol; a</li> <li>3) lleihau a lliniaru effeithiau negyddol posibl ar y dirwedd ac effeithiau gweledol.</li> </ol> <p>b. Bydd dwyseddau preswyl is yn cael eu caniatáu dim ond lle y gellir dangos:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1) bod cyfyngiadau dylunio, ffisegol neu seilwaith yn atal cyflawni'r dwysedd isaf; a</li> <li>2) y byddai'r dwysedd isaf yn niweidio cymeriad ac ymddangosiad ardaloedd cyfagos y safle; neu</li> <li>3) bod diffyg penodol o ddewis o fathau o dai o fewn cymuned leol.</li> </ol> <p>Ym mhob achos, rhaid i ddatblygiadau tai wneud y defnydd mwyaf effeithlon o dir yn unol ag egwyddorion cynaliadwyedd a chreu lleoedd. Rhaid defnyddio dylunio da i wneud y mwyaf o ddwysedd y datblygiad heb beryglu ansawdd yr amodau byw a ddarperir, gan sicrhau darpariaeth ddigonol ar gyfer preifatrwydd a gofod o amgylch anheddau.</p> <p>Rhif Paragraff newydd – Mae'r CDLI Diwygiedig yn cydnabod ei bod yn bwysig bod datblygiadau newydd yn defnyddio tir yn effeithlon drwy fod o ddwysedd sy'n gwneud y mwyaf o botensial datblygu tir, gan gynnwys lefel y ddarpariaeth tai fforddiadwy yn unol â Pholisi AHOM1. Mae <i>Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040</i> yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau newydd mewn ardaloedd trefol anelu at ddwysedd o o leiaf 50 o anheddau y hectar (net). Nod y Cynllun yw cyflawni'r dwysedd hwn o fewn haenau 1–3 y fframwaith aneddiadau (Polisi SP3). Er y dylai dwysedd o fewn pob anheddiad arall yn yr hierarchaeth aneddiadau wneud y mwyaf o ddefnydd effeithlon o dir, nid yw'r polisi'n rhagnodol o ran pennu dwysedd penodol. Gall datblygiadau dwysedd uwch helpu i</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>leihau faint o dir sydd ei angen i ddiwallu anghenion tai yn y dyfodol, ond rhaid sicrhau cydbwysedd i gynnal amgylchedd byw o ansawdd uchel, yn unol ag egwyddorion creu lleoedd.</p> <p>Rhif Paragraff newydd – Caiff y ffigurau dangosol a nodir ym Mholisi HOM1 – Dyraniadau Tai eu hystyried yn erbyn y meini prawf a nodir ym meini prawf a) i c) uchod.</p>
<b>MAC 058</b>	<b>AP1/5</b>  Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	Diwygio polisi SP13 fel a ganlyn.  <b>Polisi Strategol – SP 13: Datblygu Gwledig</b>  <b>Mae'r Cynllun yn cefnogi cynigion datblygu a fydd yn cyfrannu at gynaliadwyedd cymunedau gwledig y Sir. Dylai cynigion datblygu mewn ardaloedd gwledig ddangos eu bod yn cefnogi rôl aneddiadau gwledig yn y fframwaith hierarchaeth aneddiadau (SP3) er mwyn bodloni anghenion tai, cyflogaeth a chymdeithasol cymunedau gwledig Sir Gaerfyrddin.</b>  <b>Bydd cynigion datblygu yng nghefn gwlad y tu hwnt i'r aneddiadau dynodedig yn cael eu cefnogi lle maent yn cyd-fynd â pholisïau'r Cynllun hwn a pholisi cynllunio cenedlaethol.</b>
<b>MAC 059</b>	<b>AP15/7</b> Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	Cynnwys paragraff newydd o fewn cyfiawnhad rhesymegol polisi <b>RD1</b> , ar ôl paragraff 11.387, er mwyn sicrhau bod cyfeiriad priodol at ddarpariaethau Polisi CCH4:  Rhif paragraff newydd: Cyfeirir at Bolisi CCH4 er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd gwarchoddedig sy'n sensitif i faetholion.
<b>MAC 060</b>	<b>AP15/7</b> Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn	Cynnwys paragraff newydd o fewn cyfiawnhad rhesymegol polisi <b>RD2</b> , ar ôl paragraff 11.392, ermwyn sicrhau bod cyfeiriad priodol at ddarpariaethau Polisi CCH4:

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
	adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	Rhif paragraff newydd: Cyfeirir at Bolisi CCH4 er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd gwarchoddedig sy'n sensitif i faetholion.
MAC 061	<p><b>AP15/7</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Diwygio Polisi RD3 fel a ganlyn:</p> <p><b>RD3: Arallgyfeirio ar Ffermydd</b></p> <p>Bydd cynigion <b>datblygu</b> ar gyfer <b>datblygiadau</b> arallgyfeirio ar ffermydd sy'n cryfhau'r economi wledig yn cael eu caniatáu dan yr amgylchiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li><del>a.</del> <b>a) Mae'n gydnaws â phrif weithgareddau amaethyddol y fferm weithiol bresennol, ac yn eu hategu a'u cefnogi;</b></li> <li><del>b.</del> <b>b) Mae ar raddfa ac o natur sy'n briodol i weithrediad presennol y fferm;</b></li> <li><del>c.</del> <b>c) Mae'n rhoi sylw priodol i'r seilwaith priffyrdd a thrafnidiaeth; <b>ac</b></b></li> <li><del>d.</del> <b>d) Ni fyddai'n cael effaith niweidiol ar gymeriad, lleoliad ac ymddangosiad yr ardal a'r dirwedd amgylchynol.</b></li> </ul> <p>Dylai cynigion roi blaenoriaeth i addasu adeiladau presennol addas ar y fferm weithiol. Lle gellir cyfiawnhau hynny, caniateir adeiladau newydd os ydynt wedi'u hintegreiddio â'r fferm weithiol bresennol, neu'n gysylltiedig â hi, a heb fod yn anfanteisiol i briod gymeriad ac ymddangosiad yr ardal a'r dirwedd o'i hamgylch.</p> <p>Paragraff newydd i'w gynnwys ar ôl paragraff 11.397</p> <p>Rhif paragraff newydd: Cyfeirir at Bolisi CCH4 er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd gwarchoddedig sy'n sensitif i faetholion.</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
<b>MAC 062</b>	<b>AP15/7</b>  Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	Cynnwys paragraff newydd o fewn cyfiawnhad rhesymegol polisi <b>RD4</b> , ar ôl paragraff 11.398, ermwyn sicrhau bod cyfeiriad priodol at ddarpariaethau Polisi CCH4:  Rhif paragraff newydd: Cyfeirir at Bolisi CCH4 er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd gwarchoddedig sy'n sensitif i faetholion.
<b>MAC 063</b>	<b>AP4/12</b> <b>AP15/7</b>  Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	Diwygio Polisi RD5 fel a ganlyn:  <b>RD5: Cyfleusterau Marchogaeth</b>  <b>Bydd cynigion datblygu ar gyfer stablau, cyfleusterau marchogol neu ddefnyddio tir ar gyfer gweithgareddau marchogol yn cael eu caniatáu dan yr amgylchiadau canlynol:</b> <ol style="list-style-type: none"> <li>a) Ile mae'r cyfleuster wedi'i grwpio o fewn cyfadeilad fferm presennol, neu wedi'i leoli mor agos â phosibl at adeiladau presennol;</li> <li>b) Ile bydd y defnydd arfaethedig o <b>raddfa a natur ddwyster</b> sy'n briodol i'w amgylchedd a'i leoliad;</li> <li>c) Ile na fydd y datblygiad yn cael effaith niweidiol ar y dirwedd nac ar fuddiannau cadwraeth natur; <b>a</b></li> <li>d) Ile gellir darparu mynediad a lleoedd parcio addas ar gyfer blychau ceffylau a'r lefel arfaethedig o weithgarwch masnachol; <b>a</b></li> <li>e) Ile mae gan gyfleusterau masnachol fynediad addas at y rhwydwaith priffyrdd.</li> </ol> Paragraff newydd ar ôl paragraff 11.402:  Rhif paragraff newydd: Cyfeirir at Bolisi CCH4 er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd gwarchoddedig sy'n sensitif i faetholion.

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
MAC 064	<p><b>AP5/1</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Diwygio Polisi SP14 fel a ganlyn:</p> <p><b>Polisi Strategol – SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol</b></p> <p><b>Rhaid i gynigion datblygu ddiogelu a gwella gwytnwch ecosystemau a rhwydweithiau ecolegol gwydn amgylchedd naturiol y Sir.</b></p> <p><b>Rhaid i gynigion adlewyrchu'r rôl sydd gan agweddau a nodweddion yr amgylchedd naturiol ac amgylchedd sydd wedi'i chysylltu'n ecolegol wrth ddiogelu a gwella bioamrywiaeth, diffinio'r dirwedd, cyfrannu at Lesiant ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.</b></p> <p><del>Rhaid ystyried pob cynnig datblygu yn unol â gofynion Polisi Cenedlaethol a deddfwriaethol lle byddai cynnig ar gyfer datblygu yn arwain at effaith andwyol sylweddol ar safleoedd dynodedig, gan gynnwys safleoedd Ewropeaidd, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, a chynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth.</del></p> <p><del>Dylai unrhyw gynnig datblygu gyfrannu at nod cyffredinol Datganiad Ardal De-orllewin Cymru (CNC, 2020) wrth feithrin gwytnwch ein ecosystemau a gwella'r buddion a ddarperir ganddynt. Ni fydd datblygiad a fyddai'n arwain at effeithiau amgylcheddol andwyol annerbyniol neu sydd ddim yn arwain at wella bioamrywiaeth yn cael ei ganiatáu.</del></p> <p><del>Ni ddylai datblygiad achosi unrhyw golled sylweddol o gynefinoedd neu boblogaethau o rywogaethau (yn lleol a/neu'n genedlaethol) a rhaid iddo ddarparu buddion net i fioamrywiaeth. Lle na chynigir gwella bioamrywiaeth fel rhan o gynnig ar gyfer datblygu, rhoddir pwysau sylweddol i'w absenoldeb, ac oni bai bod ystyriaethau perthnasol arwyddocaol eraill yn nodi fel arall bydd angen gwrthod caniatâd.</del></p> <p>Diwygio paragraff 11.403 o'r cyfiawnhad rhesymegol i bolisi SP14 fel a ganlyn:</p> <p>11.403 Mae gan Sir Gaerfyrddin amgylchedd naturiol cyfoethog ac amrywiol, gyda nifer o</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>safleoedd dynodedig a rhywogaethau gwarchoddedig. Mae'r polisi hwn yn ceisio cydnabod ansawdd a gwerth yr amgylchedd naturiol a thirweddau ar draws ardal y Cynllun, a'u rôl sylfaenol wrth ddiffinio hunaniaeth, cymeriad a nodweddion unigryw'r Sir. Ymhlyg yn hyn mae cydnabyddiaeth o rinweddau sylweddol seilwaith gwyrdd a glas ar gyfer lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd, ar gyfer dal a storio carbon ac ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth a rhwydweithiau ecolegol. Cyfeirir at bolisi PSD3 Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas, <b>gan gynnwys y gofyniad i bob cais cynllunio gyflwyno Datganiad Seilwaith Gwyrdd.</b></p> <p>Diwygio paragraff 11.404 o'r cyfiawnhad rhesymegol i bolisi SP14 fel a ganlyn:</p> <p>11.404 Mae amddiffyn a gwella'r elfennau hyn yn ffurfio rhan bwysig o'r strategaeth, sy'n ceisio adlewyrchu nid yn unig y dynodiadau rhyngwladol a chenedlaethol hynny, ond hefyd cyfraniad safleoedd a thirweddau ar y lefel leol. <b>Rhaid ystyried pob cynnig datblygu yn unol â gofynion Polisi Cenedlaethol a deddfwriaethol lle byddai cynnig ar gyfer datblygu yn arwain at effaith andwyol arwyddocaol ar safleoedd dynodedig, gan gynnwys safleoedd Ewropeaidd, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, a chynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth ac adnoddau naturiol nad oes modd eu hadfer.</b> Bydd y Cynllun Datblygu Lleol hefyd yn ceisio cadw a gwella adnoddau naturiol megis geoamrywiaeth, dŵr, pridd ac ansawdd yr aer.</p> <p>Mewnosod y canlynol ar ôl paragraff 11.404 o'r cyfiawnhad rhesymegol i bolisi SP14:</p> <p><b>Ni ddylai datblygiad achosi unrhyw golled sylweddol o gynefinoedd neu boblogaethau o rywogaethau (yn lleol a/neu'n genedlaethol) a rhaid iddo ddarparu buddion net i fioamrywiaeth. Lle na chynigir gwella bioamrywiaeth fel rhan o gynnig ar gyfer datblygu, rhoddir pwysau sylweddol i'w absenoldeb, ac oni bai bod ystyriaethau perthnasol arwyddocaol eraill yn nodi fel arall bydd angen gwrthod caniatâd.</b></p> <p>Diwygio paragraff 11.408 fel a ganlyn:</p> <p>11.408 Er bod y Cynllun yn cydnabod yr angen am ddatblygiadau newydd at ddibenion cymdeithasol ac economaidd, bydd y Cyngor yn diogelu nodweddion amgylcheddol Sir Gaerfyrddin. Mae'r Cynllun hefyd yn ceisio sicrhau bod yr amgylchedd naturiol yn cael ei amddiffyn a'i wella drwy bolisiau manwl. Mae'r polisi yn adlewyrchu cynnwys llythyr y Prif Swyddog Cynllunio dyddiedig 23 Hydref 2019 ar Sicrhau Gwelliannau Bioamrywiaeth. Cyfeirir hefyd at Ddatganiad Ardal De-orllewin Cymru <del>(2020)</del> yn hyn o beth.</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
<b>MAC 065</b>	<p><b>AP5/2</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Diwygio Polisi NE1 fel a ganlyn.</p> <p><b>NE1: Dynodiadau Rhanbarthol a Lleol</b></p> <p><b>Bydd cynigion datblygu a fydd yn arwain at effeithiau andwyol i Warchodfa <b>feydd</b> Natur Lleol, Safle Pwysigrwydd Cadwraeth Natur (SINC), <b>cynefin mawndir</b>, a/neu Safle Daeargol/Geomorffolegol o Bwysigrwydd Rhanbarthol (RIGS) ond yn cael ei ganiatáu lle y gellir dangos:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><b>i a) Bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r holl effeithiau andwyol yn unol â'r <b>dull fesul cam hierarchaeth-liniaru</b>;</b></li> <li><b>ii b) Pan nad yw hyn yn ymarferol, sicrhau fod mesurau digolledu digonol yn cael eu rhoi ar waith sy'n mynd i'r afael â'r holl effeithiau andwyol posibl ar y safleoedd hyn sy'n deillio o'r cynnig; neu</b></li> <li><b>iii c) Mewn amgylchiadau eithriadol, lle mae'r rhesymau dros y datblygiad a/neu'r newid mewn defnydd tir yn amlwg yn drech na'r angen i ddiogelu buddion cadwraethol y safle.</b></li> </ul> <p>Ni ddylai cynigion <b>datblygu</b> achosi unrhyw golled sylweddol o gynefinoedd neu boblogaethau o rywogaethau, yn lleol neu'n genedlaethol, <b>cysylltedd ecolegol</b> a rhaid iddynt ddarparu buddion net i fioamrywiaeth.</p> <p>Diwygio paragraff 11.411 fel a ganlyn:</p> <p>11.411 Mewn amgylchiadau lle gallai'r angen am ddatblygiad orbwyso'r angen i ddiogelu safle penodol, yna bydd yr effaith yn cael ei hosgoi, ei lleihau, a'i lliniaru cyn belled ag y bo modd (yn unol â'r <b>hierarchaeth-liniaru dull fesul cam</b>). Pan fydd effeithiau gweddillol yn parhau, caiff mesurau eu rhoi ar waith i sicrhau bod darpariaeth cynefinoedd bywyd gwyllt amgen neu fesurau creu cynefinoedd yn cael eu darparu i sicrhau nad oes colled net yng ngwerth cadwraeth yr ardal neu'r nodwedd ar y</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		cyfan. Lle y bo'n briodol, bydd yr awdurdod yn ystyried defnyddio amodau a/neu rwymedigaethau cynllunio i ddarparu mesurau lliniaru a/neu gydbwysu priodol.
<b>MAC 066</b>	<b>AP5/3</b>  Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	<p>Diwygio Polisi NE2 fel a ganlyn:</p> <p><b>NE2: Bioamrywiaeth</b></p> <p><b>Rhaid i gynigion datblygu gynnal a gwella bioamrywiaeth yn unol ag Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.</b></p> <p><b>Ni chaniateir cynigion lle byddent yn arwain at effaith andwyol ar rywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth, a nodweddion o bwysigrwydd cydnabyddedig i warchod bioamrywiaeth, ac eithrio lle gellir dangos:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><b>i a) Bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r holl effeithiau andwyol yn unol â'r dull fesul cam hierarchaeth lliniaru;</b></li> <li><b>ii b) Pan nad yw hyn yn ymarferol, sicrhau bod mesurau digolledu digonol yn cael eu rhoi ar waith sy'n mynd i'r afael â phob effaith andwyol bosibl ar fioamrywiaeth sy'n deillio o'r cynigion a sicrhau budd net i fioamrywiaeth; ac</b></li> <li><b>iii c) Mewn amgylchiadau eithriadol, lle mae'r rhesymau dros y datblygiad a/neu'r newid mewn defnydd tir yn amlwg yn drech na'r angen i ddiogelu buddion bioamrywiaeth a chadwraeth natur y safle.</b></li> </ul> <p><b>Ni ddylai cynigion datblygu achosi unrhyw golled sylweddol o gynefinoedd neu boblogaethau o rywogaethau, yn lleol neu'n genedlaethol, a rhaid iddynt ddarparu buddion net i fioamrywiaeth.</b></p> <p>Diwygio paragraff 11.413 fel a ganlyn:</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>11.413 Mae'r polisi hwn yn ceisio sicrhau bod y cynefinoedd a'r rhywogaethau a nodir yn Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cael eu diogelu'n addas rhag datblygu niweidiol a bod y Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaeth i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. Dylid cyfeirio'n llawn at Ganllawiau Cynllunio Atodol Cadwraeth Natur a Bioamrywiaeth, Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 124 (gan gynnwys cofnodion a ffynonellau a nodwyd ac a gadwyd yn y ffynonellau a nodwyd ym mharagraff 6.4.3) a llythyr y Prif Swyddogion Cynllunio (2019) ar sicrhau Gwelliannau Bioamrywiaeth. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn cynnwys canllawiau i ddatblygwyr a dylent fod o gymorth i weithredu'r polisi hwn a'r CDLI. Lle y bo'n berthnasol, bydd rôl cynefinoedd ac ardaloedd cysylltiedig fel llwybrau cysylltedd, 'rhwydweithiau ecolegol' neu 'rwydweithiau coridor anifeiliaid' yn cael ei hystyried (dylid cyfeirio at Bolisi NE3).</p> <p>Diwygio paragraff 11.416 fel a ganlyn:</p> <p>11.416 O dan amgylchiadau eithriadol, gallai'r angen am ddatblygiad wrthbwysu'r angen i ddiogelu bioamrywiaeth ar safle penodol. Mewn achosion o'r fath, bydd effaith yn cael ei hosgoi, ei lleihau i'r eithaf a'i lliniaru hyd y bo'n bosibl (yn unol â'r dull fesul cam hierarchaeth liniaru) a phan fydd effeithiau gweddillol yn parhau, caiff mesurau eu rhoi ar waith i sicrhau bod darpariaeth cynefinoedd bywyd gwyllt amgen neu fesurau creu cynefinoedd yn cael eu darparu er mwyn sicrhau nad oes colled net ym mioamrywiaeth yr ardal neu'r nodwedd ar y cyfan.</p>
MAC 067	<p><b>AP5/4</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Diwygio polisi NE3 fel a ganlyn:</p> <p><b>NE3: Coridorau, Rhwydweithiau a Nodweddion Unigryw</b></p> <p><b>Bydd disgwyl i gynigion datblygu gynnal a gwella coridorau ecolegol, rhwydweithiau, a nodweddion arbennig. Bydd cynigion sy'n cynnwys darpariaeth ar gyfer cadw a rheoli nodweddion o'r fath yn briodol yn cael eu cefnogi.</b></p> <p><b>Bydd cynigion sy'n arwain at effaith andwyol ar gysylltedd neu gyfanrwydd coridorau ecolegol, rhwydweithiau neu nodweddion arbennig ond yn cael eu caniatáu dan yr amgylchiadau canlynol:</b></p> <p><b>a) Bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r holl effeithiau andwyol yn unol â'r dull cam wrth gam hierarchaeth liniaru;</b></p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p><b>b)</b> Pan nad yw hyn yn ymarferol, sicrhau bod mesurau digolledu digonol yn cael eu rhoi ar waith sy'n mynd i'r afael â phob effaith andwyol bosibl ar fioamrywiaeth sy'n deillio o'r cynigion; ac</p> <p><b>c)</b> Mewn amgylchiadau eithriadol, lle mae'r rhesymau dros y datblygiad a/neu'r newid mewn defnydd tir yn amlwg yn drech na'r angen i ddiogelu buddion bioamrywiaeth a chadwraeth natur y safle.</p> <p><b>Ni ddylai cynigion datblygu achosi unrhyw golled sylweddol o gynefinoedd neu boblogaethau o rywogaethau, yn lleol neu'n genedlaethol, a rhaid iddynt ddarparu buddion net i fioamrywiaeth.</b></p> <p>Diwygio paragraff 11.420 o'r cyfiawnhad rhesymegol fel a ganlyn:</p> <p>11.420 Mae'r polisi hwn yn ceisio sicrhau bod coridorau, rhwydweithiau a nodweddion unigryw ecolegol yn cael eu diogelu a'u rheoli'n briodol. Mae'r rhain yn cynnwys nodweddion sydd, oherwydd eu strwythur llinol a pharhaus neu eu swyddogaethau fel 'camau graddol' neu 'goridorau bywyd gwyllt', yn hanfodol ar gyfer lleihau darniad cynefinoedd a rhoi anogaeth ar gyfer mudo a gwasgariad ecolegol neu gyfnewid genetig. Gall diogelu'r nodweddion hyn wneud cyfraniad pwysig i ddyletswydd y Cyngor o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r rhain hefyd yn werthfawr o ran eu cyfraniad i ansawdd yr amgylchedd lleol ac o ran ei gwneud yn bosibl addasu a bod yn gydnerth yn wyneb y newid yn yr hinsawdd. <b>Dylid cyfeirio at ddarpariaethau paragraff 6.4.5 Polisi Cynllunio Cymru - 'Fframwaith DECCA' a'r pum priodwedd allweddol a nodwyd</b></p> <p>Diwygio'r cyfiawnhad rhesymegol i gynnwys y paragraff newydd canlynol ar ôl 11.422:</p> <p><b>O dan amgylchiadau eithriadol, gallai'r angen am ddatblygiad wrthbwysu'r angen i ddiogelu coridorau ecolegol, rhwydweithiau, a nodweddion unigryw penodol. Mewn achosion o'r fath, bydd yr effaith yn cael ei hosgoi, ei lleihau i'r eithaf a'i lliniaru hyd y bo'n bosibl (yn unol â'r dull fesul cam) a phan fydd effeithiau gweddillol yn parhau, caiff mesurau eu rhoi ar waith i sicrhau bod darpariaeth cynefinoedd bywyd gwyllt amgen neu fesurau creu cynefinoedd yn cael eu darparu er mwyn sicrhau nad oes colled net ym mioamrywiaeth yr ardal neu'r nodwedd ar y cyfan.</b></p>
<b>MAC 068</b>	<b>AP5/5</b>  Sicrhau bod cynnwys y	<p>Diwygio Polisi NE4 fel a ganlyn. Gwneud diwygiadau canlyniadol i'r Cynllun i adlewyrchu'r newid yn nheitl y polisi.</p> <p><b>NE4: Datblygiad o fewn Ardal Prosiect <del>Canllawiau Cynllunio Atodol</del> Caeau'r Mynydd Mawr (CMM)</b></p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
	Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	<p><b>Caniateir cynigion datblygu lle maent <del>yn unol ag ymrwymiad y Cyngor</del> i hyrwyddo a chyfrannu at y gwaith o gyflawni Amcanion Cadwraeth Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau'r Mynydd Mawr <del>yn unol â'r Rheoliadau Cynefinoedd</del>.</b></p> <p><b>Bydd yn ofynnol i gynigion sydd wedi'u lleoli o fewn Ardal <del>Canllawiau Cynllunio Atodol</del> Prosiect Caeau'r Mynydd Mawr fel y'i diffinnir ar y Map Cynigion, lle bo'n berthnasol, gyfrannu tuag at gyflawni Amcanion Cadwraeth ACA Caeau'r Mynydd Mawr ac i wneud iawn am gollu cynefin cynhaliol posibl a chysylltedd ar gyfer Britheg y Gors. <del>cynyddu ansawdd y cynefin a faint ohono sydd ar gael ar gyfer Britheg y Gors o fewn Ardal y Canllawiau Cynllunio Atodol</del>.</b></p> <p><b><del>Er mwyn cyflawni'r Amcanion Cadwraeth, ac i wneud iawn am gollu cynefin cynhaliol posibl a chysylltedd ar gyfer Britheg y Gors a allai ddigwydd o ganlyniad i'r datblygiad, bydd y Cyngor (lle bo'n berthnasol) yn ceisio sicrhau Rhwymedigaethau Cynllunio (yn unol â pholisi INF1 y CDLI a darpariaethau'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau'r Mynydd Mawr) gan ddatblygiadau perthnasol yn ardal y Canllawiau Cynllunio Atodol.</del></b></p> <p>Diwygio'r cyfiawnhad rhesymegol dros Bolisi NE4 fel a ganlyn:</p> <p>Mae'r polisi yn darparu mecanwaith i gefnogi cyflawni datblygiad yn ardal Canllawiau Cynllunio Atodol Caeau'r Mynydd Mawr ar yr amod na fydd unrhyw effaith arwyddocaol debygol ar yr Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Mae hefyd yn ceisio sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyflawni mewn modd sy'n bodloni'r Amcanion Cadwraeth ar gyfer ACA Caeau'r Mynydd Mawr. Yn hyn o beth, mae'n ceisio gwneud iawn am gollu cynefin cynhaliol a chysylltedd posibl ar gyfer britheg y gors a allai ddeillio o'r datblygiad. Mae'r polisi yn adlewyrchu'r ffaith bod prosiect Caeau'r Mynydd Mawr fel y'i gweithredir ar hyn o bryd eisoes yn galluogi rheoli cynefin o fewn ardal prosiect fel y'i diffinnir ar y Map Cynigion.</p> <p>Mae ardal y prosiect yn cynnwys rhan o Brif Ganolfan Rhydaman/Cross Hands fel y'i diffinnir yn y CDLI Diwygiedig. Mae'r brif ganolfan a'r lefelau twf a briodolir iddi yn rhan bwysig o strategaeth y Cynllun. Mae ardal Cross Hands hefyd yn cynnal un o boblogaethau pwysicaf Cymru o frithegion y gors, ac mae dynodi ardal Caeau'r Mynydd Mawr yn Ardal Cadwraeth Arbennig yn dangos presenoldeb y glöyn byw hwn. Fodd bynnag, mae'r glöyn byw dan fgythiad yn sgil colli cynefin o ganlyniad i ddatblygiad, a hefyd yn sgil dirywiad cyflwr ei gynefin oherwydd rheolaeth amhriodol. Mae'r glöyn byw hwn yn byw mewn</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>metaboblogaeth - grŵp o boblogaethau (llai o faint) lleol a gysylltir gan löynnod byw unigol sy'n mudo rhyngddynt - felly mae angen ardaloedd mawr o gynefin glaswelltir corsiog di-dor neu gysylltiedig arni. Mae'r cynefin hwn yn cynnwys y planhigyn bwyd tamaid y cythraul (<i>Succisa pratensis</i>). Mae'r polisi a'i Ganllawiau Cynllunio Atodol ategol yn ceisio cydbwysu gofynion cadwraeth a datblygu a allai dynnu'n groes i'w gilydd, fel rhan o ddull creu lleoedd.</p> <p>O safbwynt yr Amcanion Cadwraeth ar gyfer yr ACA, dylid nodi bod sicrwydd a chadernid hirdymor y boblogaeth yn dibynnu ar gynnal rhwydwaith helaeth o gynefinoedd addas wedi'u cysylltu'n dda â'i gilydd (ni fydd pob un ohonynt yn gartref i fritheg y gors ar unrhyw un adeg) o fewn a thu allan i ffin yr ACA a warchodir. O ganlyniad, mae ardal prosiect ehangach fel y'i diffinnir ar y Map Cynigion wedi'i nodi i gefnogi metaboblogaeth y glöynnod byw</p> <p>11.423 <del>Gall datblygiadau fynd ymlaen yn ardal Canllawiau Cynllunio Atodol Caeau'r Mynydd Mawr ar yr amod na fydd unrhyw effaith sylweddol debygol amlwg ar Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau'r Mynydd Mawr (ACA Caeau'r Mynydd Mawr). I'r perwyl hwn, b</del>Bydd y Cyngor (lle bo'n briodol) yn ceisio cyfraniadau gan ddatblygwyr i ariannu'r gwaith o gyflawni prosiect Caeau'r Mynydd Mawr gan gynnwys prosiect rheoli cynefinoedd yn ardal y <del>Canllawiau Cynllunio Atodol</del> prosiect. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Caeau'r Mynydd Mawr (<del>ACA CCA</del>) a fydd yn cael eu mabwysiadu ar yr un pryd â'r Cynllun<sup>[90]</sup>. Bydd cyfraniadau o'r fath yn cael eu ceisio (yn unol â pholisi INF1 a darpariaethau'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer ACA Caeau'r Mynydd Mawr) gan ddatblygiadau yn ardal y prosiect.</p> <p>11.424 Mae darpariaeth y polisi yn adlewyrchu cyfrifoldeb statudol y Cyngor, o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 ac fel yr "awdurdod cymwys" perthnasol, wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer cynigion datblygu sy'n effeithio ar yr ACA a'i metaboblogaeth. Mae'r polisi fel y caiff ei ategu gan y Canllawiau Cynllunio Atodol yn darparu mecanwaith i ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio a/neu ddatblygwyr geisio lliniaru effaith eu cynigion ar yr ACA trwy gyfrannu at brosiect <del>rheoli cynefinoedd</del> Caeau'r Mynydd Mawr y Cyngor. I sicrhau bod y CDLI yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Cynefinoedd, bydd y Cyngor (lle y bo'n briodol) yn rhoi blaenoriaeth i sicrhau rhwymedigaethau mewn perthynas ag ACA Caeau'r Mynydd Mawr ar gyfer cynigion sydd wedi'u lleoli o fewn a <del>Ardal</del> <del>Canllawiau Cynllunio Atodol</del> prosiect Caeau'r Mynydd Mawr.</p> <p>11.425 Bydd rhwymedigaethau cynllunio yn cael eu ceisio ar gyfer y datblygiadau canlynol – dylid cyfeirio at y Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â lefel y tâl a godir (sylwer y gallai hyn gael ei adolygu o bryd i'w gilydd a'i ddiweddarau yn unol â hynny):-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Tai</li> </ul>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Masnachol/Adwerthu</li> <li>• Cyflogaeth</li> <li>• Addysg/Cymunedol</li> <li>• Seilwaith trafndiaeth/priffyrdd</li> </ul> <p>Dylid nodi nad yw'r rhestr uchod yn gynhwysfawr, a gall awdurdodau cynllunio geisio cyfraniadau gan gynigion datblygu eraill o fewn ardal y prosiect. Nid yw darpariaethau'r polisi hwn a'r Canllawiau Cynllunio Atodol ategol yn atal y Cyngor rhag cynnal Profion o Effaith Arwyddocaol Debygol neu Aseidiadau Priodol gyda golwg ar geisiadau cynllunio o fewn ardal y Canllawiau Cynllunio Atodol neu lle maent yn effeithio ar Amcanion Cadwraeth yr ACA lle ystyrir bod hynny'n briodol.</p> <p>11.4256 Caiff darpariaethau'r polisi a'r Canllawiau Cynllunio Atodol eu llywio gan sylfaen dystiolaeth gadarn. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn nodi rhestr codi tâl sy'n ffurfio'r man cychwyn ar gyfer pob trafodaeth ynghylch y cyfraniad sy'n ofynnol gan ddatblygwyr. Dylid cyfeirio at y Canllawiau Cynllunio Atodol o ran unrhyw gyfraniadau arfaethedig 'mewn da' a gynigir gan ddatblygwyr.</p> <p><del>11.426 Caiff Ardal Canllawiau Cynllunio Atodol Caeau'r Mynydd Mawr ei nodi ar y Map Cynigion.</del></p>
MAC 069	<b>AP5/6</b> Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	Diwygio Polisi NE5 fel a ganlyn:  <b>NE5: Rheoli'r Arfordir</b>  <b>Bydd cynigion ar gyfer cynlluniau rheoli arfordirol yn cael eu caniatáu, ar yr amod:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li><b>a)</b> Bod cyfiawnhad priodol dros yr angen am y datblygiad;</li> <li><b>b)</b> Bod y datblygiad yn gydnaws â'r amgylchedd o'i gwmpas;</li> <li><b>c)</b> Ei fod yn diogelu, yn gwella ac, os yw'n briodol, yn creu cysyllteddau cerdded â Llwybr Arfordir Cymru a'r rhwydwaith llwybrau troed;</li> <li><b>d)</b> Na fydd y cynllun yn arwain at gynnydd mewn erydiad, llifogydd nac ansadrwydd tir; <b>ac</b></li> <li><b>e)</b> Eu bod yn gwarchod ac yn gwella'r dirwedd, y forwedd a'r amgylchedd hanesyddol, ac mae ganddynt fuddion net i fioamrywiaeth.</li> </ul>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p><b>Bydd cynigion yn cael eu hannog i ddarparu llwybrau Teithio Llesol ychwanegol i gysylltu cymunedau a llwybrau presennol â Llwybr Arfordir Cymru.</b></p> <p>Diwygio paragraff 11.427 fel a ganlyn:</p> <p>11.427 Mae gan gynlluniau amddiffyn yr arfordir rôl bwysig o ran diogelu poblogaeth, asedau ac adnoddau'r Sir rhag llifogydd llanwol ac erydu. Mae'r polisi hwn yn ceisio sicrhau bod cynlluniau rheoli arfordirol yn cael eu llunio mewn lleoliadau priodol, ac nad ydynt yn cael effaith niweidiol ar y dirwedd o'u hamgylch. Bydd yn ofynnol i gynlluniau roi sylw i ddiogelu rhywogaethau a chynefinoedd yn unol â Pholisi Strategol <b>SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol</b> <del>SP13</del>.</p>
<b>MAC 070</b>	<p><b>AP5/7 -</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Mae Adran 1 o'r Polisi yn berthnasol i bob lleoliad arfordirol datblygedig tra bod Adran 2 o'r Polisi yn berthnasol i lleoliadau arfordirol heb eu datblygu yn unig ac felly'n pennu gofyniad uwch ar gyfer cynigion datblygu i 'warchod a gwella', yn hytrach na pheidio ag achosi niwed annerbyniol.</p> <p>Diwygio polisi NE6 fel a ganlyn:</p> <p><b>NE6: Datblygu'r Arfordir</b></p> <p><del>1</del>-<b>a)</b> Bydd cynigion ym mhob lleoliad arfordirol <b>datblygedig</b> cyn cael eu caniatáu dim ond ar yr amod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li><del>a)</del> <b>1.</b> Eu bod wedi cymryd i ystyriaeth faterion sy'n gysylltiedig â newid arfordirol; <b>ac</b></li> <li><del>b)</del> <b>2.</b> Na fyddant yn niweidio'r dirwedd a'r forwedd mewn modd annerbyniol trwy raddfa, màs a dyluniad amhriodol.</li> </ul> <p><del>2</del>-<b>b)</b> Bydd cynigion datblygu mewn lleoliadau arfordirol sydd heb eu datblygu yn cael eu caniatáu dim ond ar yr amod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li><del>c)</del> <b>3.</b> Bod angen eu lleoli mewn lleoliad arfordirol;</li> <li><del>d)</del> <b>4.</b> Eu bod yn rhan o gynllun rheoli arfordir angenrheidiol;</li> <li><del>e)</del> <b>5.</b> Nad ydynt yn cynyddu'r risg o erydu, llifogydd neu ansadrwydd tir;</li> <li><del>f)</del> <b>6.</b> Na fyddent yn arwain at yr angen am fesurau newydd i ddiogelu'r arfordir; <b>ac</b></li> </ul>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p><b>g) 7.</b>Eu bod yn gwarchod ac yn gwella'r dirwedd, y forwedd, a'r amgylchedd hanesyddol, ac mae ganddynt fuddion net i fioamrywiaeth.</p> <p>Ychwanegwch y testun canlynol at baragraff 11.433 sy'n egluro datblygiad ar ba raddfa sy'n briodol:</p> <p>11.433 Mae gan Sir Gaerfyrddin ardal helaeth o forlin, sy'n ymestyn o aber Afon Llŵchwr i Marros. Gellir diffinio'r ardal arfordirol fel ardaloedd lle mae'r tir a'r môr cyfagos yn cael eu hystyried yn gyd-ddibynnol ar ei gilydd. <b>Bydd yn ofynnol i ddatblygiadau mewn lleoliadau arfordirol fod yn unol â pholisïau eraill y cynllun. Er y gellid ystyried bod datblygiadau o unrhyw raddfa yn briodol, bydd eu cymesuredd mewn perthynas â'r ffurf adeiledig bresennol a'u heffaith ar y dirwedd ehangach yn ystyriaethau allweddol yn unol â Pholisïau NE6 a PSD1.</b></p>
<b>MAC 071</b>	<p><b>AP5/8</b> <b>AP15/7</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Diwygio Polisi NE7 fel a ganlyn. Gwneud diwygiadau canlyniadol i'r Cynllun i adlewyrchu'r newid yn nheitl y polisi.</p> <p><b>NE7: Ardal Rheoli Newid Arfordirol – Datblygiad Preswyl</b></p> <p><b>Mae'r Ardal Rheoli Newid Arfordirol wedi'i diffinio fel yr ardaloedd hynny lle mae Cynllun Rheoli Traethlin 2 (SMP2) yn nodi polisi o 'ddim ymyriad gweithredol' ac 'adlinio rheoledig'.</b></p> <p><b><del>Ni ddylai cynigion datblygu sydd wedi'u lleoli o fewn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol a nodwyd gael effaith niweidiol ar gyfraddau newid arfordirol mewn mannau eraill, a byddant yn amodol ar y canlynol:</del></b></p> <p><b><u>1. Datblygiad Preswyl Newydd</u></b></p> <p><b>Ni fydd cynigion ar gyfer unrhyw <u>ddefnydd</u> ddatblygiad preswyl newydd o fewn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol yn cael eu caniatáu <u>cefnogi</u>. Caniateir estyniadau preswyl sydd â chysylltiad agos â graddfa bresennol yr eiddo, neu ddatblygiad ategol o fewn cwrtill preswyl anheddau presennol pan fyddant yn destun Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd a/neu Asesiad Sadrwydd derbyniol.</b></p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p><b><u>2. Adleoli Anheddau Preswyl Presennol</u></b></p> <p>Bydd cynigion <b>datblygu</b> i adleoli anheddau preswyl presennol o fewn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol yn cael eu caniatáu o dan yr amgylchiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li><b>a)</b> Lle mae'r datblygiad yn disodli annedd barhaol yr effeithir arni neu a fygythir gan erydiad a/neu berygl llifogydd arfordirol o fewn 20 mlynedd i ddyddiad y cynnig; a</li> <li><b>b)</b> Lle mae'r annedd a adleolwyd wedi ei lleoli o fewn pellter priodol i'r tir o ran yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol a gwybodaeth arall yn y Cynllun Rheoli Traethlin, ac lle mae mewn lleoliad sydd: <ul style="list-style-type: none"> <li><b>1.</b> yn achos annedd amaethyddol, o fewn y daliad fferm neu o fewn neu'n ffinio ag aneddiadau presennol (<b>fel y'i diffinnir ym mholisi SP3</b>), neu</li> <li><b>2.</b> o fewn neu'n ffinio ag aneddiadau presennol (<b>fel y'i diffinnir ym mholisi SP3</b>) yn agos at y lleoliad y cafodd ei dadleoli ohono;</li> <li><b>3.</b> yn achos carafán/carafanau sefydlog, caban(nau) gwyliau neu uned(au) llety ymweld parhaol eraill - o fewn, gerllaw neu o fewn pellter derbynol i'r safle presennol.</li> </ul> </li> <li><b>c)</b> Bod safle'r annedd bresennol yn cael ei glirio o unrhyw adeiladau neu daclau preswyl ac yn cael ei wneud yn ddiogel; a,</li> <li><b>d)</b> Bod yr annedd newydd yn debyg o ran maint i'r hyn y mae wedi'i bwriadu i'w ddisodli; a,</li> <li><b>e)</b> Bod y cynnig yn cydnabod y priod ymdeimlad o le o fewn yr ardal ac na ddylai gael effaith niweidiol ar dirwedd, trefwedd, morwedd a/neu fioamrywiaeth yr ardal. <b>∴ a</b></li> </ul> <p><b><u>3. Adeiladau Amhreswyl</u></b></p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p><del>Bydd cynigion ar gyfer y mathau canlynol o ddatblygiadau amhreswyl newydd yn cael eu caniatáu o fewn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol a ragwelir fel rhai sydd mewn perygl o newid arfordirol, yn amodol ar Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ac Asesiad Sadrwydd derbyniol:</del></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><del>i. — datblygiad sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r ardal arfordirol (e.e., cytiau traeth, caffis, ystafelloedd te, siopau, gweithgareddau hamdden); a</del></li> <li><del>ii. — datblygiad sy'n darparu buddion economaidd a chymdeithasol sylweddol i'r gymuned; a</del></li> <li><del>iii. — lle gellir dangos na fydd mwy o risg i fywyd, nac unrhyw risg sylweddol i eiddo.</del></li> </ul> <p><del>Caniateir ailddatblygu, neu estyniadau i, eiddo amhreswyl presennol neu ddwysáu defnydd tir amhreswyl presennol ar safleoedd o fewn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol, lle gellir dangos trwy Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ac Asesiad Sadrwydd addas na fydd risg fwy o gwbl i fywyd, nac unrhyw risg sylweddol i eiddo (lle y bo'n briodol).</del></p> <p><u>4. Estyniadau i Anheddau a Seilwaith Presennol</u></p> <p><del>Bydd cynigion ar gyfer y mathau canlynol o ddatblygiadau yn cael eu caniatáu yn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol, yn amodol ar Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd a/neu Asesiad Sadrwydd addas:</del></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><del>1. Estyniadau preswyl cyfyngedig sydd â chysylltiad agos â graddfa bresennol yr eiddo;</del></li> <li><del>2. Datblygiad ategol o fewn cwrtiil preswyl anheddau presennol;</del></li> <li><del>3. Bydd seilwaith cymunedol a seilwaith arall allweddol (gan gynnwys ffyrdd), y mae'n ofynnol eu lleoli o fewn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol i ddarparu'r budd a fwriadwyd ar gyfer y gymuned ehangach, yn cael eu caniatáu lle mae cynlluniau clir i reoli effaith newid arfordirol ar y cynnig a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo.</del></li> </ul> <p><del>Ni ddylai cynigion datblygu achosi unrhyw golled sylweddol o gynefinoedd neu boblogaethau o rywogaethau, yn lleol neu'n genedlaethol, a rhaid iddynt ddarparu buddion net i fioamrywiaeth.</del></p> <p>Mewnosod y polisi newydd canlynol ar ôl NE7, ac wedi hynny cyfeirir ato fel Polisi NE8. Gwneud diwygiadau canlyniadol i'r Cynllun i adlewyrchu cynnwys y polisi newydd</p> <p><b>NE8: Ardal Rheoli Newid Arfordirol - Adeiladau Amhreswyl a Seilwaith</b></p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>Mae'r Ardal Rheoli Newid Arfordirol wedi'i diffinio fel yr ardaloedd hynny lle mae SMP2 yn nodi polisi o 'ddim ymyriad gweithredol' ac 'adlinio rheoledig'.</p> <p>Bydd cynigion datblygu ar gyfer adeiladau amhreswyl a/neu seilwaith newydd a leolir o fewn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol a nodwyd a ragwelir fel rhai sydd mewn perygl o newid arfordirol yn cael eu caniatáu:</p> <p><u>a)</u> Lle nad ydynt yn cael effaith andwyol ar gyfraddau newid arfordirol mewn mannau eraill, ac:</p> <p><u>b)</u> Maent ar gyfer un o'r mathau canlynol o ddatblygiadau amhreswyl newydd, ac yn amodol ar Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ac Asesiad Sadrwydd derbyniol:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li><u>1.</u> datblygiad sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r ardal arfordirol (e.e., cytiau traeth, caffis, ystafelloedd te, siopau, gweithgareddau hamdden); neu</li> <li><u>2.</u> datblygiad sy'n darparu buddion economaidd a chymdeithasol sylweddol i'r gymuned, gan gynnwys seilwaith cymunedol a seilwaith arall allweddol (gan gynnwys ffyrdd), y mae'n ofynnol eu lleoli o fewn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol i ddarparu'r budd a fwriadwyd ar gyfer y gymuned ehangach a lle mae cynlluniau clir i reoli effaith newid arfordirol ar y cynnig a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo, a</li> </ol> <p><u>c)</u> Lle gellir dangos na fydd mwy o risg i fywyd, nac unrhyw risg sylweddol i eiddo, a</p> <p><u>d)</u> Bod y cynnig yn cydnabod y priod ymdeimlad o le o fewn yr ardal ac nid yw'n cael effaith niweidiol ar dirwedd, trefwedd, morwedd a/neu fioamrywiaeth yr ardal.</p> <p>Caniateir ailddatblygu, neu estyniadau i, eiddo amhreswyl presennol neu ddwysáu defnydd tir amhreswyl presennol ar safleoedd o fewn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol, lle gellir dangos trwy Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ac Asesiad Sadrwydd addas na fydd risg fwy o gwbl i fywyd, nac unrhyw risg sylweddol i eiddo (lle y bo'n briodol).</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>Cymhwyso'r cyfiawnhad rhesymegol dros Bolisi NE7 i'r fersiwn ddiwygiedig o Bolisi NE7 a'r fersiwn newydd o Bolisi NE8 - Ardal Rheoli Newid Arfordirol Amhreswyl fel yr uchod.</p> <p>Diwygio paragraff 11.437 o'r cyfiawnhad rhesymegol fel a ganlyn.</p> <p>11.437 <del>Fel gyda pholisi NE6</del>, Mewn perthynas â pholisïau NE7 ac NE8 dylid rhoi sylw i SMP2 sy'n gosod ystod o bolisïau ar gyfer y morlin, sef 'cadw'r llinell', 'dim ymyriad gweithredol' neu 'adlinio rheoledig', fesul cyfnod polisi (sef: hyd at 2025, 2026 - 2055, a 2056 - 2105).</p> <p>Diwygio paragraff 11.438 o'r cyfiawnhad rhesymegol fel a ganlyn.</p> <p>11.438 Gellir gweld yr SMP2 a map o'r Ardal Rheoli Newid Arfordirol trwy fynd i <a href="http://www.southwalescoast.org">www.southwalescoast.org</a>. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai Awdurdodau Lleol helpu i leihau perygl llifogydd ac effaith erydu arfordirol trwy osgoi datblygu amhriodol mewn ardaloedd sydd dan fgythiad.</p> <p>Diwygio paragraff 11.441 o'r cyfiawnhad rhesymegol fel a ganlyn.</p> <p>11.441 Mae'r math o ddefnydd preswyl y mae hyn yn berthnasol iddo yn cynnwys anheddau unigol, fflatiau uwchlaw eiddo masnachol presennol, tai gwarchod, llety myfyrwyr, hosteli, tai a rennir i bobl anabl, cartrefi nyrsio a chartrefi gofal, addysg breswyl, carafannau sefydlog a chabannau gwyliau (gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â hamdden a thwristiaeth) lle maent wedi'u cysylltu â seilwaith ac yn rhan o safle a chanolfannau hyfforddi sefydledig a wasanaethir yn llawn. Bydd disgwyl i gynigion ar gyfer adleoli anedd breswyl o'r tu mewn i'r Ardal Rheoli Newid Arfordirol ymwneud ag anheddiad a ddiffinnir o fewn Polisi SP3 - fframwaith aneddiadau, a bod ei leoliad ac ystyriaethau cynllunio yn gyson â darpariaethau'r Cynllun. Bydd aneddiadau o'r fath yn cael eu hystyried yn briodol dim ond pan fyddant eu hunain y tu allan i'r Ardal Rheoli Newid Arfordirol.</p> <p>Diwygio paragraff 11.443 o'r cyfiawnhad rhesymegol fel a ganlyn.</p> <p>11.443 Er mwyn galluogi cymunedau arfordirol i addasu i newid arfordirol, mae Polisi NE7 yn hwyluso adleoli a disodli anheddau parhaol i leoliadau amgen sy'n ddiogel rhag erydu arfordirol. Mae'n ceisio sicrhau bod cymunedau arfordirol yn parhau i fod yn gynaliadwy trwy gynnal lefelau'r stoc dai a lleihau'r risg i bobl ac eiddo.</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>Diwygio'r cyfiawnhad rhesymegol i gynnwys yr is-bennawd 'Preswyl' cyn paragraff 11.440, a'r is-bennawd 'Amhreswyl' cyn paragraff 11.445.</p> <p>Paragraff newydd ar ôl paragraff 11.446:</p> <p>Rhif paragraff newydd: Cyfeirir at Bolisi CCH4 er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd gwarchoddedig sy'n sensitif i faetholion.</p>
MAC 072	<p><b>AP5/9</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Diwygio Polisi SP15 fel a ganlyn:</p> <p><b>Polisi Strategol – SP 15: Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol</b></p> <p><b>Dylai cynigion datblygu warchod neu wella amgylchedd adeiledig a hanesyddol y sir, ei hasedau diwylliannol, trefweddol a thirweddol, a, lle bo'n briodol, eu lleoliad.</b></p> <p><b>Disgwylir i gynigion hybu dyluniad o ansawdd da sy'n atgyfnerthu cymeriad lleol ac yn parchu a gwella'r priodweddau diwylliannol a hanesyddol ardal y cynllun.</b></p> <p><b>Dylai datblygiadau newydd mewn ardaloedd cadwraeth fod â dyluniad o safon uchel sy'n ymateb i nodweddion a phriodweddau arbennig yr ardal.</b></p> <p>Diwygio'r cyfiawnhad rhesymegol i bolisi SP15 i gynnwys y paragraff newydd canlynol ar ôl 11.450:</p> <p>Yn hyn o beth, mae'r darpariaethau ar gyfer diogelu'r dreftadaeth adeiledig yn cael eu diogelu trwy ystod o fecanweithiau gan gynnwys Deddfau Seneddol ar wahân i'r Deddfau Cynllunio. Mae cyfres o ganllawiau arferion gorau cenedlaethol yn gysylltiedig â'r un ddiweddaraf, sef Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol Cymru 2016. Gan adlewyrchu eu pwysigrwydd, rhaid i unrhyw gynigion datblygu sy'n effeithio ar ein hasedau hanesyddol adeiledig, neu eu lleoliadau, ystyried yn llawn y ddeddfwriaeth berthnasol a'r canllawiau arferion gorau cenedlaethol.</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>Diwygio paragraff 11.452 fel a ganlyn:</p> <p>11.452 Mae canllawiau a deddfwriaeth eglur mewn perthynas â'r canlynol i'w cael ym Mholisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 124 – Pennod 6: Lleoedd Unigryw a Naturiol <del>Gwarchod yr Amgylchedd Hanesyddol</del>, a Pholisi Strategol SP14: Cynnal a Gwella'r Amgylchedd. Cyfeirir hefyd at ddarpariaethau TAN24 a ddefnyddiwyd wrth lunio'r Cynllun hwn ond sydd hefyd yn darparu canllawiau <del>ar wneud penderfyniadau</del> ynghylch ceisiadau cynllunio ac adeiladau rhestredig. Bydd angen i unrhyw gais am ganiatâd adeilad rhestredig neu ardal gadwraeth gynnwys Datganiad o'r Effaith ar Dreftadaeth yn unol â Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.</p> <p>Diwygio'r cyfiawnhad rhesymegol i bolisi SP15 i gynnwys y paragraff newydd canlynol ar ôl 11.452: (11.455 cyfiawnhad rhesymegol Polisi BHE1 yn flaenorol)</p> <p>Lle mae cynnig yn un ar gyfer adeilad newydd o fewn ardal gadwraeth, dylai roi sylw i'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Golygfeydd, fistâu, strydluniau, toeau, coed, mannau agored, bylchau a nodweddion eraill pwysig sy'n cyfrannu at gymeriad neu ymddangosiad yr ardal gadwraeth;</li> <li>• Ffiniau hanesyddol arwyddocaol neu elfennau eraill sy'n cyfrannu at y ffurf sefydledig ar ddatblygu;</li> <li>• Y berthynas ag adeiladau a mannau presennol, ac aneddiadau; a</li> <li>• Graddfa, taldra a dwysedd, dyluniad pensaernïol, a deunyddiau.</li> </ul>
<b>MAC 073</b>	<p><b>AP5/14</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Diwygio'r cyfiawnhad rhesymegol fel a ganlyn:</p> <p>11.453 Amgylchedd sy'n cydnabod pwysigrwydd ardaloedd a nodweddion o'r fath yn y Sir:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Parciau a Gerddi Hanesyddol<sup>91</sup> - Mae llawer o barciau a gerddi yn hanesyddol arwyddocaol ac wedi'u rhestru yn y Gofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol yng Nghymru.</li> </ul> <p>Mae'r ardaloedd hyn hefyd wedi'u diffinio ar Fap <del>Cynigion y</del> Cyfyngiadau'r CDLI;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Tirweddau Hanesyddol<sup>92</sup></li> <li>• Olion Archaeolegol<sup>93</sup></li> <li>• Datblygiadau Galluogi<sup>94</sup></li> </ul> <p>- mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r darpariaethau y byddai cynnig galluogi yn cael ei ystyried drwyddynt</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Henebion Cofrestredig – caiff y rhain eu diffinio ar y Map <del>Cynigion</del> Cyfyngiadau</li> </ul>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
MAC 074	<p><b>AP5/9</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Dileu Polisi BHE1 a'i gyfiawnhad rhesymegol o'r Cynllun, ynghyd â diwygiadau canlyniadol i Bolisi BHE2 sy'n dod yn Bolisi BHE1.</p> <p><del>Polisi BHE1: Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth</del></p> <p><del>1. Dim ond pan fyddant yn cyd-fynd â'r canlynol y caniateir cynigion mewn perthynas ag adeilad rhestredig:</del></p> <p><del>a) Bydd angen i gynigion ar gyfer newid a/neu ymestyn adeilad rhestredig, neu ei gwrtil, sicrhau bod y cymeriad pensaernïol arbennig, neu'r diddordeb hanesyddol, yn cael ei gadw neu ei wella;</del></p> <p><del>b) Dim ond pan fydd yn cyfrannu at gadw adeilad neu at ei aildefnyddio mewn modd cynaliadwy y caniateir newid defnydd adeilad rhestredig, neu ei gwrtil, a hynny gan osgoi effaith niweidiol ar ei gymeriad, ei ddiddordeb arbennig neu ei uniondeb strwythurol;</del></p> <p><del>c) Caniateir cynigion ar gyfer dymchwel adeilad rhestredig yn llwyr neu'n sylweddol dim ond pan fo'r cyfiawnhad cryfaf a thystiolaeth argyhoeddiadol bod y cynnig yn angenrheidiol;</del></p> <p><del>d) Mae'n rhaid i gynigion sydd â pherthynas â lleoliad adeilad rhestredig, neu sy'n effeithio ar ei lleoliad, sicrhau bod y lleoliad yn cael ei warchod neu ei wella.</del></p> <p><del>2. Caniateir datblygiadau o fewn neu'n gyfagos at ardal gadwraeth, lle y byddent yn gwarchod neu'n gwella cymeriad neu ymddangosiad yr ardal gadwraeth, neu ei lleoliad.</del></p> <p><del>3. Dylai datblygiadau newydd mewn ardaloedd cadwraeth fod â dyluniad o safon uchel sy'n ymateb i nodweddion a phriodweddau arbennig yr ardal.</del></p> <p>11.455 Lle mae cynnig yn un ar gyfer adeilad newydd o fewn ardal gadwraeth, dylai roi sylw i'r canlynol: • Golygfeydd, fistâu, strydluniau, toeau, coed, mannau agored, bylchau a nodweddion eraill pwysig sy'n cyfrannu at gymeriad neu ymddangosiad yr ardal gadwraeth; • Ffiniau hanesyddol arwyddocaol neu elfennau eraill sy'n cyfrannu at y ffurf sefydledig ar ddatblygu; • Y</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<del>berthynas â'r adeiladau, manau presennol, a ffurf anheddu sydd eisoes yn bodoli; • Graddfa, taldra a dwysedd, dyluniad pensaernïol, a deunyddiau.</del>
MAC 075	AP5/10  Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	<p>Diwygio Polisi BHE2 a'i gyfiawnhad rhesymegol fel a ganlyn. ..</p> <p><b>BHE2: Cymeriad y Dirwedd</b></p> <p><del>Dylai cynigion datblygu ymwneud â thirwedd benodol a nodweddion gweledol yr ardal leol, gan sicrhau y cynhelir cyfanrwydd cyffredinol cymeriad y dirwedd trwy:</del></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><del>a. nodi, diogelu a, lle y bo'n briodol, gwella'r dirwedd unigryw a'r dreftadaeth hanesyddol, ddiwylliannol, ecolegol a daearegol, gan gynnwys elfennau naturiol a rhai o waith dyn sy'n gysylltiedig â chymeriad presennol y dirwedd;</del></li> <li><del>b. diogelu dynodiadau tirwedd rhyngwladol a chenedlaethol gan gynnwys Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a'u lleoliadau;</del></li> <li><del>c. gwarchod arbenigrwydd, ymdeimlad o le a lleoliad lleol;</del></li> <li><del>d. parchu a gwarchod nodweddion penodol ar y dirwedd, ac integreiddio egwyddorion creu lleoedd a seilwaith gwyrdd a glas;</del></li> <li><del>e. gwarchod golygfeydd a fistâu allweddol o'r dirwedd.</del></li> </ul> <p><del>11.456 Nodweddir Sir Gaerfyrddin gan adnoddau tirwedd amrywiol ac o ansawdd uchel ac ardaloedd o werth gweledol nodedig. Mae hefyd yn cynnwys neu'n ffinio ag amrywiaeth o ddynodiadau tirwedd, gan gynnwys Bannau Brycheiniog a Pharciau Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Penrhyn Gŵyr.</del></p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p><del>11.457 Mae priodoeddau tirwedd allweddol y Sir yn amrywiol ac yn cynnwys ardaloedd ucheldirol, gwastatiroedd arfordirol a dyffrynnoedd afonydd o werth tirwedd a phwysigrwydd ecolegol uchel. Mae'r rhain yn darparu manteision amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol sylweddol ac yn helpu i greu ymdeimlad o le.</del></p> <p><del>(1)11.458 Mae'r Polisi yn ceisio diogelu, cynnal, a (lle y bo'n briodol) gwella cymeriad ac ansawdd tirwedd Sir Gaerfyrddin gyda'r nodweddion hynny sy'n cyfrannu at gymeriad unigryw'r Sir yn cael mesurau gwarchod ar lefelau priodol gyda'u harwyddocâd yn cael ei amlygu gan ddefnyddio adnodd LANDMAP CNC. Sylwer: Adnodd tirwedd sy'n seiliedig ar System Gwybodaeth Ddaearyddol yw LANDMAP lle caiff nodweddion tirwedd, ei phriodweddau a dylanwadau ar y dirwedd eu cofnodi a'u gwerthuso i greu set ddata sy'n gyson yn genedlaethol.</del></p> <p><del>(2)11.459 Bydd y polisi yn cael ei ategu gan Asesiad o Gymeriad y Dirwedd a Chanllawiau Cynllunio Atodol. Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed a'r darpariaethau polisi o ran Creu Lleoedd a Seilwaith Gwyrdd a Glas wrth ddatblygu cyfres integredig o ddogfennau canllaw i lywio cynigion datblygu.</del></p> <p><del>11.460 Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn nodi ac yn disgrifio ardaloedd a mathau o gymeriad tirwedd nodedig ledled ardal y cynllun.</del></p> <p><del>11.461 Yn hyn o beth pwrpas y polisi yw adlewyrchu hynodrwydd, nodweddion a sensitifrwydd penodol cydrannau tirwedd y sir.</del></p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p><b>BHE21: Gwarchod a Gwella Cymeriad y Dirwedd</b></p> <p>Bydd tirweddau a morweddau amrywiol ac unigryw Sir Gaerfyrddin yn cael eu gwarchod a'u gwella. Bydd pob cynnig datblygu o fewn a'r tu allan i'r terfynau datblygu yn diogelu ac yn gwella nodweddion y dirwedd a sensitifrwydd gweledol ardaloedd cymeriad tirwedd. Dylai datblygiadau geisio osgoi neu liniaru'n ddigonol unrhyw effeithiau andwyol ar gymeriad y dirwedd.</p> <p>Rhaid i gynigion datblygu y tu allan i'r terfynau datblygu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a) peidio ag arwain at effeithiau andwyol annerbyniol, gan gynnwys effeithiau cronol, i nodweddion neu leoliadau sy'n bwysig i gymeriad y dirwedd yn yr ardal leol.</li> <li>b) dangos sut maent yn parchu ac yn ymateb i brif nodweddion a phriodweddau gwerthfawr yr ardaloedd cymeriad tirwedd perthnasol, fel y nodir yn yr Asesiad o Gymeriad y Dirwedd.</li> <li>c) cyfrannu'n gadarnhaol at y dirwedd a'r cymeriad gweledol trwy ddyluniad o ansawdd uchel o ran y ffurf adeiledig sy'n gysylltiedig ag enghreifftiau cadarnhaol o gymeriad unigryw lleol trwy ffurf, graddfa, dimensiynau, deunyddiau, manylion, lliw a gorffeniadau ac yn ymateb iddynt.</li> <li>d) cyfrannu'n gadarnhaol at y dirwedd a'r cymeriad gweledol trwy gynllun a dylunio tirwedd o ansawdd uchel sy'n gysylltiedig â chymeriad unigryw lleol, gan gynnwys trwy fathau o blanhigion a rhywogaethau, a deunyddiau tirwedd galed a manylion, ac yn ymateb iddo; a</li> <li>e) gwarchod a gwella neu adfer patrymau a nodweddion cymeriad tirwedd presennol a ffurfir gan nodweddion gan gynnwys gorchudd coed, cynefinoedd lled-naturiol, ffiniau caeau, gwrychoedd,</li> </ul>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p data-bbox="636 316 2047 389"><b>cloddiau a waliau cerrig ac integreiddio'r nodweddion hyn yn y cynllun a chynlluniau dylunio tirwedd.</b></p> <p data-bbox="499 488 2101 561"><b>Dylai cynigion gynnwys asesiad o'r effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol sy'n gymesur â graddfa, lleoliad a natur y datblygiad.</b></p> <p data-bbox="499 655 2123 802">Nodweddir Sir Gaerfyrddin gan adnoddau tirwedd amrywiol ac o ansawdd uchel. Mae Confensiwn Tirwedd Ewrop yn diffinio tirwedd fel 'ardal, fel y'i hystyrir gan bobl, y mae ei chymeriad yn ganlyniad i weithredu a rhyngweithio rhwng ffactorau naturiol a/neu ddynol'. Mae pob tirwedd yn bwysig ac yn werthfawr. Mae cymeriad y dirwedd yn cynnwys ffactorau naturiol, diwylliannol a chanfyddiadol ac yn cynnwys cymeriad gweledol/golygfaol.</p> <p data-bbox="499 895 2107 1042">Caiff y polisi ei ategu gan Asesiad o Gymeriad y Dirwedd drwy Ganllawiau Cynllunio Atodol. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn diffinio Ardaloedd Cymeriad Tirwedd penodol sy'n adeiladu ar werthusiadau LANDMAP o ardaloedd a dynodiadau hanesyddol a thirwedd i ddarparu llinell sylfaen ar gyfer nodi'r patrymau a'r cyfuniadau unigol o nodweddion sy'n diffinio 'ymdeimlad o le' adnabyddadwy sy'n gwneud pob Ardal Cymeriad Tirwedd yn unigryw.</p> <p data-bbox="499 1134 2063 1208">Sylwer: Adnodd tirwedd sy'n seiliedig ar System Gwybodaeth Ddaearyddol yw LANDMAP lle caiff nodweddion tirwedd, ei phriodweddau a dylanwadau ar y dirwedd eu cofnodi a'u gwerthuso i greu set ddata sy'n gyson yn genedlaethol.</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>Mae'r Asesiad o Gymeriad y Dirwedd yn disgrifio'r nodweddion allweddol sy'n diffinio'r tirweddau hyn, yn nodi priodweddau a nodweddion gwerthfawr, grymoedd dros newid sy'n effeithio ar y tirweddau, ac yn darparu strategaeth tirwedd ar gyfer pob ardal cymeriad tirwedd (gan gynnwys canllawiau rheoli datblygu a rheoli tirwedd).</p> <p>Bydd yr Asesiad o Gymeriad y Dirwedd yn cael ei ddefnyddio i asesu effaith cynigion datblygu perthnasol ar gymeriad y dirwedd, gan sicrhau bod cymeriad y dirwedd a materion sensitifrwydd yn cael eu hystyried yn llawn. Bydd angen i gynigion datblygu ddangos sut maent yn ystyried ac yn ymateb yn gadarnhaol i'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• nodweddion gwerthfawr, a'r</li> <li>• strategaeth tirwedd, a</li> <li>• dangos sut y bydd unrhyw effeithiau andwyol yn cael eu lliniaru.</li> </ul> <p>Mae'r ardaloedd cymeriad a ddiffinnir yn yr Asesiad o Gymeriad y Dirwedd i'w gweld yn Atodiad X</p> <p>Dylai pob cynnig datblygu ddiogelu a gwella nodweddion a sensitifrwydd yr ardaloedd cymeriad tirwedd. Dylent ddangos sut y bydd eu lleoliad, eu graddfa, eu dyluniad a'u deunyddiau yn gwarchod ac yn gwella cymeriad lleol a nodweddion gwerthfawr allweddol fel y cydnabyddir yn yr Asesiad o Gymeriad y Dirwedd. Mae hyn yn cynnwys cynigion o fewn terfynau datblygu, lle bydd cyngor yn yr Asesiad o Gymeriad y Dirwedd yn arbennig o bwysig ar gyfer safleoedd ar gyron anheddiad neu mewn lleoliadau amlwg o fewn y drefwedd. Y tu allan i'r terfynau datblygu, dylai cynigion ddangos sut y mae'r meini prawf manwl a e wedi'u hystyried a'u cymhwyso.</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>Bydd y cyngor a'r argymhellion yn yr Aseiad o Gymeriad y Dirwedd yn cael eu cymhwyso'n gymesur â chynigion yn seiliedig ar ffactorau perthnasol gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, graddfa'r datblygiad, ei leoliad a'i fath. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylid cyflwyno Arfarniad Tirwedd a Gweledol gyda chynigion sy'n esbonio sut y mae'r dyluniad</p> <p>a'r lleoliad wedi ystyried nodweddion y dirwedd, gan gynnwys mesurau lliniaru. Gallai hyn fod ar ffurf datganiad ar gyfer y rhan fwyaf o fân geisiadau a datblygiadau deiliaid tai neu, ar gyfer datblygiadau mawr, gellir ei ymgorffori mewn Datganiad Dylunio a Mynediad.</p> <p>Dylai cynigion sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar y dirwedd a/neu effaith weledol gael eu cyflwyno ochr yn ochr ag Aseiad o'r Effaith ar y Dirwedd ac Effaith Weledol (LVIA) wedi'i baratoi yn unol â chanllawiau diweddaraf y Sefydliad Tirwedd a'r Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol. Maent yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gynlluniau sy'n newid topograffeg tir, gwaith cloddio neu a allai effeithio ar nodweddion allweddol Ardal Cymeriad Tirwedd. Gallai enghreifftiau o'r fath fod yn berthnasol i fân ddatblygiadau, er yn y rhan fwyaf o achosion byddant yn berthnasol i ddatblygiadau mawr y tu allan i derfynau datblygu lle nad oes strwythurau presennol.</p> <p>Lle mae angen mesurau lliniaru, dylai cynigion ystyried lleoliad a dyluniad priodol, e.e. defnyddio pantiau yn y tirffurf, cadw llystyfiant/plannu o'r newydd fel sgrin gan ddefnyddio rhywogaethau sy'n briodol yn lleol ac ati. Lle bo hynny'n briodol, ac yn amodol ar y math o ddatblygiad, gellir ystyried mathau eraill o fesurau lliniaru oddi ar y safle yn dibynnu ar y materion gweledol/tirwedd sy'n codi.</p> <p>Mae ardal yr Awdurdod yn cynnwys rhannau o un ardal a ddynodwyd yn genedlaethol (Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) ac mae'n gymharol agos at ardaloedd cyfagos a ddynodwyd yn genedlaethol (Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr), sy'n golygu y gallai cynigion datblygu arwain at effeithiau gweledol a thirwedd trawsffiniol posibl. Dylai cynigion datblygu ystyried dibenion statudol y Parc Cenedlaethol.</p> <p>Dylid ymgynghori ac Awdurdodau Cynllunio Lleol mewn awdurdodau cyfagos os gallai datblygiad arwain at effeithiau trawsffiniol ar dirwedd a chymeriad gweledol, gan gynnwys effeithiau cronol.</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>Mae ardal y Cynllun yn cynnwys ardaloedd a nodwyd yn y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol (Dyffryn Tywi HLW[D] 5; Preseli HLW[D] 7; Dolaucothi HLW[D] 8; ac Aber Afon Taf ac Afon Tywi HLW[D] 9) a'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig (Dre-fach a Felindre HLW[D] 10; Rhan Isaf Dyffryn Teifi HLW[D] 14). Mae'r ardaloedd hyn o werth nodedig yn benodol oherwydd cymeriad hanesyddol neu ddiwylliannol y dirwedd a lle bo hynny'n briodol, byddant yn cael eu cyfeirnoddi yn y Canllawiau Cynllunio Atodol - Asesiad o Gymeriad y Dirwedd.</p>
<p><b>MAC 076</b></p>	<p><b>AP6/1</b> <b>AP6/22</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Diwygio Polisi SP16 a'i gyfiawnhad rhesymegol fel a ganlyn: <b>Polisi Strategol – SP16: Newid yn yr Hinsawdd</b></p> <p><b>Bydd cynigion datblygu'n cael eu cefnogi os ydynt yn ymateb i newid yn yr hinsawdd neu'n addasu iddo, yn cynyddu'r gallu i'w wrthsefyll, ac yn lleihau ei achosion a'i effeithiau. Rhaid i gynigion:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>a) Gyfrannu at leihau allyriadau carbon trwy adlewyrchu egwyddorion trafndiaeth gynaliadwy a lleihau'r angen i deithio, yn arbennig mewn ceir modur preifat;</li> <li>b) osgoi, neu pan fo'n briodol, lleihau'r risg o lifogydd yn cynnwys ymgorffori mesurau megis SuDS a dyluniad cydnerth mewn perthynas â llifogydd);</li> <li>c) Hyrwyddo fframwaith ynni trwy leihau'r galw am ynni, hyrwyddo effeithlonrwydd ynni a chynyddu cyflenwad ynni adnewyddadwy;</li> <li>d) Ymgorffori atebion cynllun ymateb priodol i'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys cyfeiriad, cynllun, dwysedd ac atebion carbon isel (gan gynnwys dulliau cynllunio ac adeiladu) a defnyddio dulliau adeiladu cynaliadwy pan fo hynny'n ymarferol; a/neu</li> <li>e) Cyfrannu tuag at ddiogelu a gwella asedau Seilwaith Gwyrdd a Glas a rhwydweithiau ecolegol cydnerth fel dalfeydd carbon.</li> </ul>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p><b>Ni fydd cynigion datblygu sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd sydd yn wynebu risg llifogydd yn cael eu caniatáu oni bai eu bod yn cydymffurfio â darpariaethau Polisi Cynllunio Cymru a TAN 15.</b></p> <p>11.471 Bydd yn ofynnol i gynigion sy'n cael eu heffeithio gan berygl llifogydd gyflwyno Asesiad Canlyniadau Llifogydd fel rhan o unrhyw gais cynllunio a bydd y Cyngor yn ymgynghori â <b>Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)</b>. Lle mae rhan o safle'n cael ei heffeithio gan berygl llifogydd, bydd angen i'r datblygwr ystyried effaith perygl llifogydd ar ddatblygu gweddill y safle. Lle bo hynny'n briodol, dylai gynnal yr holl waith tystiolaeth angenrheidiol (gan gynnwys <b>aAsesiad eCanlyniadau lLlifogydd</b>) at foddhad Cyfoeth Naturiol Cymru. <b>Bydd datblygiadau mewn ardaloedd lle ceir perygl mawr o lifogydd yn cael eu hystyried dim ond lle gellir dangos y gall y safle gydymffurfio â'r gofynion cyfiawnhau ac asesu a nodir yn TAN 15. Lle cynigir datblygiad mewn ardal o berygl llifogydd dynodedig, rhaid cyflwyno datganiad technegol i gyd-fynd ag ef er mwyn bodloni darpariaethau TAN15 a dangos yn glir y bydd y datblygiad newydd yn lliniaru bygythiad a chanlyniadau llifogydd. <del>Dim ond datblygiadau llai agored i ddifrod fydd yn cael eu caniatáu ym Mharth C2. Dylid ystyried Polisi CCH4: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd fel y'i ceir o fewn y Cynllun hwn.</del></b></p>
<b>MAC 077</b>	<p><b>AP6/2</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p>Diwygio Polisi CCH1 fel a ganlyn:</p> <p><b>CCH1 - Ynni Adnewyddadwy o fewn <del>Ardaloedd a Aseswyd o flaen llaw ac</del> Ardaloedd Chwilio Lleol</b></p> <p><del>Bydd cynigion ar gyfer ffermydd gwynt ar raddfa fawr o 10MW a throsodd yn cael eu caniatáu o fewn ardaloedd a nodwyd ac a aseswyd o flaen llaw ar gyfer Ynni Gwynt, fel y nodir yn "Cymru'r Dyfodol", yn amodol ar eu bod yn bodloni'r meini prawf a bennir isod.</del></p> <p><b>Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau solar o 5MW a mwy yn cael eu caniatáu yn yr <del>mewn</del> Ardaloedd Chwilio Lleol canlynol a nodwyd, ac fel y'i nodwyd ar y map cynigion, ar yr amod nad ydynt yn cael effaith annerbyniol ar amwynder gweledol na chymeriad y dirwedd a'u bod yn bodloni'r meini prawf a bennir isod.</b></p> <p><b>AChLI (A) – I'r gogledd-ddwyrain o Farmers</b> <b>AChLI (B) – Mynydd Pencarreg</b></p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p style="text-align: center;"><b>AChLI (C) – I'r gorllewin o Dalyllychau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><b>a) Na fydd y datblygiad yn cael effaith annerbyniol ar ddiogelwch ffyrdd, rheilffyrdd neu awyrennau; ymyriant electromagnetig annerbyniol i osodiadau cyfathrebu, systemau radar neu reoli traffig awyr, systemau cyfathrebu'r gwasanaethau brys, neu unrhyw systemau telathrebu eraill;</b></li> <li><b>b) Na fydd y cynigion yn achosi risg neu niwsans afresymol i, ac effaith ar, amwynder preswylwyr cyfagos neu aelodau eraill o'r cyhoedd, ac na fydd yn arwain at golli hygyrchedd cyhoeddus i'r ardal i raddau annerbyniol; <b>a</b></b></li> <li><b>c) Dylid cyflwyno mesurau lliniaru priodol gyda chynigion lle bo hynny'n ofynnol, gan gynnwys adfer tir yn foddhaol ar ôl datgomisiynu.</b></li> </ul> <p>Ychwanegu brawddeg at ddiwedd paragraff 11.476:</p> <p>11.482 O fewn Meysydd a Aseswyd o flaen Llaw ar gyfer Ynni'r Gwynt, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad i nodi'r ardaloedd hyn er mwyn rhoi sicrwydd, mewn egwyddor, lle byddai cynlluniau ynni gwynt ar raddfa fawr yn dderbyniol. <b>Bydd datblygiadau o dros 10MW o fewn ardaloedd chwilio lleol yn cael eu pennu yn unol â Cymru'r Dyfodol.</b></p> <p>Newid i baragraff 11.477 fel a ganlyn,</p> <p>11.477 Mae polisi <b>iau</b> CCH1 ac CCH2 yn berthnasol i <b>bob datblygiad</b> ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel y mae angen caniatâd cynllunio arnynt <b>ac sy'n cael eu pennu gan y Cyngor. Mae'r polisiâu <del>ae</del>-yn</b> nodi'r meini prawf a ddefnyddir i asesu cynigion. Gall y datblygiadau hyn gynnwys ffermydd gwynt ar y tir, tyrbinau gwynt, technoleg solar, biomas, ynni o wastraff, pŵer trydan dŵr a gwres a phŵer cyfunedig. <b>Caiff datblygiadau ynni ar raddfa fawr (o 10MW+) eu pennu yn unol â Pholisi 18 yn Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040. Mae'r polisiâu hyn yn berthnasol i geisiadau sydd islaw'r trothwy hwn yn unig.</b></p>
<b>MAC 078</b>	<b>AP6/3</b>	Diwygio Polisi CCH2 fel a ganlyn:

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
	<p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p><b>CCH2: Ynni Adnewyddadwy y Tu Allan i Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw ac Ardaloedd Chwilio Lleol</b></p> <p><b>Bydd cynigion ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel a seilwaith cysylltiedig yn cael eu caniatáu ar yr amod eu bod yn cyd-fynd â'r canlynol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><b>a) Na fydd y datblygiad yn cael effaith annerbyniol ar amwynder gweledol neu gymeriad tirweddol trwy: nifer, graddfa, maint, dyluniad a lleoliad tyrbinau a seilwaith cysylltiedig;</b></li> <li><b>b) Na fydd y datblygiad yn cael effaith annerbyniol ar gymeriad y dirwedd <del>ardaloedd sydd wedi'u dynodi oherwydd eu gwerth tirweddol</del>;</b></li> <li><b>c) Ni ddylai datblygiadau tyrbinau gwynt gael effeithiau cronus annerbyniol mewn perthynas â chydannau tyrbinau gwynt presennol, y rhai sydd wedi cael caniatâd neu sy'n cael eu cynnig;</b></li> <li><b>d) Na fydd y datblygiad yn cael effaith annerbyniol ar ffyrdd, rheilffyrdd, neu ddiogelwch hedfan; ymyriant electromagnetig ar osodiadau cyfathrebu, systemau radar neu reoli traffig awyr, systemau cyfathrebu'r gwasanaethau brys neu systemau telathrebu eraill;</b></li> <li><b>e) Na fydd y cynigion yn achosi risg neu niwsans annerbyniol afresymol i, ac effaith ar, amwynder preswylwyr cyfagos neu aelodau eraill o'r cyhoedd, ac na fydd yn arwain at golli hygyrchedd cyhoeddus i'r ardal i raddau annerbyniol;</b></li> <li><b>f) Dylid cyflwyno mesurau lliniaru priodol gyda chynigion lle bo hynny'n ofynnol, gan gynnwys adfer tir yn foddhaol ar ôl datgomisiynu.</b></li> </ul> <p>Mewnosod paragraffau newydd mewn cyfiawnhad rhesymegol ar ôl paragraff 11.482</p> <p>Dylid datblygu tir amaethyddol a nodwyd fel priddoedd gorau a mwyaf amlbwrpas (graddau 1,2 neu 3a) a phriddoedd carbon uchel dim ond os oes angen mawr am y datblygiad. Dylid ystyried tir arall yn gyntaf a lle nad oes modd lleoli'r cynnig ar dir amgen, rhaid rhoi cyfiawnhad priodol dros hynny.</p> <p>Caiff y tirweddau amrywiol ac o ansawdd uchel ledled y sir eu cydnabod. Yn hyn o beth, cyfeirir yn benodol at bolisi BHE1 y Cynllun hwn: Gwarchod a Gwella Cymeriad y Dirwedd, sy'n nodi'r ystyriaethau mewn perthynas â chymeriad y Dirwedd sy'n cynnwys ffactorau naturiol, diwylliannol a chanfyddiadol ac sy'n cynnwys elfennau gweledol/golygfaol. Cyfeirir ymhellach at yr Aseiad ategol o Gymeriad y Dirwedd fel y'i paratowyd drwy Ganllawiau Cynllunio Atodol. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn diffinio Ardaloedd Cymeriad Tirwedd penodol sy'n adeiladu ar werthusiadau LANDMAP o ardaloedd a dynodiadau</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd				
		hanesyddol a thirwedd i ddarparu llinell sylfaen ar gyfer nodi'r patrymau a'r cyfuniadau unigol o nodweddion sy'n diffinio 'ymdeimlad o le' adnabyddadwy sy'n gwneud pob Ardal Cymeriad Tirwedd yn unigryw ac i lywio penderfyniadau.				
MAC 079	<b>AP6/17</b>  Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	Diwygio Polisi CCH3 fel a ganlyn  <b>1.a) Datblygiad Preswyl</b>  <table border="1" data-bbox="501 571 1865 944"> <tr> <td data-bbox="501 571 1182 719"><b>Tai</b></td> <td data-bbox="1182 571 1865 719">Lle darperir garej, dreif neu fan parcio wedi'i neilltuo gyda thai, dylid darparu un <b>Uned*</b> pwynt Gwefru Cerbyd Trydan* i bob annedd.</td> </tr> <tr> <td data-bbox="501 719 1182 944"><b>Fflatiau (mannau parcio heb eu neilltuo)</b></td> <td data-bbox="1182 719 1865 944">Os oes gan ddatblygiad fflatiau fannau parcio integredig (dan do neu mewn cwrt parcio), dylai'r cynigion gynnwys o leiaf un man parcio pwrpasol gyda <b>phwynt Uned</b> Gwefru Cerbydau Trydan yn Gyflym (fel lleiafswm) i wasanaethu'r datblygiad.</td> </tr> </table> <b>2. b) Datblygiad Amhreswyl</b>  Ar gyfer datblygiadau amhreswyl lle darperir manau parcio ceir, dylai o leiaf 10% o'r manau hynny fod â phwynt gwefru Cerbyd ag Allyriadau Isel lawn. Dylid darparu pwyntiau gwefru cyflym ar gyfer cerbydau trydan lle mae'r rhwydwaith trydan lleol yn gallu cefnogi hyn yn dechnegol.	<b>Tai</b>	Lle darperir garej, dreif neu fan parcio wedi'i neilltuo gyda thai, dylid darparu un <b>Uned*</b> pwynt Gwefru Cerbyd Trydan* i bob annedd.	<b>Fflatiau (mannau parcio heb eu neilltuo)</b>	Os oes gan ddatblygiad fflatiau fannau parcio integredig (dan do neu mewn cwrt parcio), dylai'r cynigion gynnwys o leiaf un man parcio pwrpasol gyda <b>phwynt Uned</b> Gwefru Cerbydau Trydan yn Gyflym (fel lleiafswm) i wasanaethu'r datblygiad.
<b>Tai</b>	Lle darperir garej, dreif neu fan parcio wedi'i neilltuo gyda thai, dylid darparu un <b>Uned*</b> pwynt Gwefru Cerbyd Trydan* i bob annedd.					
<b>Fflatiau (mannau parcio heb eu neilltuo)</b>	Os oes gan ddatblygiad fflatiau fannau parcio integredig (dan do neu mewn cwrt parcio), dylai'r cynigion gynnwys o leiaf un man parcio pwrpasol gyda <b>phwynt Uned</b> Gwefru Cerbydau Trydan yn Gyflym (fel lleiafswm) i wasanaethu'r datblygiad.					
MAC 080	<b>AP6/4,</b> <b>AP15/4</b> <b>AP6/22</b>	Diwygio Polisi CCH4 fel a ganlyn:  <b>CCH4: Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr</b>				

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
	<p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad</p>	<p><b>Rhaid i gynigion datblygu wneud defnydd effeithlon o adnoddau dŵr a, lle bo hynny'n briodol, gyfrannu tuag at welliannau o ran ansawdd dŵr. Caniateir cynigion lle nad ydynt yn cael effaith andwyol ar adnoddau dŵr, ansawdd dŵr, pysgodfeydd, cadwraeth natur, mynediad i'r cyhoedd, neu ddefnydd hamdden sy'n gysylltiedig â dŵr yn y Sir.</b></p> <p><del>Lle bo'n briodol, rhaid gweithredu Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) ac mae angen cymeradwyaeth drwy'r Corff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy (SAB).</del></p> <p><b>Bydd cynigion yn cael eu cefnogi os ydynt yn hyrwyddo diogelu cyrsiau dŵr trwy glustogfeydd ecolegol neu goridorau, gan warchod agweddau megis cynefinoedd a rhywogaethau torlannol, ansawdd dŵr, a darparu ar gyfer capasiti gorlifdir.</b></p> <p><b>Dim ond os gellir dangos nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd gwarchoddedig sy'n sensitif i ffosfforws faetholion y bydd datblygiad yn cael ei ganiatáu. Lle bo hynny'n briodol, bydd angen i ddatblygiadau gyflawni niwtraliaeth maetholion. Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) afonol. Yn y dalgylch hydrolegol a ddynodwyd ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol, bydd angen i ddatblygiadau sy'n creu gollyngiadau dŵr gwastraff ddangos nad oes cynnydd mewn lefelau ffosfforws yn yr Ardal Cadwraeth Arbennig. Gellir cyflawni hyn drwy weithredu mesurau lliniaru a chanllawiau cynllunio atodol cysylltiedig. Pan fo tystiolaeth yn dangos y gellir osgoi neu wrthbwysio effeithiau andwyol ar gyfanrwydd Ardal Cadwraeth Arbennig afonol trwy ddefnyddio mesurau lliniaru, rhaid cytuno â'r rhain gyda'r Cyngor fesul achos, mewn ymgynghoriad â CNC.</b></p> <p>Diwygio paragraff 11.511 o'r cyfiawnhad rhesymegol i bolisi CCH4 fel a ganlyn</p> <p><del>11.511 Mae ystyriaethau ychwanegol yn berthnasol i ddatblygiad newydd lle gall cynnydd mewn ffosfforws, yn enwedig oherwydd gollyngiadau dŵr gwastraff, gael effaith andwyol ar gyfanrwydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afon Cleddau, Afon Teifi, Afon Tywi ac Afon Gwy, yn unol â Rheoliadau Cynefinoedd 2017 (fel y'u diwygiwyd). Mae ystyriaethau ychwanegol yn berthnasol i ddatblygiad lle gall maetholion gormodol gael effaith andwyol ar gyfanrwydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA, yn unol â Rheoliadau Cynefinoedd 2017 (fel y'u diwygiwyd).</del></p> <p>Diwygio'r cyfiawnhad rhesymegol i bolisi CCH4 i gynnwys y paragraff newydd canlynol ar ôl 11.512.</p> <p>O fewn y dalgylch hydrolegol a ddynodwyd ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol, bydd yn ofynnol i ddatblygiad ddangos nad oes effaith andwyol ar gyfanrwydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i faetholion. Lle mae'r dystiolaeth</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>yn dangos y gellir osgoi neu liniaru effeithiau andwyol ar gyfanrwydd ACA neu fod digon o gapasiti yn y gwaith trin cysylltiedig, rhaid cytuno ar hyn gyda'r awdurdod cynllunio fesul achos, mewn ymgynghoriad â CNC.</p> <p>Diwygio paragraffau 11.513 i 11.515 o'r cyfiawnhad rhesymegol dros bolisi CCH4 fel a ganlyn.</p> <p><b>Afonol</b></p> <p>11.513 Ym mis Ionawr 2021, pennodd <del>Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)</del> safonau ffosforws <del>newydd</del> tynnach ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol. O ran Sir Gaerfyrddin, darganfu profion cydymffurfio a wnaed gan CNC fod methiant i gyrraedd y safonau newydd hyn yn Afon Cleddau ac Afon Teifi. <del>Cyfeirir at y diweddariadau dilynol i Ganllawiau CNC sy'n nodi'r ystyriaeth ehangach i faetholion (yn hytrach na'r mater unigol o ffosffadau) o fewn yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol gwarchoddedig.</del></p> <p>11.514 Er mwyn hwyluso i gyflawni datblygiadau y gallai'r polisi hwn effeithio arnynt, mae'r Cyngor wedi paratoi <del>Strategaeth Lleihau Ffosforws</del> 'Cynllun Gweithredu Niwtraliaeth Maetholion Afon Tywi ac Afon Teifi'. Mae'r ddogfen yn nodi'r dull strategol o gyflawni <del>gostyngiadau maetholion (gan gynnwys gostyngiadau</del> ffosforws) yn y dalgylchoedd hyn gan hefyd hwyluso twf y CDLI a dangos bod modd cyflawni mesurau lliniaru <del>yn ymarferol</del>. Mae'r ddogfen yn nodi ystod o fesurau, y cytunwyd arnynt drwy ymgynghori â CNC. Mae 'Cynllun Gweithredu Niwtraliaeth Maetholion <del>Strategaeth Lleihau Ffosforws</del> Afon Tywi ac Afon Teifi' yn ddogfennau byw a fydd yn datblygu yn ystod oes y CDLI, mewn ymgynghoriad â CNC.</p> <p>11.515 Bydd y gwaith o gyflawni 'Cynllun Gweithredu Niwtraliaeth Maetholion <del>Strategaeth Lleihau Ffosforws</del> Afon Tywi ac Afon Teifi' yn cael ei gefnogi gan Fyrddau Rheoli Maetholion Afonydd Tywi, Teifi a Chleddau sydd wedi'u sefydlu. <del>Bydd gan y Byrddau hyn ddyletswyddau ehangach gyda'r nod ehangach o ddarparu'r atebion tymor hir ar sail dalgylch, i fynd i'r afael â mater ffosforws gormodol mewn afonydd, a gynhyrchir o weithgareddau a defnyddiau tir presennol yn y dalgylch ehangach, ac i nodi mesurau y gellid dibynnu arnynt i sicrhau buddion ehangach a gostyngiadau net ar draws y dalgylch.</del> Mae'r partneriaethau cydweithredol hyn yn gweithio ar raddfa dalgylch ar draws ffiniau awdurdodau lleol. Cylch gorchwyl y Byrddau a briodolir gan Lywodraeth Cymru yw cynhyrchu cynlluniau gweithredadwy sy'n seiliedig ar dystiolaeth i adfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig dŵr croyw i statws cadwraeth ffatriol ar gyfer ffosffad, wrth hefyd alluogi datblygu cynaliadwy o fewn dalgylchoedd sy'n sensitif i faetholion. Mae'r mesurau hyn y tu allan i gwmpas y CDLI <del>a chynllunio</del> ond maent yn bwysig ar gyfer dull cadarn o <del>leihau ffosforws</del> liniaru maetholion gormodol yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig <del>afonol</del> Sir Gaerfyrddin.</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>Mae'r Cyngor wedi hyrwyddo argymhellion y Cynllun Gweithredu ar sail strategol ac yn ôl yr arweiniad gan ddatblygwyr. Mae'r gwaith hwn wedi'i wneud ac yn parhau i gael ei wneud drwy fentrau dan arweiniad Sir Gaerfyrddin, a threfniadau cydweithredol y Byrddau Rheoli Maetholion ar draws yr is-ranbarth, yn enwedig ar gyfer dalgylchoedd Afonydd Teifi a Thywi. Fel aelod craidd o'r Byrddau Rheoli Maetholion, mae Sir Gaerfyrddin wedi cyfrannu at y Byrddau Rheoli Maetholion i sicrhau ei bod yn ddichonadwy cyflawni'r gofynion tai niwtral o ran maetholion a nodir yn 'Cynllun Gweithredu Niwtraliaeth Maetholion Afon Tywi ac Afon Teifi'. Yn ogystal â mesurau a gaiff eu harchwilio gan y Byrddau Rheoli Maetholion, bydd y Cyngor hefyd yn ceisio hwyluso'r cynlluniau trwy gynlluniau cyfalaf a neu drwy gyfleoedd cyllido allanol. Bydd cyflawni'r cynlluniau gweithredu nid yn unig yn bodloni amcanion ansawdd dŵr amgylcheddol, bydd hefyd yn mynd i'r afael â'r gofynion twf a nodir yn y CDLI Diwygiedig a'r taflwybrau cyflawni. Bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei ddiwygio mewn modd sy'n ymateb i newidiadau ym mholisi CNC, a newidiadau mewn capasiti hyblygrwydd a gynigir trwy adolygiad CNC o drwyddedau.</p> <p>Mae Byrddau Rheoli Maetholion Tywi a Teifi wedi nodi camau strategol y gellir eu cymryd i ganiatáu i ddatblygu barhau o fewn eu dalgylchoedd priodol fel y nodwyd yn y CDLI Diwygiedig heb gynyddu'r llwyth maetholion yn yr afon. Maent hefyd wedi nodi camau gweithredu ehangach i gyflawni targed cadwraeth ffafriol yr afon o ran ffosfforws. Mae'r Byrddau Rheoli Maetholion wedi cynhyrchu Cynlluniau Rheoli Maetholion byw ar gyfer y dalgylchoedd yr effeithir arnynt gyda chytundebau cyflawni datblygol.</p> <p><b>Morol</b></p> <p>Mae gan Ardaloedd Cadwraeth Arbennig morol Cymru nifer o nodweddion ecolegol sydd wedi'u dynodi ar gyfer diogelu'r amgylchedd gan gynnwys aberoedd, morlynnoedd arfordirol, cilfachau a baeau bas mawr a gwastadeddau llaid/gwastadeddau tywod sy'n sensitif i lefelau uchel o faetholion. Nododd yr asesiadau cyflwr wedi'u diweddarau a gynhaliwyd gan CNC ac a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2025 fod nodweddion sensitif i faetholion mewn rhai safleoedd dynodedig wedi cyrraedd cyflwr anffafriol o safbwynt cemegol (Nitrogen Anorganig Toddedig [DIN]) a biolegol (ffytoplancton a macroalgâu manteisgar). Mae'r ddau ohonynt yn ddangosyddion o gyfoethogi nitrogen.</p> <p>Yn Sir Gaerfyrddin, nododd CNC ddau ddalgylch penodol sy'n gysylltiedig â'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig hyn sy'n methu fel rhai lle mae angen niwtraliaeth maetholion lle maent yn debygol o arwain at gynydd mewn gollyngiadau nitrogen yn uniongyrchol i'r safleoedd hyn, neu y gall dalgylchoedd sy'n draenio i'r safleoedd hyn gyfrannu at gyflwr anffafriol yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig hyn neu danseilio mesurau i adfer eu nodweddion. Y ddau ddalgylch yr effeithir arnynt a nodwyd gan</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>CNC yn Sir Gaerfyrddin yw: Cilfach Tywyn Fewnol, ac Aberdaugleddau Mewnol. Bydd yn ofynnol i gynigion datblygu o fewn yr Ardaloedd Niwtraliaeth Maetholion ar gyfer Nitrogen sy'n gysylltiedig â Chilfach Tywyn Fewnol ac Aberdaugleddau Mewnol, ac sy'n gollwng iddynt, ddangos dim effaith andwyol ar gyfanrwydd yr ACA. Lle mae'r dystiolaeth yn dangos y gellir osgoi neu liniaru effeithiau andwyol ar gyfanrwydd yr ACA, rhaid cytuno ar hyn â'r Awdurdod Cynllunio Lleol fesul achos, a hynny mewn ymgynghoriad ag CNC.</p> <p>Er mwyn cefnogi a hwyluso'r gwaith o gyflawni datblygiadau a allai gael eu heffeithio gan oblygiadau canllawiau CNC ar niwtraliaeth maetholion yn y dalgylchoedd dŵr croyw morol, mae'r Cyngor yn paratoi canllawiau / pecyn cymorth lliniaru dan arweiniad datblygwyr yn ogystal â chanllawiau lliniaru strategol ochr yn ochr â Chynllun Gweithredu â ffocws. Bydd y mesurau lliniaru strategol ochr yn ochr â'r cynllun gweithredu yn canolbwyntio ar ddull strategol o liniaru yn y dalgylchoedd dŵr croyw a fydd, yn ogystal â mathau eraill o liniaru, yn hwyluso'r twf a nodwyd yn y CDLI Diwygiedig ac yn dangos y gellir cyflawni lliniaru. Bydd dull o'r fath yn cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad gan gynnwys mewn ymgynghoriad â CNC.</p> <p>Bydd paratoi'r Cynllun Gweithredu a'i gyflawni, ynghyd â'r ymateb i'r goblygiadau sy'n deillio o'r maetholion sy'n effeithio ar yr ACA morol a'r gofynion ar gyfer niwtraliaeth maetholion, yn cael eu cefnogi wrth ehangu cylch gwaith y Bwrdd Rheoli Maetholion i'r meysydd hyn. Bydd y dull cydweithredol a gymerir gan y byrddau yn sicrhau bod yr ymateb ar raddfa dalgylch ar draws ffiniau awdurdodau lleol.</p> <p>Mae'r Cyngor, wrth fwrw ymlaen â datblygu'r Cynllun Gweithredu, yn ogystal â'r sail strategol a than arweiniad datblygwyr, yn mynd i ganolbwyntio ar ddarparu dull sy'n canolbwyntio ar atebion a hynny ar sail ymagwedd amlhaenog tuag at liniaru. Bydd hyn yn cynnwys yr hyn a wneir gan Sir Gaerfyrddin, yn ogystal â'r rheiny a wneir ar y cyd drwy estyniad i'r Byrddau Rheoli Maetholion a threfniadau eraill gyda phartneriaid gan gynnwys awdurdodau cyfagos.</p> <p>Lle bo hynny'n briodol, bydd y Cyngor yn ceisio cyflymu'r gwaith lliniaru trwy gynlluniau cyfalaf a neu drwy gyfleoedd cyllido allanol.</p> <p>Wrth ddatblygu a bwrw ymlaen â'r canllawiau lliniaru / pecyn cymorth bydd sylw yn cael ei roi i'r ystod o wahanol gyfleoedd lliniaru sydd ar gael i ddatblygwyr. Bydd y dull hwn yn ceisio sicrhau bod datblygwyr/ymgeiswyr yn cael mynediad at gyngor ar ystod o fesurau lliniaru posibl a allai fod yn berthnasol fesul achos. Bwriad y dull yw arfogi unrhyw gynigion sy'n dod ymlaen gydag opsiwn priodol naill ai'n unigol neu fel rhan o gyfres o gynigion, bydd y rhain yn cynnwys cyfleoedd ar y safle ac oddi ar y safle gan gynnwys y cyfleoedd a gynigir gan waredu dŵr wyneb. Yn hyn o beth, pan fo angen datblygiad sy'n draenio'n uniongyrchol i Waith Trin Dŵr Gwastraff sydd yn ei dro yn gollwng i'r dalgylch dŵr croyw er mwyn sicrhau</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p>niwtraliaeth maetholion, efallai y bydd cynigion yn dymuno cyflwyno gwaredu dŵr wyneb fel mesur lliniaru (gweler polisi INF4 mewn perthynas â gwella dŵr wyneb) fel modd i gynorthwyo i sicrhau niwtraliaeth maetholion.</p> <p>Gellir canfod maint daearyddol y dalgylch dŵr croyw ar gyfer Cilfach Tywyn Fewnol ac Aberdaugleddau Mewnol gan ddefnyddio haen ddiweddaraf CNC fel sydd wedi'i chynnwys ar DataMapWales</p> <p>Mewn perthynas â'r dalgylchoedd dŵr croyw ACA afonol a morol, mae'r Cyngor wedi cynhyrchu (ac yn parhau i ddatblygu) llyfrgell o adnoddau i gynorthwyo datblygwyr i gyflwyno cynigion niwtral maetholion. Caiff yr adnoddau mynediad agored hyn eu diweddarau'n rheolaidd a gellir eu cyrchu trwy wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Cyfrifiannell Cyfrifo Maetholion Cymru Gyfan, a'r Canllawiau Lliniaru (a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023) yw'r unig offer penodol i ddalgylch sydd ar gael yng Nghymru. Mae cynigion dan arweiniad datblygwyr yn elwa ymhellach o arbenigedd y Byrddau Rheoli Maetholion wrth werthuso cynigion lliniaru cymhleth dan arweiniad datblygwyr. Bydd canllawiau lliniaru pellach i gefnogi datblygwyr ac ymgeiswyr a'r ymateb strategol i'r gofynion niwtraliaeth ar gyfer yr ACA Forol yn cael eu cyhoeddi ynghyd â fersiwn bellach o Gyfrifiannell Cymru Gyfan (fel y'i paratowyd gan Llywodraeth Cymru).</p> <p>Paragraff newydd i'w ychwanegu (ar ôl paragraff 11.519) yn rhoi cyfiawnhad rhesymegol Polisi CCH4 i adlewyrchu gofynion TAN 15 - datblygu, llifogydd ac erydiad arfordirol mewn perthynas â Datganiadau Draenio.</p> <p>Yn unol â'r polisi cenedlaethol, disgwylir i ymgeiswyr roi ystyriaeth briodol i ddraenio dŵr wyneb o ddechrau'r broses ddatblygu. Dylid cyfeirio at baragraff 7.6 o Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd (TAN15), sy'n cynghori, pan wneir cais am ganiatâd cynllunio cyn cael cymeradwyaeth SAB, y dylid cyflwyno Datganiad Draenio fel rhan o'r cais cynllunio.</p> <p>Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol pellach yn cael eu paratoi i ategu'r polisi hwn ynghyd â phecyn cymorth lliniaru mewn perthynas â'r ACA forol <del>cynhyrchu i gefnogi'r dulliau polisi a lliniaru a nodwyd ac i ymhelaethu ymhellach ar rôl cyfraniadau adran 106 a chyfraniadau datblygwyr.</del></p>
<b>MAC 081</b>	<b>AP6/5</b>	Dileu Polisi CCH5. Mae hyn yn arwain at newidiadau o ganlyniad i'r rhifau polisi CCH canlynol o fewn y Cynllun a'r tabl o ddangosyddion monitro.

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
	Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	<p><b>CCH5: Rheoli ac Osgoi Perygl Llifogydd</b>  <del>Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caniateir cynigion ar gyfer datblygiadau sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd dynodedig, sef:</del>  <del>Mewn ardaloedd sy'n wynebu perygl llifogydd afonol, glaw, arfordirol ac o gronfeydd dŵr, lle gellir dangos bod y datblygiad yn bodloni'r profion cyfiawnhau a nodir mewn Polisi Cenedlaethol a lle caiff ei ategu gan ddatganiad tystiolaethol technegol cadarn. Fodd bynnag, dim ond datblygiadau llai agored i ddifrod fydd yn cael eu caniatáu ym Mharth C2.</del></p> <p><del>b) Lle na fyddai'n cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd amddiffynfeydd presennol rhag llifogydd afonol, glaw neu arfordirol, neu na fyddai'n rhwystro mynediad at amddiffynfeydd presennol ac amddiffynfeydd yn y dyfodol at ddibenion cynnal a chadw a gwaith brys;</del>  <del>c) Lle na fyddai'r datblygiad yn arwain at gynnydd annerbyniol mewn perygl llifogydd ar y safle neu yn rhywle arall; neu,</del>  <del>d) Mewn ardaloedd sy'n wynebu perygl llifogydd o ffynonellau lleol, caiff strategaeth ddraenio ei chyflwyno sy'n dangos wrth fodd y Cyngor y gellir rheoli neu leddfu'r effeithiau.</del></p> <p><del>Dylai cynigion geisio ymgorffori mesurau lliniaru perygl llifogydd sy'n effeithiol ac yn gydnaws â'r amgylchedd, fel SuDS.</del></p> <p><del>Dylid ymgorffori cynigion lle mae'r posibilrwydd o ailgysylltu gorlifdiroedd yn y datblygiad i sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd, ac na cheir effaith niweidiol ar y gallu i storio a llif dŵr mewn gorlifdiroedd.</del></p> <p><del>11.520 Mae'r mwyafrif o aneddiadau yn Sir Gaerfyrddin wedi eu lleoli ger afonydd neu'r arfordir. Mae hyn yn adlewyrchu'r patrwm datblygu hanesyddol ac er na all y Cynllun ddylanwadu ar batrymau gofodol y gorffennol, gall helpu i lywio'r penderfyniadau gyda llesiant cenedlaethau'r dyfodol mewn golwg.</del>  <del>11.521 Er bod dealltwriaeth am lifogydd afonol a llanwol a chydnyddiaeth iddynt wedi bod yn ymhlyg mewn arfer cynllunio ers blynnyddoedd lawer, ceir ymwybyddiaeth gynyddol bellach o ffynonellau llifogydd eraill — yn enwedig dŵr wyneb. Gall y ffynonellau eraill hyn effeithio ar aneddiadau nad ydynt yn agos at afon neu'r arfordir.</del></p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
		<p><del>11.522 Mae'r polisi, a chyfeiriad strategol y Cynllun, yn cydnabod ac yn adlewyrchu'r angen am ddull cynaliadwy o ymdrin â pherygl llifogydd. Gan hynny, mae'r Cynllun hwn yn blaenoriaethu diogelu'r gorlifdir annatblygedig neu ddirwystr rhag datblygu ac yn ceisio atal effeithiau cronol datblygiad cynyddrannol. Fodd bynnag, mae hefyd yn ceisio cydnabod bod dynameg perygl llifogydd yn gymhleth ac yn ymestyn y tu hwnt i'r goblygiadau ar y safle o ran lleoli datblygiad unigol.</del></p> <p><del>11.523 Mae'r Cynllun yn rhoi sylw i ddarpariaethau polisi cynllunio cenedlaethol ar berygl llifogydd a defnyddiwyd dull rhagofalus wrth lunio polisiâu sy'n nodi dynodiadau defnydd tir a chynigion safle benodol. Mae'r Cynllun hefyd yn ceisio cydnabod natur ddynamig perygl llifogydd ond hefyd eu cyfraniad hanfodol i nodweddion amgylcheddol, bioamrywiaeth, rhwydwaith seilwaith gwyrdd a glas, a gwerth tirwedd cynhenid y Sir.</del></p> <p><del>11.524 Cydnabyddir cyfraniad prosesau sianeli naturiol ac mae'r polisi'n rhoi anogaeth i ailgysylltu gorlifdiroedd. O ganlyniad, dylid cynllunio datblygiadau, yn arbennig seilwaith newydd, mewn ffordd nad yw'n arwain at golled net yng ngallu storio gorlifdiroedd, yn rhwystro llifoedd dŵr nac yn cynyddu perygl llifogydd mewn mannau eraill. Dylid rhoi sylw i Botensial Ail-gysylltu Gorlifdiroedd – Gweithio Gyda Phrosesau Naturiol (WWNP).</del></p> <p><del>11.525 Nodir polisi cenedlaethol mewn perthynas â pherygl llifogydd yn Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd (2004). Nodir yr ardaloedd lle ceir perygl llifogydd afonol a llanwol ar y Mapiau Cyngor Datblygu sy'n cyd-fynd â'r nodyn. Caiff yr ardaloedd hyn eu categorio'n 4 parth, sef Parth A, Parth B, ac yn fwyaf nodedig Parthau C1 ac C2 sy'n fwy tueddol o brofi llifogydd.</del></p> <p><del>11.526 Bydd datblygiadau mewn ardaloedd lle ceir perygl mawr o lifogydd yn cael eu hystyried dim ond lle gellir dangos y gall y safle gydymffurfio â'r gofynion cyfiawnhau ac asesu a nodir yn TAN 15. Lle cynigir datblygiad mewn ardal o berygl llifogydd dynodedig, rhaid cyflwyno datganiad technegol i gyd-fynd ag ef er mwyn bodloni darpariaethau TAN15 a dangos yn glir y bydd y datblygiad newydd yn lliniaru bygythiad a chanlyniadau llifogydd.</del></p>
<b>MAC 082</b>	<p><b>AP6/6</b></p> <p>Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau</p>	<p>Diwygio Polisi CCH6 fel a ganlyn. Mae hyn eisoes yn cael ei ystyried drwy bolisi cenedlaethol yn Cymru'r Dyfodol (Polisi 16) ac mae'n cynrychioli dyblygu diangen.</p> <p>Cynigir gwelliant i'r cyfiawnhad rhesymegol isod i gysylltu â darpariaethau Cymru'r Dyfodol.</p> <p><b>CCH6: Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel mewn Datblygiadau Newydd</b></p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
	gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad	<p>Caiff cynigion datblygu sy'n cysylltu â <del>ffynonellau ynni adnewyddadwy presennol</del>, rhwydweithiau gwresogi ardal, <del>neu sy'n defnyddio technoleg carbon isel</del> eu cefnogi.</p> <p>Bydd yn ofynnol i gynigion datblygu sy'n cynnwys: datblygiad preswyl o 100 o dai neu fwy; neu ddatblygiad <b>masnachol</b> gyda chyfanswm arwynebedd llawr o <b>10,000 metr sgwâr</b> <del>1,000 metr sgwâr</del> neu fwy; gyflwyno Asesiad Ynni i benderfynu ar ddichonoldeb ymgorffori cynllun o'r fath, a lle y bo'n ymarferol, byddai'n ofynnol iddynt weithredu'r cynllun.</p> <p><del>Bydd datblygiadau mawr sy'n defnyddio ynni sylweddol yn cael eu hannog i hwyluso'r broses o ddatblygu Rhwydweithiau Gwresogi ac Oeri Ardal arfaethedig, a/neu gysylltu â hwy.</del></p> <p>Diwygio paragraff 11.528 o'r cyfiawnhad rhesymegol i Bolisi CCH6 fel a ganlyn.</p> <p>11.528 Bydd Asesiad Ynni yn ymchwilio i'r potensial i ymgorffori a defnyddio technoleg carbon isel, neu i ddefnyddio ffynonellau presennol ynni adnewyddadwy neu rhwydweithiau gwresogi ardal. Bydd yn ofynnol bod asesiadau'n dangos sut y gall y datblygiad wneud cyfraniad tuag at lefelau uwch o gynhyrchu ynni o ffynonellau adnewyddadwy neu garbon isel. <b>Dylid rhoi sylw i ddarpariaethau Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040 ac yn benodol Polisi 16. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau defnydd cymysg, ar raddfa fawr o 100 neu fwy o anheddau neu 10,000 metr sgwâr neu fwy o arwynebedd llawr masnachol, lle bo hynny'n ymarferol, fod â rhwydwaith gwres gyda ffynhonnell ynni adnewyddadwy / carbon isel neu wres gwastraff. Yn unol â Cymru'r Dyfodol, dylai ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad o'r fath baratoi Uwchgynllun Ynni i sefydlu ai rhwydwaith gwres yw'r opsiwn cyflenwi ynni mwyaf effeithiol, ynghyd â chynllun ar gyfer gweithredu hyn yn achos prosiectau ymarferol.</b></p>
<b>MAC 083</b>	<b>AP6/7</b>  Sicrhau bod cynnwys y Cynllun yn adlewyrchu'r camau gweithredu	<p>Diwygio Polisi CCH7. Yn ogystal, diwygio'r cyfiawnhad rhesymegol i Bolisi CCH7 sy'n cynnwys paragraffau 11.530 a 11.531, mewnosod paragraff newydd ar ôl 11.531, a diwygio paragraffau 11.532 a 11.534.</p> <p><b>CCH7: Newid yn yr Hinsawdd – Fforestydd, Coetiroedd, a Phlannu Coed</b></p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
	sy'n deillio o'r Archwiliad	<p><b>Rhoddir cefnogaeth i gynigion datblygu sy'n ceisio creu <del>a-diogelu</del> coetir, coedwigoedd, lleiniau a choridorau coed newydd (neu wella rhai presennol), a lle maent yn hyrwyddo'r gwaith o gyflawni'r targedau datgarboneiddio cenedlaethol a lleol.</b></p> <p><b>Bydd cefnogaeth yn cael ei rhoi i gynigion a fydd yn sicrhau'r manteision lluosog (ecosystemau) sy'n gysylltiedig â choed, coetiroedd, a choedwigoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda ac a reolir yn dda (e.e. dal a storio carbon, lliniaru llifogydd, gwelliannau mewn ansawdd aer a dŵr, lliniaru maetholion, bioamrywiaeth ac adfer natur, tirwedd, iechyd a llesiant, a gwerth amwynder).</b></p> <p><b>Dylai cynigion ystyried effeithiau andwyol posibl ar yr amgylchedd, rheoli perygl llifogydd, treftadaeth ddiwylliannol, cymunedau, a thirwedd, a, lle bo hynny'n briodol, dilyn yr hierarchaeth liniaru.</b></p> <p>11.530 Yn 2021, nodwyd targed gan Lywodraeth Cymru i gynyddu coetiroedd yng Nghymru o leiaf 5,000 hectar y flwyddyn i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd <sup>[101]</sup>. Mae'r polisi hwn yn adlewyrchu'r amcan cenedlaethol hwn a'r ymrwymiad i greu coedwig genedlaethol. Ceir cyfleoedd i greu cysylltiadau â Seilwaith Gwyrdd a Glas, <del>ymgorffori cyfleusterau teithio llesol</del> a gwella cyfleoedd twristiaeth a hamdden, yn ogystal â hyrwyddo gwell bioamrywiaeth, cysylltedd, a chydnerthedd ecosystemau. Gall gwaith plannu coetir wedi'i gynllunio'n dda fynd i'r afael â'r Argyfyngau Hinsawdd a Natur, fel y datganodd Llywodraeth Cymru a'r Cyngor.</p> <p>11.531 Cydnabyddir bod gan goed fanteision lluosog, fel yr amlinellir yn Natganiad Ardal De-orllewin Cymru<sup>[102]</sup> a Strategaeth Coetiroedd a Choed Llywodraeth Cymru <sup>[103]</sup>. Mae coed, coedwigoedd a choetir yn darparu ystod o wasanaethau i'r ecosystem, megis gwella ansawdd aer, cael yr effaith o oeri a darparu cysgod yn yr haf, lleihau sŵn, dal a storio carbon a chynyddu'r gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd. Mae coed, coedwigoedd a choetiroedd hefyd yn cynnig gwerth esthetig ac amwynder, <del>a gallant fod yn nodweddion pwysig yn ein haneddiadau a'n cefn gwlad agored</del>. Gallant gyfrannu at gadwraeth natur a chynyddu bioamrywiaeth, ac yn aml mae ganddynt werth hanesyddol ac at ddibenion hamdden. Maent hefyd yn helpu i greu teimlad o 'llesiant' ac mae ganddynt fudd economaidd.</p>

Cyfeirnod MAC	Pwynt Gweithredu / Rheswm	Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd
